Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26

Chwefror 2025



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddCyllid**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyllid**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddCyllid**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26

Chwefror 2025

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddCyllid**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Peredur Owen Griffiths AS**
Plaid Cymru



**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Rhianon Passmore AS**
Llafur Cymru



**Sam Rowlands AS**
Ceidwadwyr Cymreig

---

Mynychodd yr Aelodau a ganlyn fel dirprwyon yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Hannah Blythyn AS**
Llafur Cymru



**John Griffiths AS**
Llafur Cymru

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Peter Fox AS**
Ceidwadwyr Cymreig

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** .......... **7**

**Casgliadau ac Argymhellion** .......... **9**

**1. Cyflwyniad** .......... **15**

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 .......... 15

Protocol Proses y Gyllideb .......... 16

Ymgysylltu â'r Cyhoedd .......... 19

Dadl ar Flaenoriaethau'r Gyllideb .......... 20

Amserlen y Gyllideb .......... 21

Gwaith Craffu Cyn y Gyllideb .......... 24

Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2025-26 .......... 24

Barn y Pwyllgor .......... 26

**2. Trosolwg** .......... **29**

Cyd-destun Economaidd .......... 29

Cymariaethau Rhwng 2024-25 a 2025-26 .......... 31

Cysylltiadau Rhynglywodraethol .......... 35

Rhagolwg Ariannu .......... 37

Cynnydd yng Nghyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr .......... 40

Cyllid Ychwanegol .......... 40

Effaith ar sefydliadau yng Nghymru .......... 43

Barn y Pwyllgor .......... 47

**3. Trethiant, Rhagolygon ac Ysgogiadau Cyllidol Eraill** .......... **53**

Risgiau Cyllidol .......... 54

Trethi Datganoledig .......... 56

Ymwybyddiaeth y Cyhoedd .......... 56

Cyfraddau Treth Incwm Cymru ..... 57

Y Dreth Trafodiadau Tir ..... 60

Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ..... 62

Ysgogiadau Cyllidol Eraill ..... 63

Gwariant Cyfalaf ..... 63

Benthyca a Defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn ..... 65

Barn y Pwyllgor ..... 66

**4. Naratif a Dull Strategol ..... 70**

Naratif y Gyllideb ..... 70

Gwariant Ataliol ..... 71

Asesu Effaith ..... 74

Cyllidebu ar sail Rhywedd ..... 75

Trechu Tlodi ..... 76

Grŵp Arbenigol ar yr Argyfwng Costau Byw ..... 78

Trechu Tlodi Plant ..... 78

Gofal Plant ..... 80

Taliadau Tanwydd Gaeaf ..... 83

Barn y Pwyllgor ..... 85

**5. Blaenoriaethau'r Gyllideb ..... 90**

GIG Cymru ..... 90

Cynhyrchiant a Chanlyniadau'r GIG ..... 91

Seilwaith Digidol ..... 94

Gofal Cymdeithasol ..... 94

Gweithlu'r GIG a Gofal Cymdeithasol ..... 96

Llywodraeth Leol ..... 99

Cydnerthedd Ariannol ..... 100

Addysg ..... 103

Trafnidiaeth ..... 104

Barn y Pwyllgor ..... 105

**Atodiad 1: Rhestr o Sesiynau Tystiolaeth Lafar. ..... 112**

**Atodiad 2: Rhestr o'r Dystiolaeth Ysgrifenedig1 ..... 114**

Gwybodaeth Ychwanegol ..... 117

# Rhagair y Cadeirydd

Mae setliad ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 wedi cael ei ddisgrifio gan Ganghellor y Trysorlys fel y cynnydd mwyaf mewn cyllid termau real ers datganoli. Gyda'i addewid o "obaith" a "dyfodol mwy disglair", mae'r naratif ar gyfer y Gyllideb Ddrafft hon yn sicr yn newid i'w groesawu o gymharu â chyni'r blynyddoedd blaenorol.

Ein tasg ni fel Pwyllgor oedd ystyried a yw cynigion ariannu Llywodraeth Cymru yn cyfateb i'r rhethreg honno. Fodd bynnag, mewn sawl maes, roedden ni'n ystyried eu bod yn eiriau gwag.

Er gwaethaf y cynnydd mewn cyllid, mynegodd rhanddeiliaid bryderon sylfaenol ynghylch a yw'r cyllidebau arfaethedig ar gyfer y flwyddyn nesaf yn ddigonol i ddarparu lefelau digonol o gymorth a diogelu gwasanaethau hanfodol yng ngoleuni'r heriau a wynebir.

Yn rhy aml, gwelsom nad oedd ffocws ac eglurder i gynlluniau Llywodraeth Cymru ac mae ein hadroddiad yn nodi nifer o feysydd allweddol lle mae angen gwelliannau.

Cawsom ymchwydd o dystiolaeth gan sefydliadau sy'n pryderu am effaith y cynnydd yng Nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr, gyda nifer o gyrff yn rhybuddio am sefyllfa ymyl y dibyn os na ddarperir cymorth ychwanegol, ac rydym wedi galw ar Lywodraeth Cymru i roi eglurder ar y mater hwn ar frys.

Clywodd y Pwyllgor hefyd nad yw'r argyfwng costau byw wedi diflannu a'i fod wedi ymwreiddio ym mywydau beunyddiol llawer ledled Cymru. Canfuom fod Llywodraeth Cymru yn troi i ffwrdd oddi wrth ddarparu cymorth pwrpasol yn y maes hwn ac rydym o'r farn y dylid rhoi mwy o flaenoriaeth i hyn.

Er bod y Gyllideb Ddrafft yn dyrannu £1.5 biliwn ychwanegol ar gyfer 2025-26 o'i gymharu â 2024-25, clywsom dystiolaeth a oedd yn cwestiynu gwydnwch ariannol gwasanaethau rheng flaen ac rydym yn pryderu'n fawr nad yw'r rhagolygon ariannol tymor canolig i hirdymor ar gyfer nifer o sectorau yn gynaliadwy.

Roeddem hefyd yn siomedig gyda'r ffocws annigonol a roddwyd gan Lywodraeth Cymru ar fynd i'r afael â materion yn ymwneud â pherfformiad a chynhyrchiant ar draws gwasanaethau cyhoeddus, ac rydym yn cytuno â rhanddeiliaid bod angen gonestrwydd radical o fewn y llywodraeth i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Mae Llywodraeth Cymru ei hun yn cydnabod bod gwasanaethau cyhoeddus yn “fregus” ac, er gwaethaf dyraniadau cynyddol, bod llawer o wasanaethau yn “agos at y dibyn” ac yn methu “[g]wrthsefyll rhagor o ergydion”.

Rydym wedi gofyn i Lywodraeth Cymru am eglurder a sicrwydd ar frys ynghylch y camau sy'n cael eu cymryd drwy'r Gyllideb Ddrafft i sicrhau cynaliadwyedd ariannol gwasanaethau allweddol, yn ogystal â'r camau sy'n cael eu cymryd i ddeall effaith y cyllid sy'n cael ei ddarparu.

Ar adeg pan fo’r rhagolygon cyllido y tu hwnt i 2025-26 yn edrych yn fwyfwy cyfyngedig a chyda gwasanaethau o dan bwysau parhaus galw mawr, rydym o’r farn bod y camau hyn yn fwy hanfodol nag erioed.

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu barn y rhai a gymerodd ran yn ein sesiynau tystiolaeth, a'r rhai a ymatebodd i'n hymgynghoriad cyn y Nadolig yn ogystal ag unigolion a sefydliadau a ymgysylltodd â'r Pwyllgor yr haf diwethaf trwy ein grwpiau ffocws, ein digwyddiad i randdeiliaid yng Nghaerfyrddin a’n sesiynau yn Eisteddfod yr Urdd ym Meifod, yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd a'r Sioe Frenhinol.

Rydym yn ddiolchgar am bob cyflwyniad: ni fyddai'r adroddiad hwn wedi bod yn bosibl hebddynt ac, fel bob amser, mae ein rhanddeiliaid wedi bod yn allweddol wrth lywio ein casgliadau a'n hargymhellion.

Mae hon yn gyllideb garreg filltir a rhaglen bolisi unigol fwyaf Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r adroddiad hwn yn darparu meysydd clir lle mae angen mwy o ffocws a lle y dylid gwneud gwelliannau os yw am gyflawni ei huchelgeisiau. Edrychwn ymlaen at glywed sut y bydd yr Ysgrifennydd Cabinet yn gweithredu arnynt cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol ym mis Mawrth.

**Peredur Owen Griffiths AS**
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

# Casgliadau ac Argymhellion

**Casgliad 1.** Bydd y Pwyllgor yn ymgynghori â phwyllgorau'r Senedd sy'n ymwneud â chraffu ar y gyllideb cyn Adolygiad o Wariant Cymru a chylch cyllideb 2026-27 i archwilio ffyrdd o fanteisio i'r eithaf ar graffu ar y gyllideb yn y Senedd, er mwyn lliniaru effaith cyfnod craffu wedi'i gwtogi. .......... Tudalen 27

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell os, yn ôl y disgwyl, y bydd yr amserlen ar gyfer craffu ar y Gyllideb Ddrafft yn cael ei chwtogi ar gyfer cylch cyllideb 2026-27:

- bod yr Ysgrifennydd Cabinet a'i swyddogion yn parhau i fynychu sesiwn graffu rag-gyllidebol gyda'r Pwyllgor Cyllid; a
- bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn gweithio gyda'r Pwyllgor Cyllid i nodi ffyrdd y gellir gwella cyfleoedd craffu yn y Senedd. .......... Tudalen 27

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet:

- yn amlinellu ei farn ar newidiadau arfaethedig i Brotocol Proses y Gyllideb cyn dechrau'r flwyddyn ariannol nesaf; ac
- yn gweithio gyda swyddogion y Senedd i ddatblygu egwyddorion allweddol fel sail ar gyfer ail-lunio'r protocol yn sylfaenol cyn rownd nesaf y gyllideb. .......... Tudalen 27

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn darparu dyddiadau a manylion am y canlynol:

- Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU a rhan Llywodraeth Cymru yn y broses honno; ac
- Adolygiad o Wariant Llywodraeth Cymru ei hun, gan gynnwys pryd y bydd canlyniadau'r adolygiad yn hysbys a sut y gall y Senedd lywio'r broses honno. .......... Tudalen 28

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn esbonio sut mae cyllid cyfalaf wedi newid rhwng blynyddoedd ariannol 2024-25 a 2025-26, wedi'i ddadansoddi yn ôl portffolio a math o fuddsoddiad, a bod dull o'r fath yn cael ei fabwysiadu mewn cylchoedd cyllideb yn y dyfodol. .......... Tudalen 47

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn cynnwys cymhariaeth o ffigurau alldro o'r blynyddoedd ariannol blaenorol yn

erbyn y ffigurau arfaethedig ar gyfer y flwyddyn i ddod, fel rhan o ddogfennaeth y Gyllideb Ddrafft o'r cylch cyllideb nesaf ymlaen. ........ Tudalen 47

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn cyhoeddi'r data tryloywder grant bloc diweddaraf cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol ac yn rheolaidd wedi hynny. ........ Tudalen 48

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn rhannu gwybodaeth a ddarperir gan y Trysorlys i Lywodraeth Cymru yn dangos symiau canlyniadol Barnett gyda'r Senedd yn fuan ar ôl pob digwyddiad cyllidol yn y DU. ........ Tudalen 48

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod materion gyda'r Fframwaith Cyllidol yn ymwneud ag uwchraddio benthyciadau a therfynau ar Gronfa Wrth Gefn Cymru i'r gwerth gwreiddiol mewn termau real, a dileu'r terfyn tynnu i lawr blynyddol o Gronfa Wrth Gefn Cymru, yn cael eu datrys cyn diwedd blwyddyn ariannol 2025-26 a bod diweddariad yn cael ei roi i'r Pwyllgor ar ei hynt erbyn toriad yr haf. ........ Tudalen 49

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu manylion ac amserlenni sy'n ymwneud â'r Adolygiad o Wariant Cymru, gan gynnwys manylion dogfennau ac allbynnau, ac yn ymrwymo i osod dogfennau o'r fath gerbron y Senedd cyn Cyllideb Ddrafft 2026-27 er mwyn caniatáu amser i bwyllgorau'r Senedd lywio a dylanwadu'n ystyrlon ar ei ganlyniadau. ........ Tudalen 50

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf, ar fyrder a chyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol, ar gyllid y bydd Llywodraeth Cymru yn ei gael gan y Trysorlys i liniaru effaith y cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr. ........ Tudalen 51

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn cynnal asesiad o'r effaith y bydd cynyddu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr yn ei chael ar sefydliadau trydydd sector yng Nghymru, ac i wybodaeth o'r fath fod ar gael i'r cyhoedd cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol ........ Tudalen 51

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn sicrhau bod unrhyw gyllid ychwanegol a ddarperir gan Lywodraeth y DU i wneud iawn am y cynnydd yng Nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr yn cael ei ddosbarthu i awdurdodau lleol yn seiliedig ar gyfrifiadau o gostau ychwanegol o ganlyniad i'r newid. ........ Tudalen 52

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol a'r sector cyhoeddus i ddeall yr effaith y mae'r cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol yn ei chael ar wasanaethau a gomisiynir ac yn ystyried y dull mwyaf priodol o ddosbarthu arian i liniaru'r effaith ariannol. .......... Tudalen 52

**Argymhelliad 14.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn darparu naratif ynghylch sut yr eir i'r afael ag effeithiau risgiau ariannol hirdymor allweddol, megis newid hinsawdd, tueddiadau demograffig ac iechyd, yn y tymor byr, canolig a hir, er mwyn galluogi pwyllgorau'r Senedd i ystyried y dull hwn cyn cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2026-27. .......... Tudalen 66

**Argymhelliad 15.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, fel rhan o'r gwaith o ailgynllunio ei chyhoeddiad Rhagolwg Trethi Cymreig, yn rhoi blaenoriaeth i wella ei dadansoddiad o dwf a pherfformiad cymharol sylfaen drethi ac incymau treth Cymru o gymharu â'r DU yn ei hallbynnau trethi Cymreig. .......... Tudalen 67

**Argymhelliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei gwaith i ddeall yr effaith y bydd rhewi trothwyon treth incwm yn ei chael ar gyfran y dreth incwm a godir yng Nghymru, cyn cylch cyllideb 2026-27. .......... Tudalen 67

**Argymhelliad 17.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad trafodaethau y mae wedi'u cael gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gamau a gymerwyd i liniaru colli data allweddol a'i effaith ar ragolygon Cymru. .......... Tudalen 68

**Argymhelliad 18.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn darparu manylion unrhyw asesiadau y mae wedi'u gwneud o effaith debygol ei gynlluniau i gynyddu buddsoddiad cyfalaf yn sylweddol yn 2025-26 a sut y gallai hyn effeithio ar gapasiti ar gyfer buddsoddiad gan y sector preifat yng Nghymru, yn gadarnhaol ac yn negyddol. .......... Tudalen 69

**Argymhelliad 19.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn egluro sut mae'r Gyllideb Ddrafft yn symud arian i gefnogi mesurau ataliol, wedi'i ddadansoddi ar gyfer pob Prif Grŵp Gwariant, a bod hyn yn cael ei ddarparu cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol. .......... Tudalen 85

**Argymhelliad 20.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn gweithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i gytuno ar ddiffiniad wedi'i ddiweddaru o'r hyn a olygir gan wariant ataliol, i'w gynnwys yn naratif y Gyllideb

Ddrafft ar gyfer 2026-27, a bod diweddariad ar y trafodaethau hynny yn cael ei ddarparu erbyn toriad yr haf. ........ Tudalen 85

**Argymhelliad 21.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn gweithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i adolygu'r Asesiad Effaith Integredig Strategol er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'n gywir y ffyrdd o weithio a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau hynny cyn toriad yr haf. ........ Tudalen 86

**Argymhelliad 22.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn gwerthuso'r dogfennau y mae'n eu cynhyrchu i asesu effaith y gyllideb, i'w gwneud mor syml â phosibl i randdeiliaid nodi sut mae penderfyniadau cyllidebol yn cyd-fynd â nodau Llywodraeth Cymru. ........ Tudalen 86

**Argymhelliad 23.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi, fel mater o frys, ganlyniadau'r cynlluniau peilot cyllidebu ar sail rhywedd sy'n weddill ac yn gweithio gyda rhanddeiliaid i adlewyrchu'r canlyniadau mewn cylchoedd cyllidebol yn y dyfodol. ........ Tudalen 87

**Argymhelliad 24.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn sefydlu Pwyllgor Sefydlog ar Gostau Byw a Thlodi ar frys er mwyn sicrhau bod cymorth yn cael ei ddarparu i'r rhai sydd fwyaf ei angen, a bod diweddariad ar gynnydd ar y mater hwn yn cael ei ddarparu erbyn toriad yr haf. ........ Tudalen 87

**Argymhelliad 25.** Rydym yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn rhoi manylion ynghylch ble a phryd y bydd cynllun Bwndeli Babanod Llywodraeth Cymru yn cael ei gyflwyno, ac os nad yw'r bwndeli'n cael eu darparu'n gyffredinol ledled Cymru, yn esbonio'r rhesymau dros hyn, ac i wybodaeth o'r fath gael ei darparu cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol. ........ Tudalen 87

**Argymhelliad 26.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet:

- yn cadarnhau'r costau sy'n gysylltiedig â chyflwyno Cam 3 Dechrau'n Deg;
- yn cyhoeddi diweddariad ar y cynnig i gyflwyno rhaglen Dechrau'n Deg yn llawn, gan gynnwys yr amserlenni cysylltiedig; ac
- i'r rhain gael eu darparu cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol. ...... Tudalen 88

**Argymhelliad 27.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn gweithio gyda sefydliadau cymorth ac elusennol, gan gynnwys y cyrff hynny sy'n

cynrychioli pobl hŷn, i sicrhau bod y rhai sy'n gymwys i gael cymorth ariannol yn lle'r Taliadau Tanwydd Gaeaf yn gallu gwneud hynny. ........................................ Tudalen 88

**Argymhelliad 28.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn egluro sut y bydd y dyraniadau yn y Gyllideb Ddrafft yn mynd i'r afael â'r galw cynyddol am ofal cymdeithasol ac yn amlinellu'r camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd, fel mater o frys, i fynd i'r afael â'r model cyllido gofal cymdeithasol i sicrhau ei wytnwch yn y dyfodol ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor erbyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol. ..................... Tudalen 106

**Argymhelliad 29.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am unrhyw gyllid ychwanegol y bydd Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i'r sector gofal cymdeithasol ac at ddibenion cysylltiedig, cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol. ........................................................ Tudalen 106

**Argymhelliad 30.** Yn dilyn Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU, mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn darparu setliadau ariannu amlflwyddyn i awdurdodau lleol, fel mater o frys, i sicrhau mwy o sefydlogrwydd ariannol ac i hwyluso cynllunio ar gyfer y dyfodol. ................................................... Tudalen 107

**Argymhelliad 31.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn ystyried cyllido gwaelodol ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghyllideb Derfynol 2025-26 ac yn darparu'r meini prawf a ddefnyddir ar gyfer penderfynu pryd, ac ar ba lefel, i weithredu cyllido gwaelodol. .............................................................................. Tudalen 107

**Argymhelliad 32.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn rhoi eglurder pellach ar y protocol sy'n cael ei ddatblygu rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol a fyddai'n berthnasol o dan amgylchiadau o her ariannol sylweddol, gan gynnwys amserlenni ar gyfer gweithredu, erbyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol. ........................................................................................................... Tudalen 107

**Argymhelliad 33.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r llythyr dyraniad i Fyrddau Iechyd Lleol ar gyfer 2025-26 a Fframwaith Cynllunio GIG Cymru ar gyfer 2025-2028 cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol, ac yn ailadrodd ei argymhelliad y dylai Llywodraeth Cymru, fel mater o drefn, wneud yr wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd bob blwyddyn ar yr un pryd ag y caiff ei rhoi i'r sector er mwyn hwyluso craffu ar y Gyllideb Ddrafft. ........................................... Tudalen 108

**Argymhelliad 34.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet:

- yn esbonio sut mae Llywodraeth Cymru yn asesu cynhyrchiant ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru;

- yn esbonio sut mae'r dyraniadau cyfalaf yn gysylltiedig â gwneud refeniw yn fwy effeithlon; ac
- yn amlinellu'r gwelliannau y mae'n eu disgwyl gan wasanaethau cyhoeddus yn 2025-26 yn gyfnewid am y cyllid cyfalaf a ddarperir; a bod yr wybodaeth hon yn cael ei darparu cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol. ........ Tudalen 109

**Argymhelliad 35.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn egluro sut y penderfynwyd ar y £40 miliwn ar gyfer y Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol o fewn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sut y bydd yn cael ei ddyrannu a sut y bydd canlyniadau ar gyfer y cyllid hwn yn cael eu gwerthuso. ........ Tudalen 109

**Argymhelliad 36.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn rhoi sicrwydd bod y cyllid a ddyrennir yn y Gyllideb Ddrafft i leddfu pwysau gweithlu yng ngweithlu'r GIG a Gofal Cymdeithasol yn ddigonol i fynd i'r afael â'r heriau recriwtio a chadw sy'n cael eu hwynebu. ........ Tudalen 110

**Argymhelliad 37.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn cadarnhau a yw'r cyllid ar gyfer addysg a hyfforddiant gweithlu'r GIG yn adlewyrchu Cynllun Addysg a Hyfforddiant Addysg a Gwella Iechyd ar gyfer 2025-26, gydag esboniad os nad yw hyn yn wir ynghyd ag asesiad o'r canlyniadau posibl. ........ Tudalen 110

**Argymhelliad 38.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn amlinellu sut mae cyllid yn cael ei flaenoriaethu i gefnogi Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y Gyllideb Ddrafft, a'r canlyniadau y mae'n eu disgwyl i'r cyllid hwn eu cyflawni, cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol. ........ Tudalen 110

**Argymhelliad 39.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y tybiaethau a ddefnyddiwyd i gyfrifo dyraniadau i Trafnidiaeth Cymru yn y Gyllideb Ddrafft cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol. ........ Tudalen 111

# 1. Cyflwyniad

## Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26

**1.** Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei Chyllideb Ddrafft ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r Gyllideb Ddrafft yn nodi cynlluniau gwariant refeniw a chyfalaf cyffredinol ar gyfer 2025-26.

**2.** Mae cyfanswm Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru yn cynnwys y canlynol:

- Cyllid gan Lywodraeth y DU a elwir y Grant Bloc;
- Cynlluniau benthyca a defnydd o Gronfa Wrth Gefn Cymru;
- Cyfraddau Treth Incwm Cymru;
- Ardrethi annomestig; a
- Trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn (y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi).

**3.** Gosodwyd Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26[1] ('y Gyllideb Ddrafft') gerbron y Senedd ddydd Mawrth 10 Rhagfyr 2024, ynghyd â'r dogfennau ategol canlynol:

- Naratif y Gyllideb Ddrafft[2];
- Adroddiad economaidd a chyllidol Cymru[3];
- Dadansoddiad dosbarthiadol o wariant cyhoeddus datganoledig yng Nghymru[4];
- Adroddiad ar bolisi trethi[5];
- Rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer trethi datganoledig Cymru[6]; a

[1] Llywodraeth Cymru, Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26, Rhagfyr 2024
[2] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2025-256 Rhagfyr 2024
[3] Llywodraeth Cymru, adroddiad economaidd a chyllidol Cymru, Rhagfyr 2024
[4] Llywodraeth Cymru, Dadansoddiad dosbarthiadol o wariant cyhoeddus datganoledig yng Nghymru, Rhagfyr 2024
[5] Llywodraeth Cymru, Adroddiad ar bolisi trethi, Rhagfyr 2024
[6] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Rhagolygon ar gyfer trethi datganoledig Cymru, Rhagfyr 2024

- Canllaw Cyflym Cyfraddau Treth Incwm Cymru 2025-2026[7].

**4.** Mae allbynnau eraill yn cynnwys Asesiad Effaith Integredig Strategol (SIIA)[8], Cynllun Gwella'r Gyllideb (BIP)[9], Llinellau gwariant cyllideb[10], tablau sy'n cefnogi cynlluniau gwariant[11], dogfen yn amlinellu costau gweithredu deddfwriaeth[12], taflen Cyllideb Ddrafft[13], cynigion manwl (ar ffurf y cynnig cyllidebol)[14] a Chynllun Cyllid Seilwaith (IFP)[15].

**5.** Mae'r Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) yn gyfrifol am ystyried y Gyllideb Ddrafft o safbwynt strategol, cyffredinol, yn unol â Rheol Sefydlog 19. Mae pwyllgorau polisi unigol yn cynnal eu sesiynau eu hunain i ganolbwyntio ar dystiolaeth er mwyn edrych yn fanwl ar yr agweddau ar y Gyllideb Ddrafft sydd o fewn eu cylchoedd gwaith, a llunio adroddiad arnynt.[16]

## Protocol Proses y Gyllideb


**6.** Mae Protocol Proses y Gyllideb (y Protocol) yn ofynnol o dan Reol Sefydlog 20.1A[17] ac yn nodi'r trefniadau gweinyddol ar gyfer craffu ar y Gyllideb Ddrafft a materion eraill sy'n gysylltiedig â'r gyllideb. Cytunodd y Senedd ar y Protocol cyfredol ar 21 Mehefin 2017.[18] Mae'n nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r Gyllideb Ddrafft mewn dau gam:

- cynigion amlinellol sy'n dangos cynlluniau gwariant a chyllido strategol lefel uchel Llywodraeth Cymru; a'r
- Gyllideb Ddrafft fanwl, lle bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cynigion y gyllideb ar gyfer pob portffolio ar lefel Llinellau Gwariant yn y Gyllideb neu lefel gyfatebol, ynghyd â naratif ategol priodol.

**7.** Fodd bynnag, dros y chwe blynedd diwethaf (gan gynnwys eleni), mae Llywodraeth Cymru wedi oedi cyn cyhoeddi ei Chyllideb Ddrafft, gyda'r cynigion

[7] Llywodraeth Cymru, Canllaw Cyflym Cyfraddau Treth Incwm Cymru 2025 i 2026, Rhagfyr 2024
[8] Llywodraeth Cymru, Asesiad Effaith Integredig Strategol, Rhagfyr 2024
[9] Llywodraeth Cymru, Cynllun Gwella'r Gyllideb, Rhagfyr 2024
[10] Llywodraeth Cymru, Llinellau gwariant y gyllideb, Rhagfyr 2024
[11] Llywodraeth Cymru, Tablau yn ategu'r cynlluniau gwari0, Rhagfyr 2024
[12] Llywodraeth Cymru, Costau gweithredu deddfwriaeth 2025-26, Rhagfyr 2024
[13] Llywodraeth Cymru, Canllaw Cyllideb Ddrafft 2025-26, Rhagfyr 2024
[14] Llywodraeth Cymru, Cynigion Cyllideb Ddrafft, Rhagfyr 2024
[15] Llywodraeth Cymru, Cynllun cyllid seilwaith 2025 i 2026, Rhagfyr 2024
[16] Rheolau Sefydlog Senedd Cymru, Medi 2024
[17] Rheolau Sefydlog Senedd Cymru, Medi 2024
[18] Protocol Proses y Gyllideb, Mehefin 2017

amlinellol a manwl yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd.[19] Fel y mae'r ffeithlun a ganlyn yn ei ddangos, roedd hyn wedi arwain at broses graffu gyfyngedig yn y cylch cyllideb blynyddol:




**Allwedd:**

PAPAC = Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

**8.** Mae'r Pwyllgor wrthi'n ystyried newidiadau i'r Protocol, yn unol â chais y Pwyllgor Busnes[20] yng ngoleuni profiadau yn y Chweched Senedd hyd yma. Mae

[19] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 8 Awst 2024
[20] Llythyr gan y Pwyllgor Busnes at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 2 Awst 2023

cynigion y Pwyllgor ar gyfer newid, sy'n adlewyrchu safbwyntiau a fynegwyd gan y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol, wedi'u hamlinellu mewn gohebiaeth a anfonwyd at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar y pryd ar 11 Rhagfyr 2023[21] ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet ar y pryd ar 4 Gorffennaf 2024.[22]

**9.** Cyhoeddwyd llythyr dilynol gan y Pwyllgor i Ysgrifennydd presennol y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg (yr Ysgrifennydd Cabinet) ar 25 Hydref 2024, yn fuan ar ôl i'r sesiwn graffu cyn y gyllideb gael ei chynnal, yn gofyn am eglurder ynghylch safbwynt Llywodraeth Cymru ar newidiadau i'r Protocol "cyn gynted â phosibl ar ôl Cyllideb yr Hydref ar 30 Hydref 2024 a chyn i'r Gyllideb Ddrafft gael ei chyhoeddi".[23] Fodd bynnag, ni chafwyd ateb hyd yma.

**10.** Pan ofynnwyd iddo am y mater hwn yn y Pwyllgor, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet mewn perthynas â newidiadau i'r Protocol:

> *"My own view is that there is only so far we can go in the remainder of this Senedd term, because there's another big contextual change that's about to happen, which is that, after 2026, there will be a larger number of Senedd Members… I don't know that we are in a position to make decisions for those who will come after us in that new context."*[24]

**11.** Fodd bynnag, ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod pethau y gallwn weithio arnynt, serch hynny, yn bwrpasol ac yn ddefnyddiol, yn y cyfamser, a bod hyn yn cynnwys ystyried newidiadau a gyflwynwyd ers sefydlu'r Protocol i weld a ydynt wedi bod yn ddefnyddiol, a fyddent yn bethau y byddem am eu hargymell i bwyllgor olynol i'w cadw.[25]

**12.** O ran a ddylai'r newidiadau hyn gael eu hadlewyrchu mewn Protocol diwygiedig, ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"If the committee is happy to do it, then I am very happy to make my officials available to you, to review the operational side of the protocol, as we will … have to manage it during the*

[21] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet, 11 Rhagfyr 2023
[22] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet, 4 Gorffennaf 2024
[23] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 25 Hydref 2024
[24] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 8
[25] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 9

> *rest of this term, and then maybe to think ahead and see if there are any ideas we would put to an incoming new Government and new scrutiny arrangements, so that a more fundamental redrawing of the protocol can be brought about, to take account of the fact that this is how it's going to be now."*[26]

## Ymgysylltu â'r Cyhoedd

**13.** Cyn cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft yn ystod hydref 2024, cynhaliodd y Pwyllgor gyfres o weithgareddau ymgysylltu rhag-gyllidebol yn ystod haf 2024 i lywio ei waith craffu ar gynigion ariannu Llywodraeth Cymru yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Yn eu plith roedd:

- digwyddiad allanol i randdeiliaid yng Nghanolfan S4C Yr Egin yng Nghaerfyrddin ar 13 Mehefin 2024;
- grŵp ffocws pwrpasol ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed wedi'i hwyluso gan dîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd a gynhaliwyd yng Ngholeg y Cymoedd, Nantgarw, ar 16 Mai 2024;
- sesiwn galw heibio yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Meifod ar 30 Mai 2024; a
- grwpiau ffocws gyda 84 o gyfranogwyr yn cwmpasu 20 o awdurdodau lleol ledled Cymru wedi'u hwyluso gan dîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd, a gynhaliwyd rhwng mis Mai a mis Mehefin 2024.

**14.** Mae Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2024, yn crynhoi'r safbwyntiau a fynegwyd yn ystod y sesiynau hyn.[27]

**15.** Cynhaliwyd rhagor o sesiynau ymgysylltu hefyd yn Sioe Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd. Ynghyd â'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn yr Adroddiad Ymgysylltu Cryno, bu'r sesiynau hyn yn llywio sesiynau craffu rhag-gyllidebol y Pwyllgor gyda'r Ysgrifennydd Cabinet ar 25 Medi 2024.[28]

[26] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 9
[27] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad Ymgysylltu Cryno: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26, Gorffennaf 2024
[28] Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 25 Medi 2024

## Dadl ar Flaenoriaethau'r Gyllideb

**16.** Cynhaliodd y Pwyllgor ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar Flaenoriaethau Gwariant Llywodraeth Cymru ar 17 Gorffennaf 2024,[29] yn seiliedig ar Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu'r Pwyllgor.[30] Y prif faterion a godwyd gan randdeiliaid oedd:

- anghydbwysedd cyffredinol rhwng ariannu gwasanaethau rheng flaen a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau ataliol, sydd wedi arwain at benderfyniadau gwariant adweithiol tymor byr gan Lywodraeth Cymru, ar draul cyllidebu strategol tymor hwy;
- diffyg dealltwriaeth gan Lywodraeth Cymru am effaith ei phenderfyniadau gwariant, yn enwedig o ran torri cyllid, ac mae angen gwneud mwy o asesiadau i lywio'r ffordd yr eir ati i bennu blaenoriaethau'r gyllideb; ac
- mae angen i Lywodraeth Cymru ymrwymo i setliadau ariannu mwy hirdymor ar gyfer llywodraeth leol er mwyn galluogi i gyllid hirdymor gael ei drosglwyddo i'r sefydliadau a gefnogir gan lywodraeth leol.[31]

**17.** Roedd y materion penodol a godwyd yn cynnwys:

- effaith hirdymor yr argyfwng costau byw;
- pwysigrwydd buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol;
- pwysau cyllidebol ar wasanaethau addysgol a'r effaith y mae'n ei chael ar staff a disgyblion/myfyrwyr;
- yr heriau sy'n wynebu'r GIG a'r sector gofal cymdeithasol a'r angen i integreiddio;
- creu cymunedau, nid cartrefi yn unig; a
- gwario'n fwy effeithlon ac effeithiol i ddatblygu'r economi leol.[32]

---

[29] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 17 Gorffennaf 2024
[30] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad Ymgysylltu Cryno: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26, 26 Gorffennaf 2024
[31] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26, Gorffennaf 2024
[32] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26, Gorffennaf 2024

**18.** Yn ystod dadl y Cyfarfod Llawn, rhoddodd y Cadeirydd grynodeb o'r safbwyntiau a fynegwyd drwy waith ymgysylltu'r Pwyllgor o dan y meysydd blaenoriaeth canlynol:

- datblygu dull cynaliadwy a chyfannol o ariannu iechyd a gofal cymdeithasol, sy'n gydgysylltiedig ac sydd wedi'i wreiddio mewn cydweithrediad â gwasanaethau rheng flaen eraill;
- mynd i'r afael â'r pwysau cyllidebol yn y sector addysg, sydd ar ymyl y dibyn;
- adeiladu tai a datblygu cymunedau lle mae pobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael cymorth i fyw a gweithio;
- adeiladu'r economi leol drwy greu swyddi cynaliadwy, darparu gwell cysylltiadau trafnidiaeth, ac adeiladu tai fforddiadwy; a
- darparu cymorth wedi'i dargedu yn y gyllideb ddrafft i bobl ifanc.[33]

## Amserlen y Gyllideb

**19.** Ar 4 Gorffennaf 2024, ysgrifennodd y Trefnydd a'r Prif Chwip[34] ar y pryd ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet ar y pryd,[35] at y Pwyllgor Busnes a'r Pwyllgor Cyllid yn nodi amserlen ar gyfer cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft, yn unol â'r amserlenni a nodir o dan Reol Sefydlog 20. Roedd y ddau lythyr yn cynnig:

- y byddai'r cynigion drafft amlinellol a manwl yn cael eu gosod gyda'i gilydd gerbron y Senedd ar 10 Rhagfyr 2024;
- y dyddiad cau i bwyllgorau'r Senedd gyflwyno adroddiad ar y Gyllideb Ddrafft fyddai 3 Chwefror 2025, gyda dadl ar y Gyllideb Ddrafft yn y Cyfarfod Llawn yn cael ei chynnal drannoeth ar 4 Chwefror 2025; ac
- y byddai'r Gyllideb Derfynol yn cael ei gosod ar 25 Chwefror 2025.

**20.** Ymatebodd y Pwyllgor ar 11 Gorffennaf 2024[36] yn croesawu y byddai'r Gyllideb Ddrafft yn cael ei gosod yn ystod y tymor, yn hytrach nag yn ystod y

---

[33] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 17 Gorffennaf 2024, paragraffau 219-244
[34] Llythyr gan y Trefnydd a'r Prif Chwip i'r Pwyllgor Busnes, 4 Gorffennaf 2024
[35] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 4 Gorffennaf 2024
[36] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet, 11 Gorffennaf 2024

toriad, ond gofynnodd am ystyried cyfnod craffu hirach. Roedd y llythyr hefyd yn beirniadu'r Ysgrifennydd Cabinet am beidio â mynd i'r afael â'r pwyntiau a godwyd gan bwyllgorau'r Senedd yn dilyn craffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-25,[37] a rannwyd mewn gohebiaeth ar 27 Mehefin 2024,[38] a gofynnodd i'r canlynol gael eu hystyried:

- mwy o amser ar gael i graffu ar y Gyllideb Ddrafft er mwyn galluogi pwyllgorau i asesu'n ystyrlon effaith y Gyllideb Ddrafft ar feysydd polisi yn eu cylchoedd gwaith ac, yn benodol, caniatáu amser i gynnwys safbwyntiau rhanddeiliaid;
- blaenoriaethu dull cyllideb dau gam, yn unol â'r broses a amlinellwyd yn y Protocol, os bydd amser i wneud hynny yn dilyn digwyddiad cyllidol Llywodraeth y DU; a
- cyhoeddi papurau tystiolaeth gweinidogol ar yr un pryd, neu'n agos at, ddyddiad cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft.

**21.** Yn ogystal, awgrymwyd opsiynau amserlennu hyblyg yn y Senedd gan bwyllgorau hefyd fel ffordd o wneud y defnydd gorau o gyfleoedd craffu ar gyfer y Gyllideb Ddrafft, gan gynnwys:

- galluogi'r Pwyllgor Cyllid yn awtomatig i gynnal slotiau cyfarfod ychwanegol yn ystod toriad y Nadolig, pe bai angen;
- darparu rhagor o slotiau cyfarfod ar gyfer pwyllgorau yn ystod y ffenestr ar gyfer craffu ar y gyllideb, gan gynnwys ymestyn yr wythnos fusnes a darparu rhagor o slotiau i bwyllgorau glywed tystiolaeth gan randdeiliaid ac arbenigwyr (gellid gwrthbwyso hyn drwy gwtogi hyd y Cyfarfodydd Llawn); a
- caniatáu rhagor o amser i ystyried adroddiadau gan bwyllgorau yn ystod y Cyfarfod Llawn fel bod modd cynnal trafodaethau polisi manwl ar bob agwedd ar y Gyllideb Ddrafft.[39]

**22.** Yn dilyn datganiad Canghellor y Trysorlys ar 29 Gorffennaf 2024[40] a gadarnhaodd y byddai Datganiad Hydref Llywodraeth y DU yn cael ei gynnal ar 30

[37] Y Pwyllgor Cyllid, Agenda, 26 Mehefin 2024, Eitem 7
[38] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet, 27 Mehefin 2024
[39] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet, 11 Gorffennaf 2024
[40] Trysorlys EF, Datganiad y Canghellor ar etifeddiaeth gwariant cyhoeddus, 29 Gorffennaf 2024

Hydref 2024, cyhoeddodd y Pwyllgor lythyr arall yn gofyn am gyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft i'w dwyn ymlaen i 26 Tachwedd 2024, yn unol â'r amserlenni gofynnol a amlinellwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chylch cyllideb 2024-25.[41]

**23.** Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet ar y pryd ar 8 Awst 2024 yn cadarnhau bwriad Llywodraeth Cymru i gadw at y dyddiad cyhoeddi, sef 10 Rhagfyr 2024.[42]

**24.** Pan ofynnwyd am amseriad cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft, dywedodd Dadansoddi Cyllid Cymru (WFA) wrth y Pwyllgor:

> *"…. there's some element of being dependent on when the UK Government makes its own autumn statement or budget. There's no doubt that the Welsh Government is constrained by the announcement on that."*[43]

**25.** Ychwanegodd WFA:

> *"… going forward, now the UK Government is committed to go back to multi-year spending reviews—we're expecting a spending review some time in the middle of this current calendar year—that should mean that the Welsh Government has more time to do its work in the current calendar year …*
>
> *So, while, I think, in this current year, we understand why it's so constrained on time right before Christmas, I think, next year, there's going to be much more ability for the Welsh Government to be able to put documentation out earlier. "*[44]

**26.** Cydnabu'r Ysgrifennydd Cabinet fod amseriad cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ers 2017 wedi achosi anawsterau, gan nodi:

> *"… year after year, we have had to deal with the fact that we are committed to introducing our draft budget in October, and almost always a major fiscal event follows within weeks of us having done that, meaning that we've all got to, not start all*

[41] Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet, 29 Gorffennaf 2024
[42] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet, 8 Awst 2024
[43] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 162
[44] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraffau 163-164

> *over again, but certainly substantially revise the plans that we will have published and put in front of the committee"*[45]

**27.** Ychwanegodd:

> *"That is frustrating for the committee, it's not great for witnesses, and it causes enormous additional stresses and strains within the Welsh Government".*[46]

## Gwaith Craffu Cyn y Gyllideb

**28.** Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn rag-gyllidebol gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ar 25 Medi 2024.[47] Cynhaliwyd sesiwn dechnegol breifat hefyd yn ystod yr un cyfarfod â Phrif Economegydd Llywodraeth Cymru, a sesiwn breifat arall gydag academyddion o Brifysgol Bangor. Diben y sesiwn gyda'r Ysgrifennydd Cabinet oedd cael cipolwg ar y cyd-destun economaidd a chyllidol wrth lywio proses llunio cyllideb Llywodraeth Cymru.

**29.** Cynhaliwyd sesiwn dystiolaeth bellach hefyd gyda'r Ysgrifennydd Cabinet ar 10 Hydref 2024[48] i ystyried Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-25 Llywodraeth Cymru. Cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor ar 21 Hydref 2024.[49]

## Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2025-26

**30.** Mae'r Pwyllgor yn ystyried y blaenoriaethau a'r penderfyniadau strategol cyffredinol sydd wrth wraidd y dyraniad yng nghynigion y Gyllideb Ddrafft, ynghyd â'r cynlluniau trethiant a benthyca yn erbyn cefndir cyllid cyhoeddus a'r economi ehangach. Mae dull y Pwyllgor yn canolbwyntio ar y pedair egwyddor craffu ariannol:

- Fforddiadwyedd – A yw'r darlun llawn o ran cyfanswm refeniw a gwariant yn gytbwys?
- Blaenoriaethu – A yw'r dyraniadau wedi eu rhannu rhwng sectorau/rhaglenni gwahanol mewn ffordd resymegol y gellir ei chyfiawnhau?

---

[45] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 7
[46] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 7
[47] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 25 Medi 2024
[48] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Hydref 2024
[49] Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf 2024-25, Hydref 2024

- Gwerth am arian – A yw cyrff cyhoeddus yn gwario eu dyraniadau yn dda – yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol?
- Proses y gyllideb – A yw'n effeithiol ac yn hygyrch? A oes integreiddio rhwng cynllunio corfforaethol a chynllunio gwasanaethau, a rheoli perfformiad a rheoli ariannol?

**31.** Cyhoeddodd y Pwyllgor ymgynghoriad rhag-gyllidebol ar y Gyllideb Ddrafft rhwng 20 Medi a 29 Tachwedd 2024 ar ran holl bwyllgorau'r Senedd.[50] Cafwyd cyfanswm o 73 o ymatebion.[51] Roedd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- A oes digon yn cael ei wneud i fynd i'r afael â chostau byw cynyddol ac i gefnogi'r bobl hynny sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol?
- Sut y gallai'r gyllideb fynd i'r afael ymhellach ag anghydraddoldeb rhywedd mewn meysydd fel gofal iechyd, sgiliau a chyflogaeth?
- A gaiff dull gweithredu Llywodraeth Cymru, o ran gwariant ataliol, ei gynrychioli o ran dyrannu adnoddau (Gwariant ataliol = gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau a lliniaru'r galw am wasanaethau yn y dyfodol, drwy ymyrryd yn gynnar).
- Sut y dylai Llywodraeth Cymru egluro ei phenderfyniadau ariannu, gan gynnwys sut mae ei gwariant yn cyfrannu at fynd i'r afael â materion polisi?
- Sut y gellir gwella'r dogfennau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ochr yn ochr â'i Chyllideb Ddrafft?
- Sut y dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu ei hadnoddau i ymdrin â rhestrau aros y GIG ar gyfer triniaethau GIG sydd wedi'u cynllunio ac nad ydynt yn rhai brys? A ydych chi'n credu bod gan Lywodraeth Cymru gynllun cadarn i fynd i'r afael â'r mater hwn?
- A yw Llywodraeth Cymru'n darparu cefnogaeth ddigonol i'r sector cyhoeddus i'w alluogi i fod yn arloesol ac yn flaengar trwy bethau fel cynllunio'r gweithlu?

[50] Y Pwyllgor Cyllid, Llythyr Ymgynghori ar Gyllideb Ddrafft 2025-26, 20 Medi 2024
[51] Y Pwyllgor Cyllid, Cyllideb Ddrafft 2025-26: Ymatebion i'r Ymgynghoriad, Ionawr 2025

- A fu digon o fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru yn seilwaith sylfaenol y sector cyhoeddus?
- Sut y dylai'r Gyllideb gefnogi pobl ifanc?
- Sut y mae tystiolaeth a data yn llywio gwaith Llywodraeth Cymru o ran pennu blaenoriaethau a dyrannu'r gyllideb, ac a yw'r dull hwn yn glir?
- A yw'r gefnogaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i sefydliadau'r trydydd sector, sy'n wynebu galw cynyddol am wasanaethau o ganlyniad i'r argyfwng costau byw a'r pandemig, yn ddigonol?
- Beth yw'r cyfleoedd allweddol i Lywodraeth Cymru fuddsoddi i gefnogi economi a gwasanaethau cyhoeddus sy'n cyflawni'n well yn erbyn y nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?

## Barn y Pwyllgor

**32.** Gyda gofid, mae'r Pwyllgor yn nodi mai amserlen y gyllideb eleni oedd y chweched yn olynol lle na ddilynwyd y broses dau gam a amlinellwyd ym Mhrotocol Proses y Gyllideb. Er ein bod yn croesawu cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft yn ystod tymor y Senedd sy'n galluogi Aelodau i ystyried cynigion Llywodraeth Cymru ar lawr y Senedd cyn gynted ag y byddant wedi'u cyhoeddi, mae'n siomedig bod y cyfnod ar gyfer craffu manwl yn gyfyngedig unwaith eto.

**33.** Fel y nodwyd gennym sawl gwaith yn ystod y Senedd hon, nid yw hyn yn arwain at graffu seneddol effeithiol, ac rydym yn croesawu'r ffaith bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn cydnabod yr heriau y mae amserlen gyfyngedig yn ei chyflwyno i randdeiliaid sy'n dymuno ymgysylltu â phwyllgorau ar effaith cynigion cyllidebol Llywodraeth Cymru.

**34.** Fel Pwyllgor, rydym yn parhau i liniaru'r materion hyn drwy gynnal digwyddiadau ymgysylltu yn gynnar yn y flwyddyn ariannol, gan arwain at ddadl flynyddol y Pwyllgor ar flaenoriaethau'r gyllideb a gynhaliwyd yn y Senedd cyn toriad yr haf, yn ogystal â sesiwn dystiolaeth rag-gyllidebol gyda'r Ysgrifennydd Cabinet yn gynnar yn nhymor yr hydref. Mae ein hymarfer ymgynghori ysgrifenedig hefyd yn hanfodol er mwyn rhoi dealltwriaeth i ni o effaith ehangach penderfyniadau ariannu Llywodraeth Cymru a nodwn y nifer sylweddol o ymatebion i'r ymgynghoriad a ddaeth i law eleni a diolch i'r rhai a roddodd o'u hamser i ddarparu cyflwyniadau.

**35.** Fodd bynnag, nid yw'r mesurau hyn yn cymryd lle proses gyllidebol gyson a sefydlog sy'n rhoi digon o amser ar gyfer craffu manwl. Er mwyn mynd i'r afael â

hyn, mae'r Pwyllgor yn cefnogi atebion arloesol gan gynnwys archwilio awgrymiadau a wnaed gan bwyllgorau eraill, megis ymestyn yr wythnos fusnes pan fydd amserlen y gyllideb yn cael ei chwtogi, a darparu mwy o slotiau i bwyllgorau gymryd tystiolaeth gan randdeiliaid ac arbenigwyr (a allai gael ei wrthbwyso drwy gwtogi ar hyd Cyfarfodydd Llawn). Credwn ei bod yn werth edrych ar hyn yn fanylach, a byddwn yn archwilio'r meysydd hyn eto gyda phwyllgorau cyn cylch cyllideb 2026-27.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell os, yn ôl y disgwyl, y bydd yr amserlen ar gyfer craffu ar y Gyllideb Ddrafft yn cael ei chwtogi ar gyfer cylch cyllideb 2026-27:

- bod yr Ysgrifennydd Cabinet a'i swyddogion yn parhau i fynychu sesiwn graffu rag-gyllidebol gyda'r Pwyllgor Cyllid; a
- bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn gweithio gyda'r Pwyllgor Cyllid i nodi ffyrdd y gellir gwella cyfleoedd craffu yn y Senedd.

**Casgliad 1.** Bydd y Pwyllgor yn ymgynghori â phwyllgorau'r Senedd sy'n ymwneud â chraffu ar y gyllideb cyn Adolygiad o Wariant Cymru a chylch cyllideb 2026-27 i archwilio ffyrdd o fanteisio i'r eithaf ar graffu ar y gyllideb yn y Senedd, er mwyn lliniaru effaith cyfnod craffu wedi'i gwtogi.

**36.** Nodwn fod yr Ysgrifennydd Cabinet yn derbyn nad yw cynlluniau Llywodraeth y DU i gynnal ei phrif ddigwyddiad cyllidol yn yr hydref yn gydnaws â'r prosesau a amlinellir yn y Protocol ac mae'r Pwyllgor yn cytuno bod angen gwneud gwaith i ddatblygu prosesau ar gyfer y Senedd nesaf sy'n ystyried hyn. Rydym yn croesawu ymgysylltiad parhaus yr Ysgrifennydd Cabinet ar y materion hyn ac yn galw am wneud cynnydd pellach, o ran diweddaru'r Protocol i adlewyrchu profiadau yn y Chweched Senedd hyd yma yn ogystal â dechrau ar y gwaith o ail-lunio proses y gyllideb yn sylfaenol er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben ar gyfer Senedd ehangach.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet:

- yn amlinellu ei farn ar newidiadau arfaethedig i Brotocol Proses y Gyllideb cyn dechrau'r flwyddyn ariannol nesaf; ac
- yn gweithio gyda swyddogion y Senedd i ddatblygu egwyddorion allweddol fel sail ar gyfer ail-lunio'r protocol yn sylfaenol cyn rownd nesaf y gyllideb.

**37.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i setliadau amlflwyddyn ac amserlen gyson ar gyfer adolygiadau o wariant. Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb arbennig yn y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'r broses hon, yr effaith debygol y bydd hyn yn ei chael ar amserlen cyllideb y Senedd, yn ogystal â manylion ei hadolygiadau gwariant ei hun, ac mae'n gofyn am gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y pwyntiau hyn. O ystyried bod proses graffu ar gyllideb ddrafft 2026-27 yn debygol o gael ei chrynhoi, byddai'r Pwyllgor hefyd yn croesawu rhyngweithio â phwyllgorau eraill y Senedd ynghylch blaenoriaethu'r Adolygiad hwn o Wariant Cymru cyn rownd nesaf y gyllideb.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn darparu dyddiadau a manylion am y canlynol:

- Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU a rhan Llywodraeth Cymru yn y broses honno; ac
- Adolygiad o Wariant Llywodraeth Cymru ei hun, gan gynnwys pryd y bydd canlyniadau'r adolygiad yn hysbys a sut y gall y Senedd lywio'r broses honno.

# 2. Trosolwg

## Cyd-destun Economaidd

**38.** Mae Llywodraeth Cymru'n wynebu nifer o heriau yng ngweddill 2024-25 ac yn 2025-26:

- Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR)[52] a Banc Lloegr[53] yn disgwyl i chwyddiant fod tua 2.4 i 2.8 y cant yn ystod 2025.
- Yn ei rhagolwg economaidd a chyllidol ym mis Hydref 2024,[54] rhagolwg twf cynnyrch domestig gros (GDP) gwirioneddol yr OBR oedd 1.1 y cant yn 2024 a 2 y cant yn 2025, sy'n dangos bod twf GDP yn araf. Yn y blynyddoedd dilynol, disgwylir i'r gyfradd twf fod yn is.
- Mae economi Cymru wedi dilyn trywydd tebyg i'r DU ac ystyrir bod rhagolygon yr OBR ar gyfer y DU yn berthnasol i Gymru yn fras.[55]
- Disgwylir i wariant y sector cyhoeddus dyfu'n araf yn y blynyddoedd i ddod.[56]
- Mae twf cynhyrchiant isel yn bryder sylweddol o hyd. Rhagolwg yr OBR ar gyfer twf cynhyrchiant blynyddol yw 1 y cant dros y 5 mlynedd nesaf,[57] ymhell islaw'r lefelau a welwyd cyn yr argyfwng ariannol. Ymhlith y ffactorau a fydd yn effeithio ar dwf cynhyrchiant mae datblygiadau mewn masnach ryngwladol, diwygio domestig ar yr ochr gyflenwi, a chynnydd technolegol byd-eang.
- Mae'r datchwyddydd GDP, sy'n mesur chwyddiant domestig yn yr economi, yn amcangyfrif chwyddiant o 2.4 y cant ar gyfer 2025-26.[58]
- Disgwylir i incwm gwario gwirioneddol aelwydydd godi tua 1.25 y cant yn 2024-25 a 2025-26.[59]

[52] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Rhagolwg economaidd a chyllidol, Hydref 2024, paragraff 2.3
[53] Banc Lloegr, Adroddiad Polisi Ariannol, Tachwedd 2024
[54] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Rhagolwg economaidd a chyllidol, Hydref 2024, paragraff 2.3
[55] Llywodraeth Cymru, Adroddiad economaidd a chyllidol Cymru, tudalen 3
[56] Llywodraeth Cymru, Adroddiad economaidd a chyllidol Cymru, tudalen 4
[57] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Rhagolygon ar gyfer trethi datganoledig Cymru, Rhagfyr 2024, tudalen 27
[58] Trysorlys EF, GDP deflators at market prices, and money GDP, Hydref 2024
[59] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Rhagolwg economaidd a chyllidol, Hydref 2024, tudalen 19

- Disgwylir i ddiweithdra fod tua 4 y cant yn y DU ac yn debyg yng Nghymru.[60]


**39.** Gwnaeth cyllid i Lywodraeth Cymru o Ddatganiad yr Hydref y DU[61] adfer gwerth termau real cyllideb refeniw Cymru yn 2024-25 i'r hyn a ddisgwylid ar adeg Adolygiad o Wariant 2021.[62]

**40.** Ar gyfer 2024-25, bydd Llywodraeth Cymru yn cael £774 miliwn o refeniw a £49 miliwn o gyfalaf ychwanegol.[63] Mae'n debygol y bydd tua £360 miliwn o hyn yn mynd tuag at gytundebau cyflog y sector cyhoeddus y cytunwyd arnynt eisoes ar gyfer eleni o'i gymharu â'r cynnydd o 2 y cant a dybiwyd pan osodwyd y cyllidebau gyntaf.[64]

**41.** Mae'r gyllideb ar gyfer 2025-26 yn cynyddu £930 miliwn ychwanegol, sef £694 miliwn o refeniw a £235 miliwn o gyfalaf ychwanegol.

**42.** Mae Cyllideb Ddrafft 2025-26 yn dyrannu cyfanswm cyfunol o £25.8 biliwn i Lywodraeth Cymru, heb gynnwys Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME). Gan ddiystyru dyraniadau nad ydynt yn arian parod, mae hyn dros £1.5 biliwn yn fwy na llinell sylfaen ddiwygiedig Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25, neu £2.2 biliwn o'r Gyllideb Derfynol ar gyfer 2024-25.

Newidiadau cyffredinol yng nghyllid Llywodraeth Cymru – Cyllideb Ddrafft 2025-26, o gymharu â'r Llinell Sylfaen Ddiwygiedig ar gyfer 2024-25




[60] Llywodraeth Cymru, Adroddiad economaidd a chyllidol Cymru, tudalen 4
[61] Trysorlys EF, Cyllideb yr Hydref 2024, 30 Hydref 2024
[62] Dadansoddi Cyllid Cymru, Autumn Reeves: The 2024 Labour budget and its implications for Wales, 31 Hydref 2024
[63] Datganiad Ysgrifenedig, Ymateb Llywodraeth Cymru i Gyllideb Hydref y DU 2024, 30 Hydref 2024
[64] Dadansoddi Cyllid Cymru, Autumn Reeves: The 2024 Labour budget and its implications for Wales, 31 Hydref 2024

Dyraniadau refeniw a chyfalaf i adrannau – Cyllideb Ddrafft 2025-26

| | Cyfanswm dyraniad refeniw a chyfalaf | Newid Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2024-25 i Gyllideb Ddrafft 2025-26 |
|---|---|---|
| Iechyd A Gofal Cymdeithasol | £12,854m | £649m 5.3% |
| Llywodraeth Leol a Tai* | £6,740m | £473m 7.6% |
| Addysg** | £2,440m | £96m 4.1% |
| Trafnidiaeth | £1,407m | £121m 9.4% |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | £901m | £117m 14.9% |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | £837m | £176m 26.6% |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | £463m | £36m 8.3% |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | £159m | £11m 7.7% |

## Cymariaethau Rhwng 2024-25 a 2025-26

**43.** Penderfynodd Llywodraeth Cymru wneud cymariaethau yn ei dogfennaeth Cyllideb Ddrafft rhwng dyraniadau cyllideb 2025-26 a 2024-25 gan ddefnyddio llinell sylfaen a ddiwygiwyd yn sylweddol. Un o'r prif resymau oedd y bydd ffigurau ar gyfer 2025-26 yn cynnwys dyraniadau ar gyfer dyfarniadau cyflog y sector cyhoeddus ar ben y rhai a roddwyd yn 2024-25, tra nad yw dyraniadau yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2024-25[65] yn cynnwys cyllid ar gyfer y prif gytundebau cyflog hyn.[66] Mae hyn oherwydd bod y Gyllideb Atodol wedi'i chyhoeddi ar 1 Hydref 2024, ac nid oedd cyllid ar gyfer y taliadau hyn yn hysbys tan Ddatganiad yr Hydref y DU ar 30 Hydref 2024.

[65] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-25, 1 Hydref 2024
[66] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2025-26, Rhagfyr 2024, tudalen 7

**44.** Yr ychwanegiadau at y llinell sylfaen yw tua £650 miliwn o arian refeniw.[67] Mae tua £460 miliwn o hyn yn ymwneud â chostau tâl[68] a £190 miliwn yn ymwneud â chostau pensiwn uwch i weithwyr y sector cyhoeddus (SCAPE).[69] Hefyd, mae gostyngiad o £238 miliwn mewn benthyciadau myfyrwyr nad ydynt yn arian parod (fel yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2024-25[70]). O ran cyfalaf cyffredinol, ychwanegir £20 miliwn at y llinell sylfaen ar gyfer cymorth gwasanaethau rheilffyrdd.

**45.** Gyda'i gilydd, pe na bai'r llinell sylfaen ddiwygiedig hon wedi'i defnyddio i gyfrifo gwahaniaethau rhwng 2024-25 a 2025-26, byddai'r cynnydd mewn cyllid ar gyfer 2025-26 wedi ymddangos yn uwch. Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet hyn wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor:

> *"… next year's budget actually understates the impact of funding over these two years, because we've had a significant amount of additional money available to us in-year this year, which means that the platform for next year is higher than it would normally have been. We've had more money in-year than in any year I can remember for at least a decade."*[71]

**46.** Ychwanegodd swyddog a oedd gyda'r Ysgrifennydd Cabinet eu bod nhw eisiau osgoi dangos symudiadau camarweiniol o fawr rhwng 2024-25 a 2025-26, oherwydd nid dyna fydd pobl yn ei brofi.[72]

**47.** Mewn gohebiaeth ddilynol ar gais y Pwyllgor, rhoddodd yr Ysgrifennydd Cabinet ragor o wybodaeth i alluogi cymhariaeth ehangach o newidiadau cyllidebol o 2023-24 i 2025-26.[73] Esboniodd swyddog a oedd gyda'r Ysgrifennydd Cabinet mai'r bwriad oedd rhoi ymdeimlad cywir o sut mae arian wedi symud a'r hyn sydd ar gael nawr nad oedd ar gael yn flaenorol.[74]

**48.** Wrth ddadansoddi dull gweithredu Llywodraeth Cymru, daeth WFA i'r casgliad bod materion sylfaenol yn ei gwneud yn anoddach nag arfer i graffu ar y

---

[67] Dadansoddi Cyllid Cymru, Autumn Reeves: The 2024 Labour budget and its implications for Wales, 31 Hydref 2024
[68] Dadansoddi Cyllid Cymru, Autumn Reeves: The 2024 Labour budget and its implications for Wales, 31 Hydref 2024
[69] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2025-26, Rhagfyr 2024, tudalen 30
[70] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-25, 1 Hydref 2024
[71] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Rhagfyr 2024, paragraff 39
[72] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Rhagfyr 2024, paragraff 45
[73] Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, 22 Ionawr 2025
[74] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 33

cynlluniau gwariant hyn[75]. Pan ofynnwyd iddo ymhelaethu ar y pwynt hwn, dywedodd WFA wrth y Pwyllgor:

> *"… it's difficult this year to get a proper sense of how total spending is changing and how portfolios are changing from this year to next year, not that the Welsh Government has done anything different from usual … but this financial year is going to be quite exceptional. Both Conservative and Labour Chancellors this year have increased massively the amount of day-to-day spending in the budget for 2024-25."*[76]

**49.** At hynny, dywedodd WFA, pan wneir addasiadau i'r llinell sylfaen ar gyfer 2024-25, fod y newid gwirioneddol o'r flwyddyn hon i'r flwyddyn nesaf mewn termau real yn eithaf dibwys mewn gwirionedd.[77] Ychwanegodd, er bod prif gydrannau'r gyllideb sy'n ymwneud â'r GIG a llywodraeth leol wedi cynyddu 3.7 y cant a 3.1 y cant yn y drefn honno o 2024-25, ei fod yn rhagolwg llawer tynnach ar gyfer elfennau gweddilliol y gyllideb. [78]

**50.** Ychwanegodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS) fod cyflwyniad y gyllideb ymhell o fod yn ddelfrydol.[79] Yn benodol, nododd fod y ffordd y cyflwynir addasiadau cyfrifyddu sy'n ymwneud â safonau adrodd ariannol rhyngwladol 16 (IFRS16) yn gorddatgan yn sylweddol y cynnydd mewn gwariant cyfalaf y flwyddyn nesaf.[80]

**51.** O ganlyniad, nododd yr IFS fod canfod y gwir newidiadau yn y cynllun gwariant cyfalaf y flwyddyn nesaf yn eithaf anodd[81] a'i bod yn eithaf anodd gweld lle mae Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu gwariant cyfalaf ar sail fwy cyfatebol.[82]

**52.** Ychwanegodd WFA:

> *"… I don't think it's useful, in terms of scrutinising the plans, that you had to go back to a PDF document that was published in*

[75] Thinking Wales - Meddwl Cymru, Making sense of the Welsh Government's Draft Budget for 2025-26, 11 Rhagfyr 2024
[76] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 143
[77] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 144
[78] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 158
[79] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 154
[80] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 151
[81] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 176
[82] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 177

*October to get a true picture of how much additional spending there's going to be on capital in the NHS next year."*[83]

**53.** Wrth ymateb i'r sylwadau hyn, nid oedd yr Ysgrifennydd Cabinet yn synnu bod rhai pobl yn ei chael hi'n anodd dilyn a deall cyllideb Llywodraeth Cymru, oherwydd ei fod yn fusnes cymhleth. [84] Wrth amddiffyn sut y cafodd y gyllideb ei chyflwyno, esboniodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"… there was a choice for the Welsh Government. We could have presented the budget as a comparison between where we started this year and where we will start next year. That would have inflated the increase in the budget that we appear to have next year in a way that I thought was just misleading, because so much money had come in to us in-year that it was a more authentic and honest reflection of next year's budget to compare it with a restated budget in the current year, in which those baseline issues were put in, so we were comparing what we really would be getting as new money next year, not what might appear to be new money, but was in fact already in this year's baseline."*[85]

**54.** Ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi mabwysiadu dull gwahanol ond y byddai hynny wedi ysgogi pryderon gwahanol ymhlith pobl a oedd yn edrych ar y gyllideb, a fyddai'n dweud eu bod yn gorddatgan faint o adnoddau ychwanegol sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus y flwyddyn nesaf. [86]

**55.** Er gwaethaf ei sylwadau ar gyflwyniad y Gyllideb Ddrafft yn ei chyfanrwydd, croesawodd WFA yr eglurder a gyflwynwyd mewn rhannau eraill o ddogfennaeth y Gyllideb Ddrafft, yn enwedig sut yr amlinellwyd rhagolygon yn ymwneud â refeniw o drethi datganoledig. Fodd bynnag, beirniadodd y Trysorlys am beidio â chyhoeddi fersiwn arall o'u data tryloywder grant bloc ers mis Gorffennaf 2023.[87] Pan ofynnwyd iddo a allai Llywodraeth Cymru gamu i mewn i gyhoeddi'r wybodaeth hon, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor mai'r trefniant gorau yw i Lywodraeth y DU gyhoeddi'r wybodaeth honno ond na fyddai'r Trysorlys yn ei chyhoeddi'n fuan. Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet, yn niffyg hynny, ei fod yn hapus y bydden nhw'n cyhoeddi'r wybodaeth sydd ganddynt, er iddo gydnabod hefyd y byddai'r ffigurau hynny fwy na thebyg wedi'u

[83] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 183
[84] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 29
[85] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 30
[86] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 30
[87] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 248

goddiweddyd gan ddigwyddiadau pellach yn ymwneud â symiau canlyniadol Barnett.[88]

## Cysylltiadau Rhynglywodraethol

**56.** Mae datblygiadau mewn cysylltiadau rhynglywodraethol cyllidol yn fater o ddiddordeb hirsefydlog i'r Pwyllgor ac roedd yn destun ymchwiliad ac adroddiad, a osodwyd gerbron y Senedd ar 14 Hydref 2024.[89]

**57.** Yn ystod y sesiwn dystiolaeth rag-gyllidebol ar 25 Medi 2024,[90] cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Cabinet at nifer o faterion etifeddol a materion heb eu datrys rhwng llywodraethau'r DU a Chymru, gan gynnwys:

- Penderfyniadau gwariant National Rail, gan gynnwys HS2 a sicrhau canlyniadau trosglwyddo llinellau craidd y Cymoedd;
- Fframwaith Cyllidol, uwchraddio terfynau a hefyd y mater ehangach o adolygu'r cytundeb;
- Cyllid Ewropeaidd;
- Gwariant ar ddiogelwch tomenni glo (roedd cyllideb y DU yn cynnwys £25 miliwn ar gyfer hyn); a
- Sicrhau bod cyllid parthau buddsoddi yn dod fel yr addawyd a chwblhau gwaith ar borthladdoedd rhydd.[91]

**58.** Cadarnhaodd ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Gyllideb Atodol Gyntaf 2024-25 fod trafodaethau wedi'u cynnal ynghylch materion yn ymwneud â'r Fframwaith Cyllidol a bod hyblygrwydd diwedd blwyddyn wedi'i drafod yng nghyfarfodydd diweddar y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid (F:ISC).[92]

**59.** Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"We made progress in this way … that is in the manifesto of the UK Labour Party going into the election, to attend to greater*

---

[88] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 14
[89] Y Pwyllgor Cyllid, Cysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol, Hydref 2024
[90] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 25 Medi 2024
[91] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 25 Medi 2024, paragraffau 10-15
[92] Llywodraeth Cymru, Ymateb i'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Cyllid "Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf 2024-25", Rhagfyr 2024

> *flexibilities in the way in which devolved Government budgets are managed."*[93]

**60.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd fod y Llywodraeth newydd wedi bod o gymorth wrth roi hysbysiad llawer cynharach i ni o'i chynlluniau nag a roddwyd yn flaenorol.[94]

**61.** Yn ei dystiolaeth lafar, pwysleisiodd WFA pa mor bwysig oedd hi i Lywodraeth Cymru gael mwy o hyblygrwydd wrth ddefnyddio ei harian yn y dyfodol, ac roedd yn ystyried bod hynny'n fwyfwy hanfodol yng nghyd-destun cynyddu gwariant ataliol ar adeg o gyfyngiadau cyllidebol, gan egluro:

> *"… we'd want to see Welsh Government's ability to carry forward funds to offset the current likelihood that future years are going to be much tighter. So, we'd like to see a larger Welsh reserve, a more flexible Welsh reserve, allowing those funds to be carried forward. That can only be determined by the UK Government, and I understand, from public statements, that there is a negotiation over that. But I think, when we're looking at prevention, at that longer term spend, having the flexibility to carry forward funds is really important."*[95]

**62.** Pan ofynnwyd iddo am gynnydd ar y materion hyn ac a fydd newidiadau'n cael eu gwneud i'r Fframwaith Cyllidol erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2025-26, cydnabu'r Ysgrifennydd Cabinet fod rhai o'r pethau hyn yn syml iawn a'i fod braidd yn rhwystredig bod oedi wedi bod wrth sicrhau eu bod yn cael eu hunioni. [96] Mewn perthynas ag uwchraddio terfynau benthyca a chronfeydd wrth gefn yn unol â chwyddiant, ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"There's cross-party agreement here in the Senedd that, at the very least, their real value should be restored, given that the budget that we're managing is many billions of pounds larger than it was back then and the tools we have to manage that are no longer as effective as they were when they were first set. Just putting that right would seem to me to be not difficult to*

[93] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Rhagfyr 2024, paragraff 63
[94] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 20
[95] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025 paragraff 199
[96] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 65

> *do. There's more we want than that, but that would be a good starting place."*[97]

**63.** O ran perswadio'r Trysorlys i sicrhau newidiadau o'r fath yn gyflym, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"My own impression is that the culture in the Treasury is very entrenched and that you need very determined political direction in order to shift some of that thinking … There is a growing understanding that we are not a department. But I wouldn't describe the pace at which that change is happening as rapid, and there certainly is a lot of catching up to do."*[98]

## Rhagolwg Ariannu

**64.** Er nad oes ffigurau blaenariannu ar gyfer 2026-27, mae WFA yn disgwyl i gynlluniau gwariant Llywodraeth y DU fod yn llawer llymach[99] dros y blynyddoedd i ddod, gyda gwariant dewisol ar adnoddau yn cynyddu ar gyfradd o ychydig o dan 1% y flwyddyn mewn termau real.[100]

**65.** Mae Llywodraeth y DU yn cynnal adolygiad o wariant ar hyn o bryd.[101] Ym mis Medi, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor fod adolygiad o wariant Cymru yn mynd rhagddo hefyd.[102]

**66.** Nododd yr OBR fod datblygiadau diweddar gan Lywodraeth y DU wedi gwella rhagweladwyedd y broses o lunio polisïau cyllidol gan ychwanegu:

> *"I think the commitment to going back to a regular programme of spending reviews and doing multi-year reviews and setting out three to five-year prospects for public spending certainly makes it easier to assess the credibility of the Government's spending plans and ensure that those fiscal rules are supported by a more detailed bottom-up plan for public services."*[103]

[97] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 66
[98] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 70
[99] Thinking Wales - Meddwl Cymru, Making sense of the Welsh Government's Draft Budget for 2025-26, 11 Rhagfyr 2024
[100] Llywodraeth Cymru, Adroddiad economaidd a chyllidol Cymru 2024 ,tudalen 59
[101] Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, Autumn Budget 2024: A summary, 30 Hydref 2024, tudalen 6
[102] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 25 Medi 2024, paragraff 113
[103] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 69

**67.** Fodd bynnag, dywedodd WFA wrth y Pwyllgor fod y rhagolwg ariannu y tu hwnt i 2025-26 yn peri heriau:

> *"Much of the increase in spending that was announced at the October budget, for the Welsh Government, most of it happens this year, so, from last year to this year, and then not such a big increase in real-terms spending next year in terms of day-to-day spending, and a more difficult outlook beyond that as well."*[104]

**68.** Cydnabu'r Ysgrifennydd Cabinet y bydd setliadau'r dyfodol yn llai hael na'r un presennol ac amlinellodd ffyrdd y mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer hynny:

> *"I want to make sure that we maximise the investments we're able to make next year because it builds that budget higher for the future. And if there are to be smaller percentages, well, at least we've got the best base we can proceed from."*[105]

**69.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd y bydd gennym y setliadau amlflwyddyn ac, os yw arian yn mynd i fod yn dynnach, yna o leiaf y bydd ei reoli, gwybod hynny dros y cyfnod, yn helpu, ac y bydd yr hyblygrwydd cyllidebol ychwanegol yn fuddiol.[106]

**70.** Pan ofynnwyd iddi roi sylwadau ar gynlluniau ar gyfer adolygiad gwariant Llywodraeth Cymru ei hun, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y broses ar y gweill:

> *"… [which] will involve all my Cabinet colleagues in a more fundamental look at the way the budget is currently dispersed, the pressures and ambitions that we will see for the future, how we will use the opportunity of the three-year and four-year horizon that we're promised by the UK Government to make sure that we have the best alignment we can between the resources that we have and the things we want to see happen in Wales."*[107]

[104] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 145
[105] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 93
[106] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 94
[107] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 41

**71.** O ran amserlenni, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet y disgwylir i adolygiad o wariant Llywodraeth y DU ddod i ben ym mis Mehefin 2025, ond dywedodd mewn perthynas ag Adolygiad o Wariant Cymru:

> *"I don't myself regard our spending review as a process that starts and finishes. I want it to be a continuous way of us taking this opportunity to stand back a bit from the year-on-year way we've been driven by having only annual budgets. I don't think it will just be an episode, which will come to an end; I think it will be a way of thinking about the budget."*[108]

**72.** O ran effaith, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai'r rhan fwyaf ohoni yn cael ei gweld y tu hwnt i'r flwyddyn nesaf ac i mewn i dymor nesaf y Senedd.[109] Amlinellodd hefyd sut y byddai'r broses adolygu gwariant yn gweithio'n ymarferol:

> *"The way I want to structure it with my colleagues is that I want to ask my colleagues to make a contribution by looking at parts of the Welsh budget for which they are not responsible. Because I think that frees up somebody around the table to be able to participate in that thinking, without always having to worry about how this will affect their own responsibilities and the budgets they have to discharge them."*[110]

**73.** Cadarnhaodd swyddog a oedd gyda'r Ysgrifennydd Cabinet hefyd fod yr egwyddorion yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi'u hymgorffori go iawn yn y gwaith adolygu gwariant[111] ac, yn ogystal ag ymgysylltu â'r OBR, eu bod yn ymgysylltu â'r Sefydliad Llywodraethu, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru a nifer o sefydliadau i'w helpu gyda'r syniad hwn fel rhan o'r gwaith adolygu gwariant.[112]

**74.** Yn ogystal, eglurodd y swyddog:

> *"The Cabinet Secretary talked about Ministers looking at issues outside their own portfolios. We're doing that at official level as well, so really looking at integration and collaboration and cross Government working … So, we obviously do that within the*

[108] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 41
[109] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 41
[110] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 43
[111] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 49
[112] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 48

*annual budget cycle, but the spending review creates a greater opportunity to do that."*[113]

## Cynnydd yng Nghyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr

**75.** Cyhoeddodd Datganiad yr Hydref nifer o newidiadau i bolisi treth y DU, a oedd yn cynnwys cynnydd yng nghyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr.[114] O 6 Ebrill 2025, bydd cyfradd cyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr yn cynyddu o 13.8 y cant i 15 y cant.[115] Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol yn dweud bod Trysorlys EF wedi cadarnhau y bydd yn darparu cyllid ychwanegol i Lywodraeth Cymru yn ystod hanner cyntaf 2025-26 i adlewyrchu effaith y cynnydd mewn cyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr ar gyfer staff y sector cyhoeddus.[116] Bydd y Cyflog Byw Cenedlaethol hefyd yn cynyddu 6.7 y cant o 1 Ebrill 2025.

**76.** Ar yr un pryd ag y bydd y newidiadau hyn yn cael eu gwneud, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y bydd yr uchafswm Lwfans Cyflogaeth yn cynyddu o £5,000 i £10,500 a dilëwyd cyfyngiad sy'n berthnasol ar hyn o bryd i'r Lwfans Cyflogaeth lle nad yw cyflogwyr sydd wedi mynd i rwymedigaeth cyfraniadau yswiriant gwladol Dosbarth 1 eilaidd o fwy na £100,000 yn y flwyddyn dreth yn union cyn blwyddyn yr hawliad yn gallu ei hawlio.[117] Mae hyn yn golygu y gall busnesau cymwys leihau cyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr hyd at £10,500 y flwyddyn.

### Cyllid Ychwanegol

**77.** Yn naratif y Gyllideb Ddrafft, mae Llywodraeth Cymru yn cadarnhau y bydd Llywodraeth y DU yn darparu cyllid ychwanegol er mwyn helpu i liniaru cost cynnydd mewn cyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus datganoledig, yn ychwanegol at y cyllid a ddyrennir yng Nghyllideb yr Hydref y DU.[118] Ar y pwynt hwn, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor:

> *"We know, for example, that 53 per cent of all employers will not be affected at all by the national insurance contribution rise, because of the rise in the employment allowance. A quarter of a million employers will be better off as a result of*

[113] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 48
[114] Trysorlys EF, Autumn Budget 2024, 30 Hydref 2024
[115] Trysorlys EF, Autumn Budget 2024, 30 Hydref 2024
[116] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol at Arweinwyr Cynghorau Bwrdeistref Sirol Cymru, 11 Rhagfyr 2024
[117] Papur polisi CThEF 13 Tachwedd 2024
[118] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2025-26, Rhagfyr 2024, tudalen 6

*the changes that the Chancellor made. And we know that workers who are within the ONS definition of a public sector employee will be covered by the Chancellor."*[119]

**78.** Mewn gohebiaeth ddilynol, darparodd yr Ysgrifennydd Cabinet amcangyfrifon gorau cyfredol o'r gost uniongyrchol ychwanegol i'r sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru yn sgil newidiadau i gyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr.[120] Roedd hyn yn gyfanswm o £253 miliwn ac ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet y bydd yr amcangyfrifon hyn yn cael eu mireinio ymhellach wrth i sefydliadau ddatblygu eu cynlluniau ar gyfer 2025-26.[121] Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd:

*"Mae Trysorlys EM wedi cydnabod y bydd y newid i gyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr yn cynyddu costau i gyflogwyr yn y sector cyhoeddus ac y bydd yn "darparu cyllid i'r sector cyhoeddus i'w cefnogi gyda'r gost ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r newidiadau hyn". Rydym yn gweithio gyda Thrysorlys EM i gadarnhau'r manylion a lefel y cymorth a fydd yn cael ei ddarparu."*[122]

**79.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd nad Llywodraeth y DU yn darparu cyllid canlyniadol Barnett o'r hyn a fyddai'n cael ei ddarparu yn Lloegr fyddai'r ffordd gywir o dalu costau cyflogwyr yn y sector cyhoeddus, ac ychwanegodd:

*"I would regard it as fundamentally unfair … I do not think it can be fair that that applies to one part of the United Kingdom and not another. And the risk is—and I'm not saying that this risk has materialised—that English public sector employers are covered in full, we get a Barnett consequential of that, which means that Welsh public sector employers are not covered in full."*[123]

**80.** Nodwyd teimladau tebyg ynghylch diffyg cyllid gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), a ddywedodd wrth y Pwyllgor:

---

[119] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Rhagfyr 2024, paragraff 76
[120] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 20 Rhagfyr 2024
[121] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 20 Rhagfyr 2024
[122] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 20 Rhagfyr 2024
[123] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 56

*"Our biggest concern, I suppose, is if NI money is Barnettised from the UK Government to Wales, because the bigger public sector in Wales than in England, potentially we won't get the full amount of NI money that is needed, and that's something in the conversations that are ongoing."*[124]

**81.** O ran a fydd cyllid canlyniadol yn cael ei ddarparu, dywedodd yr IFS:

> *"… the UK Government will provide additional funding—probably via the Barnett formula, or at least that's what the rumours are in Scotland—to pay the cost of higher employer national insurance for public sector employees that are employed directly, but not those working for third or private sector organisations funded by the Government. That includes private sector or third sector social care providers or childcare providers, and it also includes universities."*[125]

**82.** Ychwanegodd yr IFS:

> *"The Welsh Government could choose, if it wished to, to provide funding from its general funding to provide compensation for those organisations, but, of course, that would mean less funding elsewhere."*[126]

**83.** Pan ofynnwyd iddo a oedd Llywodraeth Cymru wedi cael cadarnhad gan Lywodraeth y DU ynghylch sut y bydd symiau canlyniadol cysylltiedig ar gyfer y sector cyhoeddus yn cael eu cyfrifo, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet nad oes ganddynt unrhyw sicrwydd pellach, gan ychwanegu bod ganddynt yr hyn y mae'r Canghellor wedi'i ddweud, sef y bydd cymorth ar gael i gyflogwyr y sector cyhoeddus gan ddefnyddio diffiniad y Swyddfa Ystadegau Gwladol o'r hyn a olygir gan gyflogwr yn y sector cyhoeddus.[127]

**84.** Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd y byddai'n pwyso ar Brif Ysgrifennydd y Trysorlys ar y materion hyn yn y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid ym mis Chwefror, a gynhelir yng Nghaerdydd.[128]

[124] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 103
[125] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 238
[126] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 238
[127] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 54
[128] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 57

## Effaith ar sefydliadau yng Nghymru

**85.** Roedd pryderon ynghylch effaith cynnydd yng nghyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr yn thema arwyddocaol yn yr ymatebion a gyflwynwyd i ymgynghoriad y Pwyllgor ar y Gyllideb Ddrafft.

**86.** Nododd Cadeiryddion Prifysgolion Cymru fod y newidiadau i gyfraniadau yswiriant gwladol yn rhoi amcangyfrif dros dro ar gyfer cyfanswm cost cyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr prifysgolion Cymru o tua £20m y flwyddyn o fis Ebrill 2025.[129] Aethant ymlaen i ddweud:

> *"The Treasury has since confirmed that it will provide additional funding for Wales to cover the costs for public sector workers as defined by the Office for National Statistics … Our understanding is that this may mean additional funding for other parts of the tertiary sector, for instance, but will not cover universities. As independent charities, universities are currently classified by the ONS for purposes of national accounts as non-profit institutions serving households (NPISH).*[130]

**87.** Pwysleisiodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru hefyd fod yn rhaid ystyried y codiadau hyn ochr yn ochr â'r cynnydd sylweddol yn y Cyflog Byw Cenedlaethol ac felly gyda'i gilydd, mae'r mesurau hyn yn cynrychioli cynnydd sylweddol iawn yng nghost cyflogaeth i lawer o fusnesau.[131] Nododd Cartrefi Cymunedol Cymru y costau ychwanegol dilynol ar gyfer pedwar o'i ddarparwyr, a oedd yn amrywio o £245,000 i £620,000.[132] Cyfrifodd y Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr y bydd y newidiadau yn costio £800 - £1,000 ychwanegol fesul gweithiwr i weithredwyr bob blwyddyn, gyda thystiolaeth gynnar yn dangos y bydd yr effaith yn fwy yng Nghymru.[133] Dywedodd Llamau y byddai'r cynnydd i gyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr yn costio £500,000 ychwanegol iddo y flwyddyn nesaf.[134] Nododd Marie Cure hefyd y byddai'n costio bron i £260,000 i'r sefydliad yng Nghymru yn unig.[135]

**88.** Dywedodd Conffederasiwn y GIG wrth y Pwyllgor y byddai'r codiadau mewn cyfraniadau yswiriant gwladol yn cael effaith anghymesur ar sefydliadau sy'n

---

[129] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Cadeiryddion Prifysgolion Cymru
[130] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Cadeiryddion Prifysgolion Cymru
[131] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru
[132] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Cartrefi Cymunedol Cymru
[133] Y Pwyllgor Cylid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr
[134] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Llamau
[135] Y Pwyllgor Cylid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Marie Curie

cyflogi pobl ar gyflog is gan ychwanegu y bydd sgil-effaith enfawr ar wasanaethau rheng flaen.[136]

**89.** Codwyd effaith y newid hwn ar y trydydd sector fel mater penodol yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Dywedodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) y byddai'r cynnydd mewn cyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr yn gadael:

> *"… 65% o'r mudiadau y gwnaethom gynnal yr arolwg arnynt yn bryderus neu'n bryderus tu hwnt ynghylch eu gallu i fforddio'r cynnydd. Dywedodd 21% wrthym eu bod yn ystyried lleihau'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt a dywedodd 14% eu bod yn ystyried cau'r gwasanaeth o ganlyniad i'r cynnydd yng Nghyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr a'r Cyflog Byw Cenedlaethol newydd…"*[137]

**90.** Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd y CGGC ei bod yn anodd cyfrifo[138] effaith wirioneddol y cynnydd mewn cyfraniadau YG, ond bod mesur lliniarol penodol ar gyfer y cynnydd mewn cyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr a'r cyflog byw cenedlaethol wedi'i nodi fel blaenoriaeth allweddol yr oedd angen mynd i'r afael â hi.[139] Pwysleisiodd y Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod hefyd y byddai effaith bellach ar y trydydd sector oni bai bod y codiadau mewn yswiriant gwladol yn cael eu lliniaru.[140]

**91.** Nododd Pobl Care and Support fod Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd yn comisiynu'r trydydd sector i ddarparu cyfran fawr o Iechyd a Gofal Cymdeithasol Oedolion[141] a:

> *"These commissioned services are impacted heavily and disproportionately by the direct costs relating to the changes in employers National Insurance contributions and increases to the National and Real Living Wage. These costs and its compounding nature is likely to have a devastating impact on both the third and social care sector."*[142]

---

[136] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 232
[137] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
[138] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr, paragraff 315
[139] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr, paragraff 302
[140] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr, paragraff 322
[141] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Pobl Care and Support
[142] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Pobl Care and Support

**92.** O ran yr effaith y byddai'r newidiadau'n ei chael ar ddarpariaeth gwasanaethau lleol, esboniodd CLlLC:

> *"Part of the conversation that has been had with the Welsh Government is to understand the impact on different local authorities. So, for example, a number of local authorities have their leisure services or their waste collections and other services in the private sector, or are seconded and have staff working through various companies. In those cases, potentially, if they don't get any NI support, that comes as an additional burden to those local authority budgets."*[143]

**93.** Fodd bynnag, dywedodd CLlLC hefyd:

> *"I think we need to be a bit careful not to welcome the funding, but complain about where it's come from—it needs to come from somewhere. So, we've been assured that we will get that money and that is built into our budget assumptions."*[144]

**94.** Nododd yr IFS y gallai'r newidiadau i gyfraniadau yswiriant gwladol gael effaith anghymesur ar Gymru, gan egluro:

> *"… with a lower pay structure in Wales, given that the increases of employer national insurance are bigger for lower paid workers, given the reduction in the allowance, that will mean a bigger impact in Wales."*[145]

**95.** Fodd bynnag, ychwanegodd yr IFS y gallai'r cynnydd, i'r gwrthwyneb, gael effaith wrthbwyso o ystyried bod cyfran fwy o gyflogaeth Cymru mewn busnesau bach, a'u bod yn cynyddu'r lwfans cyflogaeth hefyd fel y bydd rhai busnesau bach mewn gwirionedd yn talu llai o yswiriant gwladol cyflogwyr.[146]

**96.** Dywedodd yr OBR wrth y Pwyllgor hefyd fod ei thystiolaeth yn awgrymu y byddai gweithwyr yn teimlo baich y newid hwn yn fwy na chyflogwyr yn yr hirdymor:

> *"… the evidence seems to be that if you think about the ultimate burden of the higher national insurance contribution, we think it's very likely that maybe as much as 75 per cent of it actually*

[143] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 102
[144] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 92
[145] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 242
[146] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 76

*gets passed back on to workers in the form of lower wage increases than they otherwise would have got".*[147]

**97.** Ychwanegodd yr OBR:

*"… our assessment is that, probably 60 per cent, 75 per cent even, of the effect will flow back to lower wages than they otherwise would have been … that doesn't mean that wages are going to be absolutely cut; it's just that wage increases will be less than they would have been."*[148]

**98.** Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd ynghylch effaith y codiadau mewn cyfraniadau yswiriant gwladol ar y trydydd sector, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor:

*"There is extra money for the third sector in this budget. It is not money for the third sector to pay national insurance contributions, but third sector organisations faced with those decisions will need to construct their budgets accordingly."*[149]

**99.** Pan ofynnwyd iddo a oedd Llywodraeth Cymru wedi cynnal dadansoddiad o effaith gyffredinol y newidiadau i gyfraniadau yswiriant gwladol ar gyrff yng Nghymru, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

*"What I'm not going to be in a position to do is to provide money to organisations in Wales for which the Welsh Government is not being provided with funds. Any money we get to cover the costs of public sector employers we will pass directly to those services … But I can't magic money out of the Welsh Government budget to cover costs that are not being covered elsewhere."*[150]

**100.** Ychwanegodd:

*"… what I'm very reluctant to do—partly because I just don't have the wherewithal, and partly because I have some objections of principle—is to divert money that has come to Wales for our*

[147] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 13
[148] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 25
[149] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Rhagfyr 2024, paragraff 77
[150] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 60

*public services, for our responsibilities, to cover responsibilities that are exercised elsewhere."*[151]

## Barn y Pwyllgor

**101.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi gweld cynnydd sylweddol yn ei chyllideb yn 2024-25 ac ar gyfer 2025-26. Mae hwn yn newid i'w groesawu yn y cyllid i ailgyflenwi cyllidebau'r sector cyhoeddus, er ein bod yn cydnabod bod y mwyafrif helaeth o'r arian ychwanegol yn ymwneud â meysydd fel cyflogau a phensiynau'r sector cyhoeddus. Rydym hefyd yn nodi y bydd cyllid ar gyfer 2025-26 yn fwy hael na'r blynyddoedd dilynol, gyda disgwyliad y bydd cynlluniau gwariant Llywodraeth y DU yn llawer llymach.

**102.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod ei bod yn anodd gwneud cymariaethau rhwng lefelau ariannu Llywodraeth Cymru ar draws 2024-25 a 2025-26 oherwydd maint y cynnydd a gafwyd yn dilyn Datganiad Hydref y DU. Rydym yn nodi'r dull a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru wrth gyflwyno newidiadau rhwng 2024-25 a 2025-26 gan ddefnyddio llinell sylfaen ddiwygiedig ac rydym yn ddiolchgar i'r Ysgrifennydd Cabinet am gymryd dull rhagweithiol o egluro cymariaethau o un flwyddyn i'r llall yn ystod y cyfnod o graffu ar y gyllideb, gan gynnwys darparu cymhariaeth o ffigurau alldro o'r flwyddyn ariannol flaenorol. Rydym yn croesawu'r dull hwn ac yn credu y dylid ei ddilyn eto, yn enwedig mewn blynyddoedd lle mae newidiadau sylweddol i gyllid yn ystod y flwyddyn.

**103.** Fodd bynnag, rydym hefyd yn cytuno â WFA a'r IFS y gallai'r modd y cyflwynwyd y Gyllideb Ddrafft fod wedi bod yn gliriach, yn enwedig o ran egluro sut mae cyllid cyfalaf wedi newid rhwng 2024-25 a 2025-26. Yn benodol, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i egluro newidiadau ar wahân, fesul portffolio a fesul math o fuddsoddiad, fel bod darlun cywir o effaith symudiadau mewn cyllid yn cael ei ddarparu.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn esbonio sut mae cyllid cyfalaf wedi newid rhwng blynyddoedd ariannol 2024-25 a 2025-26, wedi'i ddadansoddi yn ôl portffolio a math o fuddsoddiad, a bod dull o'r fath yn cael ei fabwysiadu mewn cylchoedd cyllideb yn y dyfodol.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn cynnwys cymhariaeth o ffigurau alldro o'r blynyddoedd ariannol blaenorol yn

[151] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 60

erbyn y ffigurau arfaethedig ar gyfer y flwyddyn i ddod, fel rhan o ddogfennaeth y Gyllideb Ddrafft o'r cylch cyllideb nesaf ymlaen.

**104.** Mae'r Pwyllgor yn cytuno â WFA bod y ffordd y cyflwynir y rhagolygon ar gyfer refeniw o drethi datganoledig yn y Gyllideb Ddrafft yn ddefnyddiol ac yn rhoi mwy o eglurder ynghylch sefyllfa gyllidol Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rydym hefyd yn siomedig nad yw'r Trysorlys wedi rhoi blaenoriaeth i gyhoeddi'r data tryloywder grant bloc diweddaraf, yn enwedig o ystyried nad yw hyn wedi digwydd ers mis Gorffennaf 2023.[152] Rydym yn croesawu bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn cymryd dull rhagweithiol o ddarparu'r wybodaeth hon yn ei absenoldeb ac yn gofyn i'r wybodaeth hon gael ei rhannu â'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn cyhoeddi'r data tryloywder grant bloc diweddaraf cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol ac yn rheolaidd wedi hynny.

**105.** Wrth i ni ystyried y Gyllideb Ddrafft, daeth y Pwyllgor yn ymwybodol bod Llywodraeth yr Alban yn rhoi manylion symiau canlyniadol Barnett i Senedd yr Alban fel mater o drefn, yn fuan ar ôl pob digwyddiad cyllidol mawr.[153] Mae'r Pwyllgor wedi argymell yn flaenorol y dylai Llywodraeth Cymru roi eglurhad i'r Senedd ynghylch y cyllid canlyniadol y mae'n ei dderbyn.[154] Yn ei ymateb i'r cais hwn, dywedodd y Gweinidog ar y pryd wrth y Pwyllgor nad yw cyllid canlyniadol bob amser yn glir ac mai dim ond yn hwyr yn y flwyddyn ariannol y gall hyn ddigwydd, ar ôl deall sefyllfaoedd holl Adrannau'r DU.[155] Serch hynny, rydym yn ei chael hi'n siomedig bod Llywodraeth yr Alban yn gallu darparu gwybodaeth o'r fath yn gyflym ar ôl digwyddiad cyllidol, hyd yn oed os gallai hyn fod yn destun mân ddiwygiadau, ac mae'r Pwyllgor yn galw ar i Lywodraeth Cymru ddarparu'r un lefel o wybodaeth i'r Senedd o hyn ymlaen.

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn rhannu gwybodaeth a ddarperir gan y Trysorlys i Lywodraeth Cymru yn dangos symiau canlyniadol Barnett gyda'r Senedd yn fuan ar ôl pob digwyddiad cyllidol yn y DU.

[152] Trysorlys EF, Block Grant Transparency, Gorffennaf 2023
[153] SPICE Spotlight, The Barnett formula and consequentials, Tachwedd 2024
[154] Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24, Gorffennaf 2023, Argymhelliad 3
[155] Ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhellion Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2023-24, Awst 2023

**106.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod y berthynas rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn fwy agored a bod camau wedi'u cymryd i ddatblygu materion sy'n ymwneud â gwella hyblygrwydd cyllidebol Llywodraeth Cymru. Mae hwn yn faes o ddiddordeb hirsefydlog i'r Pwyllgor a gafodd sylw mawr yn ein hadroddiad ar Gysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol a gyhoeddwyd y llynedd.[156] Fodd bynnag, rydym yn dal yn rhwystredig bod datblygiadau yn araf yn y maes hwn ac rydym yn ailadrodd galwadau i wneud y newidiadau hyn ar fyrder.

**107.** Mae'r Pwyllgor yn arbennig o siomedig bod y Trysorlys yn parhau i ystyried gweinyddiaethau datganoledig yn yr un modd ag adrannau'r DU. Nid yw hyn yn rhoi digon o ystyriaeth i'r amser sydd ei angen ar gyfer cynllunio a chraffu ar gyllidebau mewn cyd-destun datganoledig ac fe'i hadlewyrchir yn anhyblygedd rheolau yn y Fframwaith Cyllidol. Rydym yn rhannu rhwystredigaeth yr Ysgrifennydd Cabinet ynghylch yr amser y mae wedi'i gymryd i gyflwyno newidiadau bach a syml, yn enwedig o ystyried y gefnogaeth drawsbleidiol iddynt yn y Senedd. Mae'n destun pryder bod y problemau hyn yn parhau i fod heb eu datrys a gofynnwn am gydweithio pellach rhwng llywodraethau ar y mater hwn ar fyrder i sicrhau y gellir manteisio i'r eithaf ar bwerau cyllidol Llywodraeth Cymru a'u bod yn adlewyrchu'r cyd-destun economaidd presennol.

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod materion gyda'r Fframwaith Cyllidol yn ymwneud ag uwchraddio benthyciadau a therfynau ar Gronfa Wrth Gefn Cymru i'r gwerth gwreiddiol mewn termau real, a dileu'r terfyn tynnu i lawr blynyddol o Gronfa Wrth Gefn Cymru, yn cael eu datrys cyn diwedd blwyddyn ariannol 2025-26 a bod diweddariad yn cael ei roi i'r Pwyllgor ar ei hynt erbyn toriad yr haf.

**108.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu datblygiadau ar lefel y DU sydd wedi gwella natur ragweladwy'r broses o lunio polisïau cyllidol yn ogystal â chadarnhad y bydd rhaglen reolaidd o adolygiadau gwariant ac amlflwyddyn yn dychwelyd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi bod Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal ei Hadolygiad ei hun o Wariant Cymru ac mae'n croesawu bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn gofyn i Ysgrifenyddion Cabinet eraill a swyddogion ystyried materion ehangach y tu allan i'w meysydd portffolio fel rhan o'r gwaith hwn. Mae'n galonogol hefyd y bydd materion tymor hwy sy'n ymwneud â newid demograffig a newid hinsawdd yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses hon.

[156] Y Pwyllgor Cyllid, Cysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol, Hydref 2024

**109.** Fodd bynnag, er bod y Pwyllgor yn nodi bod yr Adolygiad o Wariant Cymru yn ddarn parhaus o waith, heb ddechrau a diwedd diffiniedig, credwn y dylid rhannu mwy o fanylion er mwyn sicrhau bod pwyllgorau'r Senedd yn cael cyfle i ddylanwadu ar y broses hon a dwyn ei chanlyniadau i gyfrif. Mae hyn yn hanfodol er mwyn galluogi'r Senedd i ddeall effaith y broses adolygu gwariant ar benderfyniadau cyllidebol Llywodraeth Cymru.

**110.** Mae'r Pwyllgor yn nodi rôl ganolog Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[157] wrth lywio blaenoriaethau cyllidebol Llywodraeth Cymru ac wrth lywio Adolygiad o Wariant Cymru. Roedd y Pwyllgor yn siomedig nad oedd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (y Comisiynydd) yn gallu rhoi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor eleni, o ystyried bod y Comisiynydd mewn sefyllfa unigryw i roi ei farn ar sut mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn cyflawni hyn. Er ein bod yn croesawu'r dadansoddiad a ddarparwyd gan y Comisiynydd yn ei dystiolaeth ysgrifenedig a ddaeth i law ar 23 Ionawr 2025,[158] nid yw hyn yn cymryd lle tystiolaeth lafar lle y gellir archwilio gwybodaeth o'r fath yn fanylach. Edrychwn ymlaen at weithio gyda'r Comisiynydd dros y flwyddyn nesaf i sicrhau sut y gall ei farn gyfrannu at y gwaith o graffu ar y Gyllideb Ddrafft y flwyddyn nesaf.

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu manylion ac amserlenni sy'n ymwneud â'r Adolygiad o Wariant Cymru, gan gynnwys manylion dogfennau ac allbynnau, ac yn ymrwymo i osod dogfennau o'r fath gerbron y Senedd cyn Cyllideb Ddrafft 2026-27 er mwyn caniatáu amser i bwyllgorau'r Senedd lywio a dylanwadu'n ystyrlon ar ei ganlyniadau.

**111.** Er gwaethaf y cyfathrebu gwell rhwng llywodraethau Cymru a'r DU ar gyhoeddiadau ariannu cyn Datganiad yr Hydref, rydym yn bryderus iawn ynghylch yr ansicrwydd parhaus am gyllid y bydd Llywodraeth Cymru yn ei gael i liniaru effaith y cynnydd yng nghyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr mewn meysydd datganoledig yng Nghymru.

**112.** Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r Ysgrifennydd Cabinet na fyddai swm canlyniadol Barnett o'r hyn a fyddai'n cael ei ddarparu yn Lloegr yn ffordd deg o dalu'r costau hyn a chefnogi'r Ysgrifennydd Cabinet yn ei drafodaethau â'r Trysorlys ar y mater hwn. Rydym hefyd yn nodi bod disgwyl i'r materion hyn gael eu trafod gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys yn y cyfarfod F:ISC sydd ar ddod yng Nghaerdydd, ac

[157] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (anaw2)
[158] Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Dadansoddiad o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26: tystiolaeth ychwanegol i Bwyllgor Cyllid y Senedd, 23 Ionawr 2025

rydym yn gofyn i'r Pwyllgor gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad y trafodaethau hynny cyn gynted â phosibl, cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol.

**113.** Er gwaethaf yr ymdrechion hyn, mae'r Pwyllgor yn siomedig bod ansicrwydd ynghylch y cyllid hwn yn parhau, ac mae'n credu bod hyn yn destun pryder mawr o ystyried y dystiolaeth a ddaeth i law sy'n dangos bod hyn yn debygol o gael effaith anghymesur ar gyflogwyr yng Nghymru. O ganlyniad, gofynnwn i Lywodraeth Cymru roi eglurder ar y mater hwn ar fyrder, yn enwedig o ystyried cryfder y teimladau a fynegwyd gan ymatebwyr i ymgynghoriad y Pwyllgor, ar draws ystod o sectorau.

**114.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'n benodol y bydd y cynnydd mewn cyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr yn cael effeithiau gwahanol ar wahanol sectorau ac y bydd maint yr effaith yn dibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys a oes prinder sgiliau a chyfran y staff o fewn sefydliadau a sectorau ar gyflogau ar yr isafswm cyflog neu'n agos ato. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â'r trydydd sector, a gofynnwn i'r Ysgrifennydd Cabinet asesu effaith y newidiadau hyn ar allu darparwyr o fewn y sectorau hynny i barhau i ddarparu gwasanaethau lleol.

**115.** Er bod y Pwyllgor yn nodi tystiolaeth sy'n awgrymu bod disgwyl i'r effaith gyffredinol arwain at dwf cyflog ychydig yn arafach a phwysau chwyddiant ychwanegol, rydym yn cydnabod yn llwyr y bydd hyn yn creu mwy o gymhelliant i gyflogwyr fuddsoddi mewn cynyddu cynhyrchiant yn hytrach na gweithlu ychwanegol. Rydym hefyd yn nodi y gallai cyfansoddiad y gweithlu a'r strwythur cyflogau yng Nghymru arwain at effeithiau ychydig yn wahanol i'r rhai yn Lloegr.

**116.** Nodwn hefyd yr effaith y bydd y newidiadau hyn yn ei chael ar y gwasanaethau a ddarperir yn lleol a'r potensial y bydd y baich ychwanegol hwn yn ei gael ar gyllidebau awdurdodau lleol. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw gyllid ychwanegol gael ei ddosbarthu i awdurdodau lleol yn seiliedig ar gyfrifiadau o gostau ychwanegol oherwydd y newid mewn cyfraniadau YG, ac y dylai weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod costau o'r fath yn cael eu talu'n briodol.

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf, ar fyrder a chyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol, ar gyllid y bydd Llywodraeth Cymru yn ei gael gan y Trysorlys i liniaru effaith y cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr.

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn cynnal asesiad o'r effaith y bydd cynyddu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr

yn ei chael ar sefydliadau trydydd sector yng Nghymru, ac i wybodaeth o'r fath fod ar gael i'r cyhoedd cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol.

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn sicrhau bod unrhyw gyllid ychwanegol a ddarperir gan Lywodraeth y DU i wneud iawn am y cynnydd yng Nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr yn cael ei ddosbarthu i awdurdodau lleol yn seiliedig ar gyfrifiadau o gostau ychwanegol o ganlyniad i'r newid.

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol a'r sector cyhoeddus i ddeall yr effaith y mae'r cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol yn ei chael ar wasanaethau a gomisiynir ac yn ystyried y dull mwyaf priodol o ddosbarthu arian i liniaru'r effaith ariannol.

# 3. Trethiant, Rhagolygon ac Ysgogiadau Cyllidol Eraill

**117.** Rhoddodd y cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar Fframwaith Cyllidol Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016,[159] gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru benderfynu a ddylid defnyddio rhagolygon treth y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) neu drefniadau rhagweld treth annibynnol amgen ar gyfer trethi datganoledig Cymru, a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2018.

**118.** Mae'r OBR wedi darparu rhagolygon annibynnol o refeniw trethi Cymru ar gyfer pob blwyddyn ers cylch cyllideb 2020-21. Mae'n rhoi gwybodaeth fanwl am y canlynol:

- cyllid cyhoeddus drwy ei rhagolwg cyllidol;
- yr economi drwy ei rhagolwg o'r economi;
- costau polisi sy'n cynnwys amcangyfrifon o effaith polisïau newydd a gyhoeddwyd gan Lywodraethau; ac
- effaith bosibl Brexit ar yr economi a chyllid cyhoeddus.[160]

**119.** Cafodd ei Rhagolwg Trethi Cymreig diweddaraf eu cyhoeddi ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26, ac maent yn nodi rhagolwg yr OBR ar gyfer pob un o'r trethi datganoledig yng Nghymru: cyfraddau treth incwm Cymru (CTIC), y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi.[161]

**120.** Yn Rhagolwg Trethi Cymreig[162], nododd yr OBR fod rhagolygon trethi Cymru yn gyson â'r rhagolwg canolog ar gyfer economi a chyllid cyhoeddus y DU a gyflwynwyd yn ei rhagolwg economaidd a chyllidol ym mis Hydref 2024.[163] Mae cyhoeddiad Rhagolwg Trethi Cymreig yn rhoi asesiad cychwynnol o wahaniaethau rhagamcanol olynol ar gyfer CTIC ar gyfer 2022-23. Dywedodd yr OBR ei bod wedi cael sicrwydd nad yw'n ymddangos bod gogwydd arbennig y

[159] Llywodraeth y DU, Y cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2016
[160] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Economic and fiscal outlook, Hydref 2024
[161] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Rhagolygon ar gyfer trethi datganoledig Cymru, Rhagfyr 2024
[162] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Rhagolygon ar gyfer trethi datganoledig Cymru, Rhagfyr 2024, tudalen 1
[163] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Economic and fiscal outlook, Hydref 2024, tudalen 19

naill ffordd na'r llall yn y meysydd a ragwelwyd.[164] Bydd fersiwn fanylach o'r dadansoddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar adeg y Gyllideb Derfynol.

## Risgiau Cyllidol

**121.** Ers mis Gorffennaf 2022, mae'r OBR wedi bod yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar risgiau cyllidol a chynaliadwyedd.[165] Mae hyn yn rhan o waith i Lywodraeth y DU ac mae'n ymgorffori prosiectau hirdymor bob dwy flynedd a dadansoddiad wedi'i ddiweddaru o risgiau cyllidol mawr posibl.

**122.** Mae trydydd adroddiad yr OBR yn canolbwyntio ar y risgiau canlynol i'r rhagolwg cyllidol hirdymor dros y 50 mlynedd nesaf:

- effaith economaidd a chyllidol bosibl difrod sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd;
- effaith tueddiadau iechyd newidiol ar gyllid cyhoeddus; a
- rhagamcanion cyllidol hirdymor wedi'u diweddaru, gan gynnwys senarios amgen yn ymwneud â chynhyrchiant a mudo.[166]

**123.** Mae gwaith yr OBR ar effaith sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn newydd, ac mae'n disgyn i dri chategori:

- costau lliniaru, gan wneud y newid i sero net (a ystyriwyd gyntaf yn Adroddiad risgiau cyllidol 2021);
- costau difrod, a achosir gan dymereddau uwch, lefel y môr yn codi a digwyddiadau tywydd (mae'r rhain wedi'u cynnwys am y tro cyntaf yn adroddiad 2024); a
- costau addasu i leihau'r difrod hwnnw (bydd hyn yn rhan o adroddiadau yn y dyfodol).[167]

**124.** Mae effeithiau'r risgiau hyn sy'n ymwneud â'r hinsawdd o ran cynnydd mewn gwariant cyhoeddus ac effeithiau negyddol ar GDP y DU yn sylweddol a byddant yn cynyddu'n aruthrol dros amser, heb newidiadau i'r cyfeiriad polisi presennol a'r rhagdybiaethau sylfaenol.[168]

[164] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 69
[165] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Fiscal risks and sustainability, Medi 2024
[166] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Fiscal risks and sustainability, Medi 2024
[167] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Fiscal risks and sustainability, Medi 2024
[168] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Fiscal risks and sustainability, Medi 2024

**125.** Cadarnhaodd yr OBR fod ei gwaith yn y maes hwn yn cael ei wneud ar lefel y DU yn hytrach na lefel Cymru oherwydd mae'n ddigon anodd ceisio gwneud hyn ar gyfer economi gyfan cyn i chi ddod at yr effeithiau gronynnog y gallai eu cael ar wahanol wledydd a rhanbarthau'r DU.[169]

**126.** Esboniodd yr OBR sut yr oedd wedi cyflawni ei gwaith yn y maes hwn:

> *"We looked at two different scenarios. One was for a 2 degrees centigrade rise in temperatures, another was for a 3 degrees C rise in temperatures. Between those two scenarios, you could see, over 50 years, a loss of UK GDP of anywhere between 3 per cent and 5 per cent from the kind of damage that you'd get to an economy like the UK from climate change, where the main channels through which higher temperatures affect an economy like the UK, given the climate that we have, are more frequent heatwaves and then coastal and riverine flooding."*[170]

**127.** Cadarnhaodd yr OBR nad oedd unrhyw asesiadau penodol wedi'u gwneud ar yr effaith y byddai newid yn yr hinsawdd yn ei chael ar gyllid datganoledig Cymru, ond:

> *"… we'd be happy to work with our colleagues in the Welsh Government to look at what that might mean for Wales in particular, although you would expect for a country like Wales, you've got a lot of rivers, you've got a long coastline and so that is clearly a route through which climate change can cause some significant economic damage, which then has fiscal consequences, in terms of the damage it does to the economy, but also the cost that might fall to the public sector to remediate that damage if it's uninsurable or uninsured."*[171]

**128.** Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod Llywodraeth Cymru yn defnyddio gwaith yr OBR yn ogystal ag adroddiadau tueddiadau'r dyfodol a gaiff eu llunio gan y Comisiynydd fel rhan o'i phrosesau penderfynu ynghylch y gyllideb, gan nodi eu bod yn darparu cyfoeth o wybodaeth y gellir ei defnyddio i geisio edrych y tu hwnt i'r gorwel uniongyrchol.[172]

[169] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 85
[170] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 86
[171] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 87
[172] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 47

## Trethi Datganoledig

### Ymwybyddiaeth y Cyhoedd

**129.** Roedd safbwyntiau ar ddefnyddio trethiant neu fenthyca datganoledig yn amrywio ymhlith cyfranogwyr yng ngrwpiau ffocws ymgysylltu'r Pwyllgor, a gynhaliwyd yn ystod haf 2024, gyda dadleuon yn cael eu gwneud o blaid ac yn erbyn y ddau. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr ond eisiau gweld cynnydd mewn treth incwm i'r rheini sy'n gallu ei fforddio, ac roedd unrhyw dreth ar y cyhoedd yn gyffredinol yn amhoblogaidd gyda bron pob grŵp.[173]

**130.** Eleni, gofynnwyd hefyd i'r cyfranogwyr a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol: "Byddwn yn hapus i gael fy nhrethu mwy pe bai'r arian ychwanegol a gynhyrchwyd yn cael ei wario ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru." Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn anghytuno, yn bennaf am resymau'n ymwneud â diffyg ymddiriedaeth ynghylch ble y byddai'r arian yn mynd mewn gwirionedd, neu oherwydd eu bod yn teimlo bod pobl eisoes yn dioddef caledi ac na allant fforddio talu mwy o dreth pan nad yw cyflogau wedi cynyddu digon i liniaru problemau'r argyfwng costau byw.[174]

**131.** Ymhlith y sylwadau eraill a wnaed yn ystod y grwpiau ffocws roedd y canlynol:

> *"Does gyda fi ddim ffydd ar hyn o bryd y byddai'r dreth ychwanegol yma'n cael ei gwario'n gywir, ac yn ddigon effeithlon. Gobeithio y byddaf yn newid fy meddwl yn y dyfodol. Serch hynny, ar hyn o bryd, does gyda fi ddim digon o ffydd."* ***Teithiwr llesol neu ddefnyddiwr trafnidiaeth gyhoeddus***[175]

> *"All pobol ddim fforddio rhoi bwyd ar y ford, heb sôn am roi mwy o arian ym mhoced y llywodraeth drwy dalu mwy o dreth."* ***Teithiwr llesol neu ddefnyddiwr trafnidiaeth gyhoeddus***[176]

> *"Byddwn i'n barod i dalu mwy o dreth pe byddwn i'n teimlo y byddai pethau'n gwella, a bod yr arian yn mynd i gael ei wario ar*

---

[173] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26, Gorffennaf 2024, paragraffau 10-11
[174] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26, Gorffennaf 2024, paragraffau 10-11
[175] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26, Gorffennaf 2024, paragraff 73
[176] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26, Gorffennaf 2024, paragraff 73

*wasanaethau rheng flaen. Fodd bynnag, dwyf fi ddim yn hyderus y byddai hyn yn digwydd. Byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru brofi i mi eu bod nhw'n gwario'n synhwyrol, cyn cytuno."* ***Gofalwyr di-dâl***[177]

**132.** O ran ymwybyddiaeth o drethiant, roedd gan y rhan fwyaf o gyfranogwyr rywfaint o ymwybyddiaeth o sut roedd cyllideb Llywodraeth Cymru yn cael ei hariannu o ran datganoli trethi, ond nid o'r symiau penodol a'r trethi penodol dan sylw.[178]

## Cyfraddau Treth Incwm Cymru

**133.** Cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC) yw'r ffynhonnell fwyaf arwyddocaol o refeniw treth a reolir gan Lywodraeth Cymru. Mae dogfen y Gyllideb Ddrafft yn cadarnhau "na fydd unrhyw newid i CTIC yn 2025-26 ac y bydd talwyr treth incwm Cymru yn talu'r un cyfraddau treth incwm â'u cymheiriaid yn Lloegr a Gogledd Iwerddon".[179]

**134.** Mae'r OBR yn nodi, o'i gymharu â mis Mawrth 2024, y bydd rhagolygon CTIC ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod yn cael eu cynyddu.[180] Mae hyn yn gynnydd o £70 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd, neu 2 y cant. Mae'r newidiadau yn y blynyddoedd i ddod yn adlewyrchu diwygiadau i fyny i'w rhagolwg ledled y DU, i raddau helaeth. Mae penderfyniadau polisi Cyllideb yr Hydref Llywodraeth y DU hefyd yn cyfrannu £64 miliwn, neu 90 y cant o'r cynnydd, bob blwyddyn ar gyfartaledd.

**135.** Mae'r OBR yn cynhyrchu rhagolygon treth incwm Cymru ar sail 'o'r brig i lawr' gan ddefnyddio rhagolygon macro-economaidd lefel y DU i fodelu rhwymedigaethau treth incwm Cymru, ac mae'r OBR yn tybio bod y sylfaen dreth yng Nghymru a'r DU gyfan yn symud yn gyfochrog yn gyffredinol.[181] Wrth egluro ei dull, dywedodd yr OBR:

*"… the way in which we produce the Welsh income tax forecast is we forecast UK-wide income tax—the relevant parts of income tax—and then we calculate the Welsh share of that".*[182]

[177] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26, Gorffennaf 2024, paragraff 74
[178] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26, Gorffennaf 2024, paragraffau 65-66
[179] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2025-26, Rhagfyr 2024, tudalen 30
[180] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Rhagolygon ar gyfer trethi datganoledig Cymru, tudalen 11
[181] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Rhagolygon ar gyfer trethi datganoledig Cymru, tudalen 20
[182] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 35

**136.** O ran effaith Datganiad yr Hydref, cadarnhaodd yr OBR:

*"… the overall impact of the budget policy package was one that was increasing spending by more than tax, increasing borrowing, and therefore, in the short term, we assume that acts to stimulate demand in the economy in the short term and tails off in the medium term."*[183]

**137.** Ychwanegodd yr OBR hefyd:

*"I think in the case of Wales one thing to bear in mind is that there were a number of moving parts in this last October budget. There was the national insurance rise, which does put an additional burden on employers, but there is also some compensation being provided to some public servants for that extra cost, as well as a lot of extra resources being provided for public services in the budget, which … more than compensates in fiscal terms for the cost of the national insurance rise in the Welsh budget."*[184]

**138.** Nododd WFA:

*"The big story of the forecast is how beneficial it's been for the Welsh Government budget. Currently, next year, it's about £317 million net benefit from tax devolution. That isn't insignificant. It's about 1.4 per cent of day-to-day spending allocations. It's about equal to what the Welsh Government would receive if they increased a penny on income tax. That's a big change in the size of the Welsh budget resulting from these tax changes."*[185]

**139.** Pan ofynnwyd am effaith penderfyniad Llywodraeth y DU i rewi trothwyon treth tan 2029 ar ragolygon Cymru, cadarnhaodd yr OBR fod hyn yn rhywbeth yr ystyriwyd yn rhai o'i dadansoddiad blaenorol, a'i bod mewn gwirionedd yn gobeithio gwneud ychydig mwy o ddadansoddi ar hyn dros y flwyddyn i ddod.[186] Ychwanegodd:

*"… the freezing of the personal allowance we think is likely to have a relatively more important impact in Wales because of the relative distribution of earnings in Wales compared to the rest of the UK,*

[183] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 36
[184] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 72
[185] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 247
[186] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 49

*meaning more workers are likely to be affected by that freeze, i.e. more employers will be pulled into the tax system due to the freezes in personal allowance compared to the rest of the UK".*[187]

**140.** Nododd yr OBR hefyd yn ei rhagolwg bod llai o ymatebion i lawer o arolygon, fel Arolwg y Gweithlu Llafur, wedi cyflwyno heriau wrth lunio ei rhagolwg. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

*"…. the response rates have fallen catastrophically … in the last four or five years. Therefore … the reliability of that data has been significantly eroded, and it's going to be maybe even a couple of years before we're likely to see major improvements in that. That's a big problem for people who rely on those statistics … it's a real issue."*[188]

**141.** Pan ofynnwyd a allai'r OBR gymryd camau i wella rhagolygon Cymru, dywedodd WFA, er bod gan yr OBR hanes eithaf cryf o ddarparu gwybodaeth am y gwahaniaethau rhwng rhagolygon refeniw cymharol economi Cymru a Lloegr a Gogledd Iwerddon, byddai datblygu gwybodaeth mewn rhagolygon yn y dyfodol yn cael ei werthfawrogi.[189] Ychwanegodd:

*"In terms of the outturn and comparing to forecast, I think the OBR has a pretty good record, and it lays that out in its documentation. The comments that we've made in previous sessions with the Finance Committee have been around the presentation, the narrative and the depth of analysis that they provide in the documents, and I think that has improved. I think there's a greater focus on what's happening, underlying the Welsh forecast."*[190]

**142.** Cytunodd yr IFS, ond awgrymodd y gallai'r OBR wella ei rhagolwg drwy symud tuag at:

*"… a bottom-up approach for the Welsh forecast: rather than take UK forecasts and apply Welsh shares to them, actually a more bottom-up approach for the forecast, like the Scottish Fiscal Commission does. But that would probably be quite a significant*

[187] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 49
[188] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 69
[189] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 247
[190] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 81

> *investment that would require the Welsh Government to contribute more funding to the OBR to help them do that."*[191]

**143.** Pan ofynnwyd iddo a fyddai Llywodraeth Cymru yn fodlon gweithio gyda'r OBR i wella'r modd y cyflwynir gwybodaeth am refeniw treth er mwyn gallu deall ei effaith yn well, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet eu bod yn awyddus iawn i weithio gyda'r OBR ar yr adroddiad rhagolwg trethi Cymreig a'u bod yn hapus iawn i gael sgyrsiau pellach gyda'r OBR i'w wella eto fyth.[192]

**144.** Eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y fersiwn o ragolwg trethi Cymreig y bydd yr OBR yn ei chyhoeddi yn cael ei hadolygu a'i hailgynllunio i geisio darparu rhywfaint o'r eglurder ychwanegol hwnnw, gan ychwanegu y byddai gwelliannau o'r fath yn helpu i egluro'r gwahaniaeth y mae trethi datganoledig yn ei wneud i faint o arian sydd gennym i wneud y pethau yr hoffai'r cyhoedd yng Nghymru eu gweld yn cael eu gwneud.[193]

## Y Dreth Trafodiadau Tir

**145.** Mae'r ddogfen Cyllideb Ddrafft yn cadarnhau bod y cyfraddau sy'n daladwy ar drafodiadau cyfraddau preswyl uwch y Dreth Trafodiadau Tir (LTT) yn cael eu cynyddu 1 pwynt canran ar gyfer pob band sy'n weithredol o 11 Rhagfyr 2024.[194] Gosodwyd y rheoliadau sy'n cyflwyno'r newidiadau hyn ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft ar 10 Rhagfyr 2024,[195] ac fe'u hystyriwyd gan y Pwyllgor ar 15 Ionawr 2025,[196] cyn cael eu trafod yn y Senedd yn y Cyfarfod Llawn ar 21 Ionawr 2025[197].

**146.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai'r newidiadau'n arwain at osod cyfraddau preswyl uwch LTT bum pwynt canran yn uwch na'r prif gyfraddau preswyl yn gyffredinol, ac amcangyfrifodd y byddai'r cynnydd hwn yn codi £7 miliwn yn ychwanegol yn 2025-26.[198]

**147.** Ar gyfartaledd, mae cyfanswm derbyniadau rhagolygon LTT £51 miliwn (16 y cant) yn uwch rhwng 2024-25 a 2028-29 o'i gymharu â mis Chwefror 2024.[199] Mae rhagolygon masnachol LTT wedi'u diwygio £13 miliwn i fyny yn 2024-25, yn

[191] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 250
[192] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 76
[193] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 77
[194] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2025-26, Rhagfyr 2024, tudalen 30
[195] Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2024
[196] Y Pwyllgor Cyllid, Agenda, 15 Ionawr 2024, eitem 8
[197] Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 21 Ionawr 2025, paragraffau 527-247
[198] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Cyllideb Ddrafft 2025-26: Trethi Cymru, 10 Rhagfyr 2024
[199] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Rhagolygon ar gyfer trethi datganoledig Cymru, tudalen 38

rhannol oherwydd un trafodiad eiddo mawr. Wedi hynny, caiff rhagolygon eu diwygio i lawr £4 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd (6 y cant).[200]

**148.** Wrth esbonio'r rhesymau y tu ôl i hyn, nododd yr OBR:

> *"… we have been surprised this year by the strength of the residential property market … we've seen a stronger rebound in transactions and prices after a dip last year than we were expecting, and we've also seen that in the outturn data in terms of receipts from those taxes this year, both UK-wide and in Wales."*[201]

**149.** Fodd bynnag, ychwanegodd yr OBR ei bod yn tybio yn y rhagolwg bod rhywfaint o hynny yn gryfder dros dro, a dyna pam mae'r cryfder yn y rhagolwg yn bennaf yn y tymor byr ac yna mae'n lleihau dros y tymor canolig.[202]

**150.** Mae Adroddiad ar Bolisi Trethi Llywodraeth Cymru yn nodi:

> *"Ar gyfer 2025-26 a blynyddoedd dilynol, mae'r rhagolygon ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir, fel y'u nodwyd yn Rhagolwg Trethi Cymru a gyhoeddwyd ar 10 Rhagfyr, yn cynnwys refeniw rhagamcanol ychwanegol o ganlyniad i fuddsoddi adnoddau ychwanegol yng ngweithgarwch Awdurdod Cyllid Cymru er mwyn nodi ac unioni pan gyflwynir ffurflenni treth sy'n ceisio tangofnodi trafodiadau ac, yna, adennill symiau'r atebolrwydd i dalu trethi sy'n deillio o hynny."*[203]

**151.** Pan ofynnwyd sut roedd yr OBR wedi newid ei methodoleg i ystyried hyn, eglurodd fod ganddi fethodoleg sefydledig ar gyfer asesu'r refeniw tebygol o'r mathau hyn o fesurau, gan ychwanegu:

> *"We look at historical evidence on the yield that an individual staff member generates undertaking that kind of activity … We use that as the baseline for assessing how much yield additional staff are likely to deliver. We adjust that for various factors, such as the time it will take a new staff member to get up to the productivity of an existing staff member … So, you tend to have a diminishing returns-type profile for those kinds of measures."*[204]

---

[200] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Rhagolygon ar gyfer trethi datganoledig Cymru, tudalen 40
[201] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 92
[202] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 93
[203] Llywodraeth Cymru, Adroddiad ar bolisi trethi, Rhagfyr 2024, tudalen 25
[204] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 99

**152.** Awgrymodd yr IFS fod cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer LTT yn y Gyllideb Ddrafft i gynyddu ymhellach y trethi a godir ar brynu ail gartrefi yn gam i'r cyfeiriad anghywir mewn gwirionedd, gan ychwanegu:

> *"It further exacerbates the damaging bias against the private rental sector in our tax system, and by reducing the supply of rental properties, will increase the cost of housing for those unable to afford to save for a deposit to buy a home themselves, because rents will be higher. And given the role the rental sector plays in the mobility of particularly young people, it will also make it harder for people to move for educational or job opportunities."*[205]

**153.** Wrth ymateb i'r pwyntiau hyn, amddiffynnodd yr Ysgrifennydd Cabinet y safbwynt a gymerwyd, gan nodi:

> *"… my first reaction is that it's a rather curious point to make in a budget where we're not doing what the Institute for Fiscal Studies complains about, because we're not increasing land transaction tax for 80 per cent of transactions in Wales. So, I'm a bit puzzled, really, as to why they would make that point in a year when we're not doing what they complain about."*[206]

**154.** Ychwanegodd:

> *"I'm not sure that I completely share their analysis, because it seems to me there are so many factors that play into people's decisions as to whether or not to move home, acquire another property, all of those things, and I'm not sure that LTT is always the most decisive thing in people's minds, really. So, it plays a part, but I think you can overstate the part that it plays."*[207]

## Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi

**155.** Mae cyfradd is y dreth gwarediadau tirlenwi yn wahanol i gyfraddau'r DU am y tro cyntaf ac yn gweld cynnydd sylweddol. Mae'r gyfradd safonol yn cynyddu o £103.70 i £126.15 y dunnell fetrig,[208] yn unol â'r cynnydd yn Lloegr, sy'n adlewyrchu cyfraddau RPI gwirioneddol yn hytrach nag amcangyfrifedig yn ystod 2022 i

[205] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 261
[206] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 80
[207] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 81
[208] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2025-26, Rhagfyr 2024, tudalen 14

2024.[209] Mae cyfradd Cymru'n unig ar gyfer gwarediadau anawdurdodedig yn codi i £189.25 y dunnell, i aros yn 150 y cant o'r gyfradd safonol.[210] Mae'r gyfradd is yn cynyddu, o £3.30 i £6.30 y dunnell fetrig (y gyfradd yn Lloegr fydd £4.05).[211]

**156.** Nododd yr OBR fod derbyniadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (LDT) yn hanner cyntaf 2024-25 i fyny £1.3 miliwn (8 y cant) ar yr un cyfnod y llynedd, wedi'u hysgogi gan gynnydd yn y gwastraff safonol a anfonir i safleoedd tirlenwi. Fodd bynnag, mae derbyniadau LDT yn parhau i fod yn hanesyddol isel. O ganlyniad, mae'r OBR wedi diwygio derbyniadau rhagolygon 2024-25 i fyny £3 miliwn, sy'n adlewyrchu'r data alldro cryfach na'r disgwyl yn hanner cyntaf y flwyddyn, ac mae'n disgwyl i effaith hyn barhau ar draws y rhagolwg.[212]

**157.** Adlewyrchir hefyd y newid polisi i gynyddu cyfraddau safonol ac is LDT sy'n cynyddu'r rhagolwg £3 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd o 2025-26 ymlaen. Mae'r adroddiad yn nodi, ar adeg Cyllideb y DU, cyn i Lywodraeth Cymru gyhoeddi y byddai'n defnyddio'r un gyfradd â Lloegr, fod yr OBR wedi tybio y byddai rhywfaint o wastraff o Loegr yn croesi'r ffin i Gymru.[213]

**158.** Cadarnhaodd yr OBR na fydd y newidiadau hyn yn arwain at unrhyw newidiadau mewn llifoedd trawsffiniol a bod unrhyw effaith mewn gwirionedd yn debygol o fod yn fach iawn.[214]

## Ysgogiadau Cyllidol Eraill

### Gwariant Cyfalaf

**159.** Mae cyfalaf cyffredinol yn cynyddu £675 miliwn yn y Gyllideb Ddrafft o'i gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig, neu £528 miliwn o'i gymharu â'r Gyllideb Derfynol ar gyfer 2024-25, a ailddatganwyd ym mis Medi 2024. Mae cyfalaf cyffredinol yn cynyddu £575 miliwn ar y llinell sylfaen, neu £596 miliwn o'i gymharu â'r Gyllideb Derfynol ar gyfer 2024-25, a ailddatganwyd ym mis Medi 2024.[215]

**160.** Mae Cyfalaf Trafodiadau Ariannol a ddyrannwyd yn y Gyllideb Ddrafft yn £99 miliwn gyda'r holl ddyraniadau o 2024-25 wedi cael eu tynnu o'r llinell sylfaen. Y

[209] CThEF, Landfill Tax: Increase in rates, 30 Hydref 2024
[210] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2025-26, Rhagfyr 2024, tudalen 12
[211] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2025-26, Rhagfyr 2024, tudalen 14
[212] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Rhagolygon ar gyfer trethi datganoledig Cymru, Rhagfyr 2024, tudalen 48
[213] Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, Rhagolygon ar gyfer trethi datganoledig Cymru, Rhagfyr 2024, tudalen 48
[214] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 114
[215] Llywodraeth Cymru, Tablau yn ategu cynlluniau gwariant, Rhagfyr 2024

dyraniadau yn y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2024-25, a ailddatganwyd, oedd £167 miliwn.[216]

**161.** Nododd nifer o ymatebwyr i ymgynghoriad y Pwyllgor fod diffyg buddsoddiad cyfalaf dros y blynyddoedd diwethaf. Nododd Conffederasiwn y GIG bod angen buddsoddi ymhellach, gan gynnwys cyllid cyfalaf, i gefnogi cyrff cyhoeddus i gyrraedd y targed Sero Net erbyn 2030, a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.[217] Ychwanegodd yn ei dystiolaeth lafar fod rhywfaint o'r ystad ysbytai mewn sefyllfa enbyd iawn.[218]

**162.** Adlewyrchwyd hyn hefyd mewn sylwadau a wnaed gan gyfranogwyr fel rhan o waith ymgysylltu cryno'r Pwyllgor, gyda rhanddeiliaid yn nodi bod seilwaith sy'n heneiddio mewn ysbytai yn golygu nad ydynt yn addas at y diben a bod angen buddsoddiad cyfalaf i ddatblygu ysbytai llai o'r radd flaenaf.[219] Nodwyd bod adeiladu cartrefi yn y mannau cywir, yn agos at ysgolion, trafnidiaeth, siopau a mannau gwyrdd yn elfen hanfodol o gynllunio effeithiol, nid yn unig i leihau costau adeiladu seilwaith newydd ond hefyd i leihau'r ôl troed carbon a chynyddu twf economaidd.[220]

**163.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor fod y dyraniadau cyfalaf ychwanegol yn y Gyllideb Ddrafft yn cyd-fynd â chreu'r amodau a fydd yn caniatáu i economi Cymru dyfu ochr yn ochr ag economi'r DU a hefyd eu bod wedi ceisio defnyddio'r cyfalaf yn y gyllideb hon i ddenu buddsoddiad preifat.[221]

**164.** O ran a fydd dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â chyfalaf yn y Gyllideb Ddrafft yn cyflawni hyn, nododd yr IFS:

> *"… I think that is possible. I would certainly hope that increased public sector investment helps boost productivity, through better public services or better infrastructure in future, which should encourage more private sector investment, or at least boost private sector productivity as well."*[222]

---

[216] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2025-26, Rhagfyr 2024, tudalen 14
[217] Y Pwyllgor Cylid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Conffederasiwn y GIG
[218] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 257
[219] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26, Gorffennaf 2024, paragraff 17
[220] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26, Gorffennaf 2024, paragraff 18
[221] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Rhagfyr 2025, paragraff 17
[222] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 186

**165.** Fodd bynnag, ychwanegodd yr IFS nodyn o rybudd:

> *"in the short term sometimes it can actually crowd out private sector investment, if there are shortages of skilled workers or appropriate equipment needed for that investment or if the public sector borrowing absorbs available savings, leading to higher interest rates"*.[223]

**166.** Yn ei thystiolaeth, croesawodd CLlLC y cyllid cyfalaf ychwanegol yn y Gyllideb Ddrafft fel cam cadarnhaol, yn sicr, yn enwedig gan fod awdurdodau lleol wedi bod yn cael trafferthion gyda chyfalaf am nifer o flynyddoedd.[224]

**167.** Cydnabu'r Ysgrifennydd Cabinet hefyd eu bod wedi cael eu hamddifadu o gyfalaf yn eu gwasanaethau cyhoeddus ond bod ganddynt gynnydd sylweddol mewn cyfalaf yn y gyllideb hon.[225]

**168.** Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd, wrth ddefnyddio cyfalaf preifat, y byddai Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r math rhataf o gyfalaf yn gyntaf, ac os nad yw hynny'n ddigonol—ac yn sicr nid yw wedi bod yn ddigonol—y byddai'n symud ymlaen at y ffurf nesaf ar gyfalaf sydd rhataf. Ychwanegodd, pe byddai'n gallu bodloni'r holl anghenion cyfalaf heb fod angen mynd i ran ddrytaf y farchnad, y byddai'n gwneud hynny.[226]

## **Benthyca a** Defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn

**169.** Mae'r Gyllideb Ddrafft yn amlinellu y bydd Cronfa Wrth Gefn Cymru yn cael ei chadw fel arian wrth gefn, heb unrhyw arian yn cael ei dynnu i lawr ar gyfer 2025-26.[227] O ystyried bod y Gyllideb Ddrafft wedi dyrannu dros £25 biliwn, mae'r cyllid a gedwir mewn cronfeydd wrth gefn yn gymharol fach. Dim ond £99.7 miliwn sydd heb ei ddyrannu o adnoddau cyllidol a chyfalaf cyffredinol o £47.9 miliwn ac mae cyfalaf trafodiadau ariannol wedi'i orddyrannu o £13.8 miliwn.[228]

**170.** Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio'r uchafswm o £150 miliwn o fenthyca sydd ar gael, gan gynyddu'r balans benthyca hyd at £617 miliwn, byddai hyn yn cynnwys cynlluniau benthyca o £150 miliwn yn 2024-25[229]

[223] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 186
[224] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 47
[225] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 113
[226] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 125
[227] Llywodraeth Cymru, Tablau yn cefnogi cynlluniau gwariant, Rhagfyr 2024
[228] Llywodraeth Cymru, Tablau yn cefnogi cynlluniau gwariant, Rhagfyr 2024
[229] Llywodraeth Cymru, Tablau yn cefnogi cynlluniau gwariant, Rhagfyr 2024

**171.** Byddai benthyca ar yr uchafswm yn arwain at gyrraedd y terfyn benthyca presennol o £1 biliwn mewn tair i bedair blynedd wedi hynny. Cadarnhawyd hyn gan yr Ysgrifennydd Cabinet a ddywedodd wrth yr Aelodau, os byddant yn parhau i fenthyca ar y gyfradd bresennol, sef £150 miliwn y flwyddyn, a does dim newid mewn benthyca cyfalaf, y byddant yn taro eu nenfwd nawr rhywbryd yn nhymor nesaf y Senedd.[230]

**172.** Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd ei fod yn awyddus iawn i wneud yn siŵr eu bod yn mynd i mewn i'r flwyddyn nesaf gyda chronfa wrth gefn Cymru yn llawn, gan nad oedd ganddo unrhyw arian wrth gefn arall, gan ychwanegu:

> *"There are lots of moving parts to manage here, but one of them is having a very modest sum of money that I hope to be able to deploy in the final budget, to meet some of the calls that will have come through from Senedd scrutiny."*[231]

## Barn y Pwyllgor

**173.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r penderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn y Gyllideb Ddrafft hon ynghylch trethi datganoledig. Rydym hefyd yn parhau i groesawu'r farn a fynegwyd ar drethiant a gwariant yn nigwyddiadau ymgysylltu a rhanddeiliaid y Pwyllgor ac yn nodi bod dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â threthiant yn cyd-fynd yn fras â'r safbwyntiau a fynegwyd.

**174.** Mae'r Pwyllgor yn nodi â diddordeb y gwaith y mae'r OBR yn ei wneud ynghylch risgiau cyllidol hirdymor newid yn yr hinsawdd ar y DU dros y 50 mlynedd nesaf ac yn croesawu bod y gwaith hwn yn llywio dull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran cyllidebu hirdymor. Yn ogystal â sut y mae'r ffactorau hyn yn llywio'r Adolygiad o Wariant Cymru (a ystyrir ymhellach ym Mhennod 2), mae gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn deall sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymgorffori gwaith o'r fath yn ei phrosesau gwneud penderfyniadau yn fwy cyffredinol, yn enwedig o ran hyfywedd ei chynlluniau cyllidebol a buddsoddi hirdymor.

**Argymhelliad 14.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn darparu naratif ynghylch sut yr eir i'r afael ag effeithiau risgiau ariannol hirdymor allweddol, megis newid hinsawdd, tueddiadau demograffig ac iechyd, yn y tymor

230 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Rhagfyr 2024, paragraff 64
231 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 25 Ionawr 2025, paragraff 143

byr, canolig a hir, er mwyn galluogi pwyllgorau'r Senedd i ystyried y dull hwn cyn cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2026-27.

**175.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu dull agored yr OBR o drafod y methodolegau a ddefnyddiwyd i lunio rhagolygon a'r tybiaethau a wnaed, y rhesymau dros y penderfyniadau hyn a'r risgiau a allai effeithio ar gywirdeb. Mae'r Pwyllgor hefyd yn croesawu gwelliannau a wnaed i Ragolwg Trethi Cymreig yr OBR, yn enwedig o ran dangos gwahaniaethau rhwng cronfeydd treth y DU a Chymru, a thwf cymharol rhwng Cymru a'r DU yn gyffredinol. Rydym hefyd yn nodi y bydd dogfen Rhagolwg Trethi Cymreig yn cael ei hadolygu ymhellach eleni, ac rydym yn cefnogi unrhyw welliannau a fydd yn rhoi mwy o eglurder ar effaith trethiant datganoledig ar sefyllfa gyllido Llywodraeth Cymru.

**176.** Yn ogystal, hoffai'r Pwyllgor weld yr OBR yn gwella'r dadansoddiad a'r wybodaeth yn ei rhagolwg sy'n dangos twf a pherfformiad cymharol sylfaen drethi ac incymau treth Cymru o gymharu â'r DU yn ei hallbynnau trethi Cymru. Bydd y datblygiadau hyn yn rhoi gwell dealltwriaeth i'r Pwyllgor o sut y gall incwm treth ac addasiadau grant bloc newid yn y blynyddoedd i ddod.

**177.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r dadansoddiad ychwanegol y mae'r OBR yn bwriadu ei gynnal o'r effaith a gaiff rhewi trothwyon treth incwm ar gyfran y dreth incwm a godir yng Nghymru o gymharu â'r DU. Mae gennym ddiddordeb arbennig yn effaith hyn ar ragolygon, wrth i'r penderfyniad i wrthdroi'r polisi hwn yn 2029 agosáu.

**Argymhelliad 15.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, fel rhan o'r gwaith o ailgynllunio ei chyhoeddiad Rhagolwg Trethi Cymreig, yn rhoi blaenoriaeth i wella ei dadansoddiad o dwf a pherfformiad cymharol sylfaen drethi ac incymau treth Cymru o gymharu â'r DU yn ei hallbynnau trethi Cymreig.

**Argymhelliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei gwaith i ddeall yr effaith y bydd rhewi trothwyon treth incwm yn ei chael ar gyfran y dreth incwm a godir yng Nghymru, cyn cylch cyllideb 2026-27.

**178.** Mae'r Pwyllgor yn nodi â phryder dystiolaeth ynghylch effaith colli data allweddol arolwg y gweithlu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), yn enwedig o ystyried ei fod yn sail i lawer o'r penderfynyddion economaidd yn ei rhagolygon. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r dull a ddefnyddiwyd i ddefnyddio data gweinyddol arall tra bod yr ONS yn ailasesu sut i gynnal hyn ac allbynnau eraill sy'n seiliedig ar arolygon oherwydd bod cyfraddau ymateb yn gostwng yn gyffredinol ar gyfer ei

harolygon. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn rhannu pryderon yr OBR ynghylch y risgiau o ddibynnu ar ddata gweinyddol ac mae'n cefnogi ei dull o fonitro dibynadwyedd defnyddio'r ffynonellau data hyn.

**179.** Ysgrifennodd y Pwyllgor at yr ONS[232] yn dilyn y sesiwn rag-gyllidebol ar 25 Medi 2024,[233] i godi pryderon ynghylch atal ystadegau rhanbarthol ar GDP ac roedd yn ddiolchgar am yr ymateb gan y Prif Ystadegydd[234] ac yn arbennig yr ymrwymiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd yn y maes hwn.

**Argymhelliad 17.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad trafodaethau y mae wedi'u cael gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gamau a gymerwyd i liniaru colli data allweddol a'i effaith ar ragolygon Cymru.

**180.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cyllid cyfalaf ychwanegol a ddarperir yn y Gyllideb Ddrafft ac yn nodi y bydd hyn yn mynd i'r afael rhywfaint â'r pryderon a fynegwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad ac yn ein gweithdai ymgysylltu am yr angen dybryd i fuddsoddi mewn seilwaith hanfodol o fewn gwasanaethau cyhoeddus.

**181.** Rydym hefyd yn nodi disgrifiad yr Ysgrifennydd Cabinet o ddull Llywodraeth Cymru o ddyrannu cyfalaf yng nghyllideb eleni lle byddai angen i brosiectau ysgogi arbedion mewn refeniw i gael cyllid. Rydym yn nodi hefyd nodau Llywodraeth Cymru i ddefnyddio cyfalaf i ddenu buddsoddiad preifat, yn ogystal â'i dull o ddefnyddio'r mathau rhataf o gyfalaf yn gyntaf wrth ddefnyddio cyfalaf preifat i ddiwallu unrhyw anghenion ariannu ychwanegol. Fodd bynnag, rydym hefyd yn rhannu pryderon yr IFS a ddywedodd y gall nodau Llywodraeth Cymru o ran hybu buddsoddiad gael yr effaith groes lle na welir ymgysylltu gan y sector preifat yn y tymor byr.

**182.** Er ein bod yn croesawu natur agored yr Ysgrifennydd Cabinet wrth drafod y materion hyn, mae'r Pwyllgor yn credu bod angen rhagor o wybodaeth am nodau ac amcanion cynlluniau cyfalaf Llywodraeth Cymru, ac yn enwedig a oes unrhyw asesiadau wedi'u cynnal fel sail i'r dull a ddefnyddiwyd.

---

[232] Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at yr Ystadegydd Gwladol a'r Ysgrifennydd Parhaol, 4 Hydref 2024
[233] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 25 Medi 2024, paragraff 74
[234] Llythyr oddi wrth yr Ystadegydd Gwladol a'r Ysgrifennydd Parhaol at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 21 Hydref 2024

**Argymhelliad 18.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn darparu manylion unrhyw asesiadau y mae wedi'u gwneud o effaith debygol ei gynlluniau i gynyddu buddsoddiad cyfalaf yn sylweddol yn 2025-26 a sut y gallai hyn effeithio ar gapasiti ar gyfer buddsoddiad gan y sector preifat yng Nghymru, yn gadarnhaol ac yn negyddol.

**183.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r wybodaeth a ddarparwyd yn y Gyllideb Ddrafft am Gyfalaf Trafodiadau Ariannol. Rydym wedi gwneud darn penodol o waith ar y maes hwn yn flaenorol[235] ac rydym yn ddiolchgar am y modd adeiladol y mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â'n gwaith ar y mater hwn, ac yn croesawu'r tryloywder ychwanegol a ddarparwyd.

[235] Pwyllgor Cyllid, Cyfalaf Trafodiadau Ariannol, Tachwedd 2024

# 4. Naratif a Dull Strategol

## Naratif y Gyllideb

**184.** Dywed naratif y Gyllideb Ddrafft mai cyllideb wariant yw hon "yn dilyn cyfnod parhaus o setliadau ariannol heriol i Gymru".[236] Yn ei ddatganiad i'r Cyfarfod Llawn ar 10 Rhagfyr 2024, ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"… mae'r gyllideb ddrafft hon yn gyllideb ar gyfer dyfodol mwy disglair sy'n buddsoddi yn nyfodol gwasanaethau cyhoeddus a dinasyddion Cymru – dyfodol sydd heb fod yn bosib ers llawer rhy hir."*[237]

**185.** Yn ystod trafodaethau gyda'r Pwyllgor, rhoddodd yr Ysgrifennydd Cabinet fanylion pellach ar yr egwyddorion sy'n sail i'w benderfyniad i flaenoriaethu cyllid yn y Gyllideb Ddrafft a bod hyn yn cynnwys:

- sicrhau bod y modd y dyrennir cyllid yn adlewyrchu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru;[238]
- ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn y broses o wneud penderfyniadau a phwysigrwydd gwariant ataliol;[239]
- alinio'r gyllideb ag uchelgeisiau ar gyfer twf a chreu'r amodau i dyfu economi Cymru;"[240] a
- sicrhau bod y buddsoddiadau a wneir yn cael y budd mwyaf ym mywydau'r bobl hynny sydd â'r lleiaf".[241]

**186.** Mae naratif y Gyllideb Ddrafft hefyd yn cadarnhau cynllun Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu gwasanaethau cyhoeddus a buddsoddi mewn pedwar maes blaenoriaeth allweddol:

- 'Iechyd da' - Cymru Iachach;
- Swyddi a Thwf Gwyrdd;

[236] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2025-26, Rhagfyr 2024, tudalen 5
[237] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 10 Rhagfyr 2024, paragraff 164
[238] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Rhagfyr 2024, paragraff 11
[239] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Rhagfyr 2024, paragraff 12
[240] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Rhagfyr 2024, paragraff 13
[241] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Rhagfyr 2024, paragraff 14

- Cyfle i bob teulu; a
- Cysylltu Cymunedau.[242]

**187.** Mae'r naratif hefyd yn nodi:

> *"Drwy gydol y broses hon, rydym wedi cael ein harwain gan egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a blaenoriaethau'r Prif Weinidog."*[243]

**188.** Pan ofynnwyd a oedd rhai meysydd wedi'u dadflaenoriaethu yn y Gyllideb Ddrafft, eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"There's very little in this budget where people have had to deprioritise in the sense that we used that term last year."*[244]

## Gwariant Ataliol

**189.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor y gellid ystyried bod bron popeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn ataliol, a bod Llywodraeth Cymru yn awyddus i symud arian mewn cyfeiriad ataliol. Cyfeiriodd hefyd at waith blaenorol a wnaed rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiynydd ar gytuno ar gyfres o ddiffiniadau ynghylch yr hyn a olygir gan wariant ataliol, gan ychwanegu:

> *"I would find it very useful at some point to have a chance to have a longer discussion with the committee about whether that typology is still the best one, is it the most useful one, does it need to be revisited and updated and how can we then apply that lens again to next year's budget …"*[245]

**190.** Fodd bynnag, dywedodd CGGC wrthym nad yw atal yn cael ei grybwyll yn y Gyllideb Ddrafft eleni gymaint o weithiau ag y mae wedi mewn naratifau cyllideb blaenorol. Ychwanegon nhw y gallai hyn awgrymu bod y Gyllideb Ddrafft yn ymwneud yn fwy â mynd i'r afael â'r heriau ar hyn o bryd ac nad yw'n adlewyrchu dull sy'n seiliedig ar genedlaethau'r dyfodol o ymdrin ag atebion ac atal yn y tymor hir. Daethant i'r casgliad canlynol:

> *"… there isn't central guidance to invest in prevention and because there is such little detail in the budget—the voluntary*

[242] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2025-26, Rhagfyr 2024, tudalen 5
[243] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2025-26, Rhagfyr 2024, tudalen 3
[244] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Rhagfyr 2024, paragraff 53
[245] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Rhagfyr 2024, paragraff 71

> *sector is not covered in it, really—we can just hope that, say, local authorities, regional partnership boards and others will be spending some of the money they get on prevention, but there is no direction to do so."*[246]

**191.** Roedd Sefydliad Bevan hefyd yn myfyrio ar sut y bydd darpariaethau argyfwng yn cael blaenoriaeth bob amser dros atal gan mai hyn, yn llythrennol, sy'n achub bywydau, ond y gellid gwneud mwy drwy wariant ataliol i atal afiechyd, i atal troi allan, i atal amddifadedd ymysg rhai grwpiau.[247]

**192.** Dywedodd cynrychiolydd o Gonffederasiwn GIG Cymru wrthym hefyd y dylai Llywodraeth Cymru barhau i ganolbwyntio ar egwyddorion Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar gyfer ffyrdd o weithio yn y digwyddiad hirdymor hwnnw. Nododd hefyd fod llawer iawn o ffocws ar ymdrin â heriau wrth iddynt godi yn y Gyllideb Ddrafft ond bod angen newid y naratif er mwyn sicrhau bod llawer mwy o ffocws ar atal.[248]

**193.** Clywsom nifer o enghreifftiau lle gallai'r gwariant ataliol fod yn fuddiol, megis:

> *"… to continue to invest in those community services, the preventative services, the early intervention services, the things that keep people out of those high-cost services and also improve outcomes for individuals as well."*[249]

**194.** Thema gyffredin ymhlith rhanddeiliaid yn ystod ein digwyddiadau ymgysylltu oedd yr anghydbwysedd cyffredinol rhwng ariannu gwasanaethau rheng flaen a gwasanaethau ataliol. Gwnaethant awgrymu bod hyn wedi arwain at benderfyniadau gwariant byrdymor, adweithiol gan Lywodraeth Cymru, ar draul cyllidebu strategol tymor hwy.[250] Dywedodd un unigolyn:

> *"Iechyd yn arbennig, hoffwn weld Llywodraeth Cymru yn meithrin cymunedau i sicrhau dulliau atal o fewn y cymunedau hynny. Er enghraifft, yn fy ardal i, ry'n ni'n cynnal sesiynau fel tai chi a grwpiau i wella iechyd meddwl." **Person hŷn***[251]

[246] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 276
[247] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 353
[248] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 192
[249] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 119
[250] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26, Gorffennaf 2024, paragraff 12
[251] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu: Cyllid Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26, Gorffennaf 2024, paragraff 35

**195.** Eglurodd Conffederasiwn GIG Cymru fod angen dyraniadau wedi'u clustnodi ar awdurdodau lleol ar gyfer gofal cymdeithasol i ddiwallu anghenion eu poblogaeth ac i gefnogi cynaliadwyedd ar draws y system. Fe aethon nhw ymlaen i ddweud y dylai fod gan y cyllid ganlyniadau targed wedi'u diffinio'n glir gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gwariant yn sbarduno'r newid y mae angen i ni ei weld.[252]

**196.** Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"… [I'm] not surprised to hear the NHS Confederation say that, because that is a closer reflection of the way in which funding in the health field is currently constructed."*[253]

**197.** Awgrymodd CLlLC hefyd y dylai cyllidebau ar gyfer cyllid ataliol gael eu clustnodi oherwydd:

> *"… when budgets are squeezed and the funding that we're receiving is not keeping pace with those increasing costs, inevitably it is those discretionary services that get the most challenge and are likely to suffer the most reduction."*[254]

**198.** Mae ymateb y Comisiynydd i'r ymgynghoriad yn awgrymu y gallai Llywodraeth Cymru "sicrhau bod ei chyllideb yn cael yr effaith fwyaf bosibl drwy fabwysiadu dull mwy hirdymor" a fyddai hefyd yn "ategu dull mwy ataliol".[255]

**199.** Gofynnwyd i'r Ysgrifennydd Cabinet am ei safbwyntiau ar gynigion y Comisiynydd i glustnodi neu neilltuo cyllid ar gyfer mesurau ataliol, ac ymatebodd drwy ddweud bod rhywfaint o'r gyllideb iechyd wedi'i chlustnodi eisoes. Fodd bynnag, nododd y byddai clustnodi dyraniadau ar gyfer llywodraeth leol yn anghyson ag egwyddor y polisi rydym wedi'i datblygu â llywodraeth leol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.[256]

**200.** Yn dilyn cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft, darparodd y Comisiynydd dystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol i'r Pwyllgor.[257]

---

[252] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Conffederasiwn GIG Cymru
[253] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 96
[254] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 196
[255] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
[256] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 52
[257] Llythyr gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 23 Ionawr 2025

## Asesu Effaith

**201.** Ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft mae Asesiad Effaith Integredig Strategol (SIIA) sy'n anelu at "adnabod tueddiadau allweddol, ac effeithiau strategol a chronnol penderfyniadau a wneir yn y Gyllideb Ddrafft." Mae'r SIIA yn nodi ei fod yn:

> *"… sicrhau bod penderfyniadau cyllidebol strategol yn lleihau effeithiau anghymesur ar unrhyw un grŵp neu ardal ddaearyddol benodol ac yn lleihau anghydraddoldebau ar draws ein cymdeithas. Mae hefyd yn helpu i adnabod cyfleoedd i sicrhau cymaint o effeithiau cadarnhaol â phosibl o'n penderfyniadau buddsoddi. Mae Asesiad Effaith Integredig Strategol cadarn yn sicrhau bod pob punt sy'n cael ei buddsoddi yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf."*[258]

**202.** Nododd Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru a Grŵp Cyllideb Menywod Cymru wrthym, er bod yr asesiadau SIIA yn fwy cadarn, a bod ganddynt safbwynt cryfach o ran rhywedd, gallant ond bod mor dda â'r wybodaeth a fwydir iddynt ac, weithiau, gallai'r wybodaeth honno fod yn well.[259]

**203.** Dywedodd Sefydliad Bevan wrth y Pwyllgor fod lefelau isel o ymgysylltu â phroses y gyllideb, gan gynnwys y SIIA, ymhlith rhanddeiliaid. Nodwyd ganddynt y gallai hyn fod o ganlyniad i gylch dieflig lle nad yw unigolion yn teimlo bod ymgysylltu yn gwneud gwahaniaeth ac felly nid ydynt yn ymgysylltu. Er mwyn torri'r cylch, awgrymodd y cynrychiolydd y gallai Llywodraeth Cymru:

> *"… look at how that budget process and how the impact assessments could be made more relevant to everyday concerns."*[260]

**204.** Daeth i'r casgliad:

> *"… there's an element of budget engagement that is often, as I said, dry and technical, but I think making it less dry and technical is something that the Welsh Government could do."*[261]

[258] Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26: Atodiad A: Asesiad Effaith Integredig Strategol, Rhagfyr 2024
[259] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 366
[260] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 371
[261] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 371

**205.** Dywedodd cynrychiolydd o CGGC, er bod yr asesiadau SIIA wedi gwella, eu bod yn dal i fod yn gymharol annefnyddiol i'r sector gwirfoddol fel dogfen annibynnol ac y byddai'n well ganddynt:

> *"... portfolio-level guidance on what the spending is going to be at the same time as the budget, so that we can scrutinise that, and that's going to be immensely more helpful to us than the strategic integrated impact assessment ... "*[262]

**206.** Nododd yr IFS, er bod Llywodraeth Cymru yn darparu cynllun gwariant manwl a dogfen SIIA ar wahân, nid oedd yn glir sut roedd yn blaenoriaethu gwariant refeniw:

> *"... there is a bit of a link between the budget spending allocations and the big picture of what the Welsh Government's trying to achieve, but it's a bit tenuous."*[263]

**207.** Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, dywed y Comisiynydd y "gallai, a dylai y broses SIIA fod wedi sylwi" ar "ystod o effeithiau negyddol ar draws pedwar dimensiwn llesiant" o ganlyniad i'r Gyllideb Ddrafft, gan ychwanegu:

> *"... byddai defnydd ystyrlon o'r pum ffordd o weithio yn sicrhau gwell cydweithio ar draws y sectorau hynny y disgwylir yr effaith waethaf arnynt. Mae fy swyddfa bellach yn gweithio gyda Thîm Gwella'r Gyllideb yn y Trysorlys i ymgorffori Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn well yn y broses o wella'r gyllideb a chefnogi'r adolygiad o'r Asesiad Effaith Integredig Strategol."*[264]

## Cyllidebu ar sail Rhywedd

**208.** Yn ein hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2024-25, argymhellodd y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r ddau gynllun peilot sy'n weddill ar gyllidebu ar sail rhywedd ac yn gweithio ar y cyd â Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru a Grŵp Cyllideb Menywod Cymru i brif ffrydio cyllideb ar sail rhywedd.[265] Fodd bynnag, nid yw'r rhain wedi'u cyhoeddi hyd yma.[266]

---

[262] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 363
[263] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 195
[264] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
[265] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25, Chwefror 2024, tudalen 54
[266] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 370

**209.** Dywedodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru a Grŵp Cyllideb Menywod Cymru wrthym ei bod hi'n anodd nodi'r camau nesaf ar gyfer cyllidebu ar sail rhywedd heb ganlyniadau'r cynlluniau peilot oherwydd:

> *"… evaluating them, is really the key to ensuring that gender budgeting can be rolled out further. So, without them, it's going to be very difficult to do an awful lot. We would very much like to see, though, some gender budget questions within portfolio-level equality assessments."*[267]

**210.** Nododd swyddog yr Ysgrifennydd Cabinet y bydd canfyddiadau'r gwerthusiadau yn cael eu cyhoeddi dros yr ychydig fisoedd nesaf. Fe aeth ymlaen i ddweud bod y cynlluniau peilot wedi helpu i ddylanwadu ar rywfaint o'r gwaith o osod y gyllideb ac wedi darparu canfyddiadau defnyddiol o ran capasiti ac adnoddau. Nododd:

> *"… I think they've already pointed to things like ensuring that gender budgeting is considered from the outset of policy development, and also ensuring that, when a policy is being revised, or seeking new funding, the evaluation and learning can be built in again right from the start."*[268]

## Trechu Tlodi

**211.** Mae naratif y gyllideb ddrafft yn nodi:

> *"Mae cyllid drwy'r MEG [prif grŵp gwariant] Cyfiawnder Cymdeithasol, ochr yn ochr â chyllidebau eraill ar draws Llywodraeth Cymru, yn cyfrannu at fynd i'r afael â thlodi, cydraddoldeb a gwella llesiant pawb yng Nghymru."*[269]

**212.** Ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"… this budget provides the greatest impact upon the 20 per cent of the population who have the least."*[270]

[267] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 370
[268] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 160
[269] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2025-26, Rhagfyr 2024, tudalen 26
[270] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Rhagfyr 2024, paragraff 14

**213.** Fodd bynnag, roedd Sefydliad Bevan yn anghytuno â'r honiad hwn a dywedodd wrth y Pwyllgor fod dadansoddiad dosbarthiadol o wariant cyhoeddus datganoledig yng Nghymru[271], a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft:

> *"… does not show that the most resources go to the poorest 20 per cent; it shows that the most resources go to the second poorest 20 per cent. Given that the population who are in poverty are mainly in the poorest 20 per cent and part of the next fifth, then the resources are not solely focused on people in poverty."*[272]

**214.** Yn ystod ein gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid, dywedodd cyfranogwyr wrthym fod effaith costau byw yn effeithio ar y rhan fwyaf o bobl mewn cymdeithas. Ymhlith y materion a godwyd roedd: mwy o ddibyniaeth ar wasanaethau cyhoeddus, yr angen am fesurau tymor hwy a buddsoddiad yn y gyllideb i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau strwythurol; pobl ar gyflogau canol yn cael eu gwasgu a thrigolion cymdeithasau tai yn wynebu anawsterau wrth gael gafael ar gyllid yn gyflym mewn argyfwng.[273]

**215.** Adlewyrchwyd hyn hefyd yn y dystiolaeth a ddarparwyd gan Sefydliad Bevan a ddywedodd wrth y Pwyllgor:

> *"… about half the Welsh population really don't have much money to spare. They just about get by, by being very careful, by having to watch every penny they spend. But a substantial minority do not have enough even for the basics, and they are people who are in what we would call deep poverty, and they are people who are forced to choose between eating and heating."*[274]

**216.** Aethant ymlaen i ddweud, o ganlyniad i hyd yr argyfwng, fod nifer cynyddol o bobl yn cronni dyled. Daethant i'r casgliad canlynol:

> *"… far from the cost-of-living crisis being over, as you might think if you look at the media, we actually think it's getting more entrenched into the conditions that people face. And for some groups of people—so, for*

[271] Llywodraeth Cymru, Dadansoddiad dosbarthiadol o wariant cyhoeddus datganoledig yng Nghymru, Rhagfyr 2024
[272] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 327
[273] Y Pwyllgor Cyllid, Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26, Gorffennaf 2024, tudalennau 10-11
[274] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 299

*families, people in social rented housing, disabled people—the challenges are even greater.”*[275]

**217.** Pan ofynnwyd a yw Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu cyllid yn ddigonol i fynd i'r afael â rhywfaint o'r pwysau costau byw neu eu lliniaru, nododd cynrychiolydd Sefydliad Bevan fod rhai ymyriadau da wedi bod a'u bod yn croesawu hynny'n llwyr, ond mae mwy y gellid ei wneud.[276]

## Grŵp Arbenigol ar yr Argyfwng Costau Byw

**218.** Myfyriodd Sefydliad Bevan ar Grŵp Arbenigol Cymru ar yr Argyfwng Costau Byw, nad yw wedi cyfarfod ers dros flwyddyn.[277] Nodwyd, er bod y grŵp yn offeryn defnyddiol i ymgysylltu a gwneud argymhellion, mai ychydig iawn yn yr argymhellion hynny yr oedd Llywodraeth Cymru yn gweithredu arno.[278] Pan ofynnwyd pa fathau o argymhellion a wnaed gan y Grŵp, dywedwyd wrthym fod cymysgedd o ymyriadau cost isel, effaith uchel, gan gynnwys:

*“… extending the availability of free school meals for secondary school pupils to everyone who received universal credit, not universal, and, for example, helping low-income families with the cost of bus travel.”*[279]

**219.** Cytunodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y Grŵp Arbenigol wedi bod yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, byddai angen iddo drafod gyda Llywodraeth Cymru yn ehangach a ddylid sefydlu pwyllgor sefydlog ar gostau byw a thlodi i drafod cynlluniau cyllidebol yn y dyfodol gan ei fod yn:

*“… reluctant to commit to permanent additions to the advisory structure of the Welsh Government in the final year of the Welsh Government … “*[280]

## Trechu Tlodi Plant

**220.** Mae Strategaeth Tlodi Plant Cymru (y Strategaeth) yn gosod amcanion Llywodraeth Cymru “a fydd yn helpu i ddileu tlodi plant.”[281]

**221.** Dywedodd Coleg Brenhinol y Pediatregwyr ac Iechyd Plant (RCPCH) fod angen i'r Strategaeth gael ei hategu gan dargedau cenedlaethol mesuradwy a,

[275] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 299
[276] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 304
[277] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 314
[278] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 316
[279] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 320
[280] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 156
[281] Llywodraeth Cymru, Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024, Gorffennaf 2024

heb gynllun cyflawni cydgysylltiedig wedi'i ariannu'n llawn gyda cherrig milltir, llinellau amser a thargedau clir, ei bod hi'n annhebygol y bydd yn cyflawni ei hamcanion.[282]

**222.** Dywedodd Sefydliad Bevan wrth yr Aelodau y gallai'r Strategaeth wneud mwy i gefnogi gofal plant rhieni sydd â phlant rhwng dim a phedair oed trwy gyflwyno bwndeli babanod neu grantiau babanod a gwella gwerth talebau Cychwyn Iach. Er eu bod yn derbyn y byddai'r rhain i gyd yn dod ar gost, nid oeddent yn credu bod y costau'n enfawr o gymharu â'r enillion a fyddai'n cael eu gwneud.[283]

**223.** Aethant ymlaen i dynnu sylw at yr angen i gyflwyno cymorth i deuluoedd sydd â phlant rhwng dim a phedair oed, gan nodi:

> *"… half of children who are in poverty have a sibling who is aged nought to four, and not many of the Welsh Government's interventions, for understandable reasons, actually reach nought to four-year-olds in terms of supporting families, and yet it's a time when incomes fall because mothers are often not working because they're on maternity leave, and where costs can be really quite high, the cost of having a new baby."*[284]

**224.** Er ei fod yn cydnabod efallai nad cyflwyno bwndel babanod yw'r unig ateb, nododd Sefydliad Bevan ei fod yn siomedig iawn, ar ôl adroddiadau mor gadarnhaol o'r gwerthusiad, nad yw bwndeli babanod yn cael eu rhoi yn gyffredinol.[285]

**225.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym fod cwmpas bwndeli babanod wedi gorfod cael ei leihau. Esboniodd:

> *"It was originally meant to be for every child; it's now going to be focused on children born in Flying Start areas. There is some work being done to make sure that the content of the baby bundles matches the needs of those communities in the best way possible, and, then, the baby bundle scheme will go ahead, albeit on that reduced geography."*[286]

[282] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Coleg Brenhinol y Pediatregwyr ac Iechyd Plant
[283] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 378
[284] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 307
[285] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 308
[286] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 154

**226.** Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai'r dull hwn yn caniatáu ehangu yn y dyfodol pan fydd amgylchiadau'n caniatáu.[287]

## Gofal Plant

**227.** Yn ei Chyllideb Ddrafft 2025-26, dywed Llywodraeth Cymru ei bod yn buddsoddi £20 miliwn yn ychwanegol i gefnogi ei "[Ch]ynnig Gofal Plant blaenllaw", y mae'n nodi y bydd yn "helpu i sicrhau cynaliadwyedd y sector, cefnogi'r gweithlu a gwella lleoliadau a'r dewis i rieni".[288]

**228.** Fodd bynnag, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrthym na fydd yr £20 miliwn yn mynd i'r afael â'r ddau bwysau mawr mewn gofal plant yn llwyr, sef codi'r gyfradd fesul awr i ddarparwyr a chyflwyno Cam 3 y rhaglen Dechrau'n Deg.[289]

**229.** Eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"… childcare has not been deprioritised—it's getting £20 million more than it would have done without the budget—but if you ask me for an example of where, had we had even more money to disperse, I might have gone to provide extra, I think that's one example of where more money could have been used to do even more next year."*[290]

**230.** Dywedodd rhanddeiliaid wrthym fod y Gyllideb Ddrafft yn gyfle anffodus a gollwyd i fynd i'r afael â'r materion sylfaenol sy'n ymwneud â gofal plant yng Nghymru[291] ac, er gwaethaf buddsoddiadau a groesawyd:

> *"… it's against cuts in the previous two years, and it feels a little bit like an exercise in smoke and mirrors insofar as we're perhaps not getting the investment into childcare this year that we would expect …"*[292]

**231.** Dywedodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru a Grŵp Cyllideb Menywod Cymru wrthym:

> *"This is the money budget, right, and we feel that perhaps we have learnt lessons—this has learnt lessons—but we're not looking at*

[287] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 154
[288] Llyworaeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2025-26, Rhagfyr 2024, tudalennau 20-21
[289] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Rhagfyr 2024, paragraff 53
[290] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Rhagfyr 2024, paragraff 53
[291] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Grŵp Cyllideb Menywod Cymru a'r Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod
[292] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 282

*structural issues within childcare, and we're not doing much more than mitigating the cuts that have come in the last year or two."*[293]

**232.** Aethant ymlaen i ddweud, er eu bod yn tybio y bydd rhywfaint o'r £20 miliwn ychwanegol yn cefnogi'r cynnydd yn y gyfradd fesul awr i ddarparwyr gwasanaethau, ni fydd y codiad i lefel y mae darparwyr yn dweud bod angen iddynt fod arni er mwyn gallu darparu gofal plant cynaliadwy. Gwnaethant ychwanegu:

> *"… we really welcome £20 million—it's not to be sniffed at—but we are concerned that it's not looking at structural issues that we see around the provision of childcare."*[294]

**233.** Rhannodd nifer o randdeiliaid eu pryderon hefyd ynghylch cyflwyno Cam 3 y rhaglen Dechrau'n Deg, gyda Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru a Grŵp Cyllideb Menywod Cymru yn codi pryderon nad oes sôn am ariannu'r broses gyflwyno yn y Gyllideb Ddrafft, cyn mynd ymlaen i ddweud:

> *"We feel that a focus on Flying Start would be incredibly important—it's a flagship, wonderful scheme, but it's very limited in its accessibility. And, again, I think we would like to see more medium to long-term thinking throughout."*[295]

**234.** Roedd elusennau plant cenedlaethol yn cydnabod:

> *"We welcome the recent expansion of Flying Start but want to see an enhanced childcare offer for all 0-4 year-olds across Wales, ensuring all children living in poverty are able to access high quality childcare regardless of their parents work status."*[296]

**235.** Pan ofynnwyd iddo a fyddai Cam 3 y rhaglen Dechrau'n Deg yn cael ei ariannu yng nghyllideb y flwyddyn nesaf, eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei fod yn ymrwymedig y bydd y broses gyflwyno yn cael ei hariannu yn y Gyllideb Derfynol. Fodd bynnag, aeth ymlaen i ddweud eu bod yn dal i edrych ar faint y byddai'n ei gostio i awdurdodau lleol roi Cam 3 ar waith. Daeth i'r casgliad canlynol:

> *"The Cabinet Secretary concerned has found the money for the hourly rate uplift, because there were two cost pressures in relation to*

[293] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 282
[294] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 306
[295] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 306
[296] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Elusennau plant cenedlaethol

*childcare—the hourly rate and phase 3. My ambition is to assist with phase 3 funding in the final budget."*[297]

**236.** Pan ofynnwyd sut y gallai'r Gyllideb Ddrafft gefnogi gofal plant yn well, awgrymodd cynrychiolydd o Rwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru a Grŵp Cyllideb Menywod Cymru y dylai Llywodraeth Cymru ariannu adolygiad o anawsterau strwythurol sylfaenol a dod o hyd i atebion iddynt. Er y byddai derbyn adolygiad o'r fath yn dod ar gost, roedden nhw'n rhagweld y byddai'r costau hyn yn gymharol fach.[298]

**237.** Ymhlith rhai o'r newidiadau i'r system a awgrymwyd gan Rwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru a Grŵp Cyllideb Menywod Cymru mae:

- mecanwaith ymgeisio unigol ar gyfer darpariaeth gofal plant, y gellid ei weithredu gyda swm cymharol fach o gyllid;
- cyllid ychwanegol i godi cyfradd yr awr darparwyr gofal plant o £5 i £7.50; a
- cyllid cyfalaf neu glustnodi cyllid cyfalaf ar gyfer eiddo.[299]

**238.** Awgrymodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru a Grŵp Cyllideb Menywod Cymru y gallai ymyriadau wedi'u targedu sicrhau bod darpariaeth hirdymor gynaliadwy o ofal plant, a allai yn ei dro fynd i'r afael â:

*"… the Cabinet Secretary for Finance's concerns around the workforce in the next 20 years. He's spoken about needing more people to come back into work. We're going to find it very difficult to do that without the provision of childcare, and if we try to do that at the exclusion of women, that will be detrimental to our entire society."*[300]

**239.** Daethant i'r casgliad mai ffocws ar ofal plant:

*"… would be the right thing to do, for there to be more money, recognising the cuts in recent years, but also for that money to be spent in a strategic way that allows for us to develop a smarter, better, more accessible, more effective overarching system.*[301]

[297] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 152
[298] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 345
[299] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 347
[300] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 348
[301] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 379

## Taliadau Tanwydd Gaeaf

**240.** Ar 9 Medi 2024, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys na fyddai gan gartrefi yng Nghymru a Lloegr hawl mwyach i'r Taliad Tanwydd Gaeaf oni bai eu bod yn derbyn Credyd Pensiwn neu rai budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd.[302]

**241.** Rhannodd Age Cymru eu pryderon am y newid hwn:

> *"We understand that the decision to means test Winter Fuel Payments was one made by UK Government, however, we want to see more focus on financial support in the Welsh Government budget for those older people missing out on the Winter Fuel Payment and cannot afford to do so."*[303]

**242.** Gwnaethant ychwanegu bod tua 18 y cant o bobl hŷn mewn tlodi incwm cymharol a'u bod:

> *"… are worried that they'll not be able to budget and are already doing everything they can to save money, with some people telling us that they are choosing between eating and heating."*[304]

**243.** Pan ofynnwyd pa gymorth y byddai Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i'r rhai sydd wedi colli'r taliadau hyn o ganlyniad i'r newidiadau i'r meini prawf hawl, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai'r Sefydliad Banc Tanwydd ar gael i'r rhai sy'n gymwys ar ei gyfer.[305]

**244.** Fodd bynnag, roedd gan Sefydliad Bevan bryderon ynghylch pa mor effeithiol y byddai'r Sefydliad Banc Tanwydd o ran cyrraedd grwpiau o bobl hŷn:

> *"… from what we can tell, it's delivered through crisis organisations, and older people are very unlikely—well, they are less likely, not unlikely—they are less likely to use those crisis organisations …"*[306]

**245.** Dywedodd Sefydliad Bevan wrth y Pwyllgor fod dau grŵp sydd wedi cael eu taro galetaf yn sgil colli'r taliadau tanwydd gaeaf: y rhai nad ydynt yn hawlio credyd pensiwn er eu bod yn gymwys i wneud a'r rhai sydd ychydig yn uwch na'r trothwy credyd pensiwn. Gwnaethant nodi hefyd:

---

[302] Briff Ymchwil Tŷ'r Cyffredin, Newidiadau i reolau cymhwysedd y Taliad Tanwydd Gaeaf, Medi 2024
[303] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Age Cymru
[304] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Age Cymru
[305] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Rhagfyr 2024, paragraff 142
[306] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 340

> *"… that pensioners tend to live in much less energy efficient homes than the rest of the population and are more likely not to have central heating and to be off the gas grid as well. So, we've got a really toxic mix going on there."*[307]

**246.** Roedd tystiolaeth ysgrifenedig gan Oxfam Cymru hefyd yn tynnu sylw at yr angen am gymorth ychwanegol o ran tlodi tanwydd:

> *"Fuel poverty remains a pressing issue; during this period, nearly 6,000 individuals received help with fuel vouchers, reflecting an ongoing crisis in household energy affordability."*[308]

**247.** Nododd National Energy Action Cymru yr amcangyfrifir bod 98 y cant o'r holl aelwydydd sydd ar incwm is bellach yn byw mewn tlodi tanwydd. Aethant ymlaen i ddweud:

> *"Of the three key drivers of fuel poverty, it is energy efficiency that sits most squarely within the Welsh Government's control and is a primary focus of its flagship programme to tackle fuel poverty: the Warm Homes Programme."*[309]

**248.** Eglurodd Sefydliad Bevan, er bod y Rhaglen Cartrefi Cynnes wedi'i chynllunio'n well na'r iteriadau blaenorol, nid oes digon o gyllid yn cael ei ddyrannu iddi ac felly nid oes digon i wella'r inswleiddio yn y nifer o gartrefi ar y raddfa sydd ei hangen.[310]

**249.** Amlygodd yr Ysgrifennydd Cabinet, o ganlyniad i'r gronfa gynghori sengl, fod mwy o bensiynwyr bellach yn hawlio credyd pensiwn ac o ganlyniad:

> *"… they won't just get the winter fuel allowance as a result, because pension credit is a passport benefit and it opens the door to other parts of the system to get help. So, there will be more people getting that help for that reason …"*[311]

**250.** Amlygodd cynrychiolydd o Gyngor ar Bopeth Cymru eu bod wedi derbyn pryderon gan unigolion ynghylch y trothwyon i dderbyn y taliad tanwydd gaeaf sydd yn ei dro wedi arwain at Gyngor ar Bopeth Cymru yn cyfarwyddo 2,500 i 3,000 o bensiynwyr ychwanegol i wneud cais am y credyd pensiwn. Aethant

[307] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 339
[308] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Oxfam Cymru
[309] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: National Energy Action Cymru
[310] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 339
[311] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Rhagfyr 2024, paragraff 143

ymlaen i ddweud, hyd yn oed gyda'r gronfa gynghori sengl a'r Gronfa Cymorth Dewisol, pan fyddwch yn cyfuno effaith colli'r taliad tanwydd gaeaf â phwysau costau byw eraill, nid yw'r cymorth sydd ar gael yn cadw i fyny â lefel y galw.[312]

## Barn y Pwyllgor

**251.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r egwyddorion sy'n sail i'r penderfyniadau cyllido a amlinellwyd yn y Gyllideb Ddrafft, a'u nod o gefnogi iechyd pobl, rhoi hwb i'r economi a helpu'r rhai sydd ei angen fwyaf. Mae'r rhain yn ganmoladwy ac rydym yn croesawu pwyslais Llywodraeth Cymru ar sicrhau "dyfodol mwy disglair" drwy'r Gyllideb Ddrafft hon. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a glywsom yn awgrymu nad yw'n glir a yw'r mesurau arfaethedig yn cyfateb i'r rhethreg honno.

**252.** Yn benodol, clywsom gan nifer o randdeiliaid fod anghydbwysedd yn y Gyllideb Ddrafft rhwng ariannu gwasanaethau rheng flaen a gwariant ataliol tymor hwy, y mae'r Pwyllgor yn credu ei fod yn groes i honiad yr Ysgrifennydd Cabinet bod Llywodraeth Cymru yn symud arian i gyfeiriad mwy ataliol. Yn wir, yn ein barn ni, mae'r naratif yn canolbwyntio mwy ar ymdrin â heriau wrth iddynt godi sydd wedi arwain at benderfyniadau gwariant tymor byr, adweithiol gan Lywodraeth Cymru, ar draul cyllidebu strategol tymor hwy.

**253.** Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ddarparu tystiolaeth sy'n dangos sut mae gwariant ataliol yn cael ei flaenoriaethu a mesur effaith mentrau ataliol yn y gyllideb.[313] Rydym yn ailadrodd y farn hon ac yn gofyn hefyd i'r Ysgrifennydd Cabinet weithio gyda'r Comisiynydd i gytuno ar gyfres o ddiffiniadau o ran yr hyn a olygir gan wariant ataliol a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar y trafodaethau hynny.

**Argymhelliad 19.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn egluro sut mae'r Gyllideb Ddrafft yn symud arian i gefnogi mesurau ataliol, wedi'i ddadansoddi ar gyfer pob Prif Grŵp Gwariant, a bod hyn yn cael ei ddarparu cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol.

**Argymhelliad 20.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn gweithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i gytuno ar ddiffiniad wedi'i ddiweddaru o'r hyn a olygir gan wariant ataliol, i'w gynnwys yn naratif y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2026-27, a bod diweddariad ar y trafodaethau hynny yn cael ei ddarparu erbyn toriad yr haf.

---

[312] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 291
[313] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25, Chwefror 2024, tudalen 54

**254.** Clywsom gan nifer o randdeiliaid, er bod y SIIA yn gadarn mewn rhai meysydd, y gellid ei wella, yn enwedig wrth wneud cysylltiad cliriach rhwng dyraniadau gwariant a'u heffeithiau priodol ar draws meysydd portffolio. Mae'r Pwyllgor yn nodi gyda phryder gasgliadau'r Comisiynydd y dylai'r broses asesu fod wedi sylwi ar ystod o effeithiau negyddol ar draws y pedwar dimensiwn llesiant. Gwnaeth y Pwyllgor argymhellion y llynedd gyda'r nod o wella sut roedd y SIIA yn adlewyrchu'r ffyrdd o weithio o fewn Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a Llesiant (Cymru) 2015 ac mae'n siomedig bod materion yn parhau.[314] Serch hynny, rydym yn croesawu bod y Comisiynydd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru nawr i adolygu ei gwaith asesu effaith ac edrychwn ymlaen at weld y cynnydd hwn yn y maes hwn cyn rownd nesaf y gyllideb.

**255.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi tystiolaeth sy'n awgrymu y gellid gwella ymgysylltiad â rhanddeiliaid ar yr agwedd hon ar broses y gyllideb, ac yn gofyn i Lywodraeth Cymru ddatblygu asesiadau effaith cyllidebol sy'n esbonio canlyniadau yn well i'r sefydliadau hynny sy'n adlewyrchu pryderon bob dydd.

**Argymhelliad 21.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn gweithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i adolygu'r Asesiad Effaith Integredig Strategol er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'n gywir y ffyrdd o weithio a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau hynny cyn toriad yr haf.

**Argymhelliad 22.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn gwerthuso'r dogfennau y mae'n eu cynhyrchu i asesu effaith y gyllideb, i'w gwneud mor syml â phosibl i randdeiliaid nodi sut mae penderfyniadau cyllidebol yn cyd-fynd â nodau Llywodraeth Cymru.

**256.** Mae'r Pwyllgor eisoes wedi argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r ddau gynllun peilot cyllidebu ar sail rhywedd sy'n weddill.[315] Felly, rydym yn siomedig iawn bod y rhain dal heb gael eu cyhoeddi ond rydym hefyd yn croesawu'r ymrwymiad y byddant yn cael eu cyhoeddi dros y misoedd nesaf. Fodd bynnag, rydym yn rhannu'r rhwystredigaethau a godwyd gan randdeiliaid ei bod yn anodd nodi'r camau nesaf ar gyfer cyllidebu ar sail rhywedd heb fod wedi gweld yr holl ganlyniadau. O ganlyniad, mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda rhanddeiliaid i benderfynu sut y bydd cyllidebu ar sail

[314] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-26, Chwefror 2024, tudalen 54
[315] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25, Chwefror 2024, tudalen 54

rhywedd yn cael ei integreiddio ymhellach i gylchoedd cyllidebau'r dyfodol, cyn gynted ag y bydd y cynlluniau peilot ar gael i'r cyhoedd.

**Argymhelliad 23.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi, fel mater o frys, ganlyniadau'r cynlluniau peilot cyllidebu ar sail rhywedd sy'n weddill ac yn gweithio gyda rhanddeiliaid i adlewyrchu'r canlyniadau mewn cylchoedd cyllidebol yn y dyfodol.

**257.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r dystiolaeth a dderbyniwyd sy'n awgrymu'n glir nad yw'r argyfwng costau byw wedi diflannu a'i fod, yn anffodus, wedi ymwreiddio ym mywydau beunyddiol llawer ledled Cymru. Nid ydym yn credu bod y Gyllideb Ddrafft yn rhoi digon o flaenoriaethu i weithredu yn y maes hwn ac rydym yn siomedig bod Llywodraeth Cymru yn troi oddi wrth ddarparu cymorth costau byw acíwt.

**258.** Nodwn fod y Gyllideb Ddrafft yn anelu at gael yr effaith fwyaf ar yr 20 y cant o'r boblogaeth sydd â'r lleiaf. Fodd bynnag, clywsom dystiolaeth a oedd yn nodi bod hyn yn anghywir, gyda'r rhan fwyaf o adnoddau yn y Gyllideb Ddrafft yn mynd i'r ail 20 y cant tlotaf yn lle. Er ein bod yn nodi'r ymyriadau cadarnhaol a wnaed gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r rhai ar incwm isel (sy'n cael eu trafod yn fanylach isod), rydym yn cytuno â rhanddeiliaid y gellid gwneud mwy i sicrhau bod arian yn cael ei dargedu at y mwyaf anghenus.

**259.** Roedd yn drawiadol hefyd nad yw'r Grŵp Arbenigol ar yr Argyfwng Costau Byw wedi cwrdd mewn dros flwyddyn. O'i ddefnyddio'n briodol, rydym o'r farn y gallai pwyllgor o'r fath gefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni ei hegwyddor allweddol yn y maes hwn, ac rydym yn annog ei sefydlu cyn gynted â phosibl.

**Argymhelliad 24.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn sefydlu Pwyllgor Sefydlog ar Gostau Byw a Thlodi ar frys er mwyn sicrhau bod cymorth yn cael ei ddarparu i'r rhai sydd fwyaf ei angen, a bod diweddariad ar gynnydd ar y mater hwn yn cael ei ddarparu erbyn toriad yr haf.

**260.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyflwyno cynllun Bwndeli Babanod sy'n darparu ffordd syml o gefnogi teuluoedd plant ifanc yn ystod cyfnod o bwysau ariannol cynyddol. Fodd bynnag, rydym yn siomedig na fydd hon yn fenter Cymru gyfan. Er ein bod yn nodi'r rhesymau pam mai dim ond mewn ardaloedd Dechrau'n Deg y bydd y cynllun yn cael ei gyflwyno o bosibl, credwn fod angen eglurhad pellach i esbonio sut y bydd yn cael ei gyflwyno yn y tymor hir.

**Argymhelliad 25.** Rydym yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn rhoi manylion ynghylch ble a phryd y bydd cynllun Bwndeli Babanod Llywodraeth Cymru yn cael ei gyflwyno, ac os nad yw'r bwndeli'n cael eu darparu'n gyffredinol

ledled Cymru, yn esbonio'r rhesymau dros hyn, ac i wybodaeth o'r fath gael ei darparu cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol.

**261.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r £20 miliwn ychwanegol sy'n cael ei fuddsoddi mewn gofal plant. Fodd bynnag, nodwn hefyd fod y buddsoddiad hwn yn dilyn blynyddoedd o doriadau cyllid yn y maes hwn ac, o'r herwydd, nid ydym yn argyhoeddedig bod y lefelau cyllid a ddarperir yn y Gyllideb Ddrafft yn ddigonol i ddarparu cymorth cynaliadwy ar gyfer gofal plant.

**262.** Rydym yn croesawu'r ffaith y bydd cyflwyno rhaglen Dechrau'n Deg ymhellach yn helpu i ddod â theuluoedd a phlant ifanc allan o dlodi. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw'r Gyllideb Ddrafft yn cadarnhau bod cyllid ar gael i gyflwyno Cam 3 y rhaglen. Rydym yn croesawu bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn bwriadu amlinellu'r cyllid ar gyfer ei gyflwyno yn y Gyllideb Derfynol ond credwn fod angen eglurder pellach ar y mater hwn i roi dealltwriaeth glir i deuluoedd ynghylch cyflwyno Cam 3, gydag arwydd clir o amserlenni cysylltiedig.

**Argymhelliad 26.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet:

- yn cadarnhau'r costau sy'n gysylltiedig â chyflwyno Cam 3 Dechrau'n Deg;
- yn cyhoeddi diweddariad ar y cynnig i gyflwyno rhaglen Dechrau'n Deg yn llawn, gan gynnwys yr amserlenni cysylltiedig; ac
- i'r rhain gael eu darparu cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol.

**263.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r newidiadau i'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y rhai sydd â hawl i gael Taliadau Tanwydd Gaeaf ac rydym yn croesawu'r mecanweithiau cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i'r rhai sydd wedi colli'r taliadau hyn. Er ein bod yn nodi datganiad yr Ysgrifennydd Cabinet sy'n amlinellu sut y gall y rhai yr effeithir arnynt gael gafael ar gymorth,[316] rydym yn rhannu'r pryderon a godwyd gan nifer o randdeiliaid nad yw pobl hŷn efallai'n ymwybodol bod cymorth o'r fath ar gael. O'r herwydd, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy i gyfeirio'r unigolion hynny at y cymorth sydd ar gael iddynt.

**Argymhelliad 27.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn gweithio gyda sefydliadau cymorth ac elusennol, gan gynnwys y cyrff hynny sy'n

[316] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip: Trechu Tlodi, 27 Ionawr 2025

cynrychioli pobl hŷn, i sicrhau bod y rhai sy'n gymwys i gael cymorth ariannol yn lle'r Taliadau Tanwydd Gaeaf yn gallu gwneud hynny.

# 5. Blaenoriaethau'r Gyllideb

**264.** Gan nodi ei bod yn gwario mwy y pen ar lywodraeth leol, iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg nag yn Lloegr,[317] mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ei bod yn parhau i wynebu pwysau[318] a bod yr hinsawdd ariannol gyffredinol "yn heriol o hyd".[319] Nododd:

> *"… mae llawer o wasanaethau'n fregus ac ni allant wrthsefyll rhagor o ergydion. Mae gormod o wasanaethau'n rhy agos at y dibyn."*[320]

## GIG Cymru

**265.** O ran cyllid adnoddau, mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu £435 miliwn arall ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn y Gyllideb Ddrafft, sy'n ychwanegol at y cyllid ychwanegol a ddarparwyd ganddi ar gyfer gwasanaethau rheng flaen y GIG yn 2024-25.[321]

**266.** Meddai Llywodraeth Cymru:

> *"Gyda'i gilydd, mae ein buddsoddiad yn ystod y ddwy flynedd diwethaf ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn £880m neu 8%, y mae'r rhan fwyaf ohono'n cefnogi cyflogau'r gweithlu."*[322]

**267.** Mae'r Gyllideb Ddrafft yn cyd-fynd â phedair blaenoriaeth y Prif Weinidog, sy'n cynnwys "Iechyd Da – Cymru Iachach",[323] ac yn datgan:

> *"Mae'r Gyllideb Ddrafft yn cyfleu ein blaenoriaeth i barhau i leihau'r amseroedd aros hiraf yn y GIG, gan gynnwys ar gyfer iechyd meddwl, a gwella mynediad at ofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd menywod."*[324]

**268.** Er ei fod yn cytuno â blaenoriaethau cyllideb Llywodraeth Cymru, myfyriodd Conffederasiwn GIG Cymru ar y setliad ariannol ar gyfer 2025-26 a'r cynnydd yn y galw am wasanaethau gofal iechyd. Dywedodd:

---

[317] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2025-26, Rhagfyr 2024, tudalen 3
[318] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2025-26, Rhagfyr 2024, tudalen 19
[319] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2025-26, Rhagfyr 2024, tudalen 4
[320] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2025-26, Rhagfyr 2024, tudalen 3
[321] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2025-26, Rhagfyr 2024, tudalen 19
[322] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2025-26, Rhagfyr 2024, tudalen 19
[323] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2025-26, Rhagfyr 2024, tudalen 19
[324] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2025-26, Rhagfyr 2024, tudalen 19

*"… there's a huge challenge out there, a huge amount to be delivered, and the financial settlement is very tight if you factor in the huge increase in demand for health and social care services that we're seeing across Wales, as well as inflationary pressures. The demand leads to you needing more money, you need more people, you need more equipment."*[325]

**269.** O ran a yw'r Gyllideb Ddrafft yn darparu digon o gyllid i'r GIG fynd i'r afael â materion capasiti fel rhestrau aros, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor:

*"I am satisfied that there's adequate funding there [in the Draft Budget 2025-26] to allow the Cabinet Secretary for health to make inroads into those waiting lists and waiting times, and for him to be able to pursue the other priorities he's identified."*[326]

**270.** Fodd bynnag, ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet mewn sesiwn dystiolaeth ddiweddarach:

*"My job is to allocate the resources and then it's Cabinet colleagues' responsibility to decide how to match those resources against the calls that they face for them."*[327]

**271.** Ar y pwynt hwn, dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru:

*"Inroads will be made, I'd agree with that, but we need this on a sustainable basis; it isn't just a one-off. I think the Cabinet Secretary, Ministers and politicians in all parties agree that that challenge is huge. The amount of activity and treatment being carried out by the NHS is going up and up, but the funding isn't".*[328]

## **Cynhyrchiant a Chanlyniadau**'r GIG

**272.** Mewn datganiad i'r wasg ynglŷn â Chyfrifon 2023-24 ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol (BILlau), dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru:

*"Mae'r diffyg cronnol cynyddol ar gyfer y GIG yng Nghymru yn dangos, er gwaethaf y lefelau buddsoddi a'r lefelau arbedion*

[325] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 150
[326] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Rhagfyr 2024, paragraff 130
[327] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 121
[328] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 274

> *mwyaf erioed, nad yw'r fframwaith statudol a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru i ysgogi cynaliadwyedd ariannol yn y GIG yn gweithio."*[329]

**273.** Ychwanegodd:

> *"Er bod angen dybryd o hyd i gyrff y GIG barhau i fynd i'r afael ag aneffeithlonrwydd o ran costau yn y ffordd maent yn gweithio, nid yw hyn ar ei ben ei hun yn debygol o sicrhau bod y GIG yn mantoli'r gyllideb unwaith eto. Mae angen mynd i'r afael â heriau mwy sylfaenol nawr o ran siâp a seilwaith y GIG, lefel y cyllid sydd ei angen arno, yr heriau y mae'n eu hwynebu o ran y gweithlu a sut y gellir rheoli'r galw am ei wasanaethau yn well. Mae'r rhain yn faterion y dylai gwleidyddion, swyddogion y llywodraeth a chyrff y GIG a'u partneriaid fod yn eu hystyried llawn cymaint â'i gilydd."*[330]

**274.** O ran cynhyrchiant yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, dywedodd yr IFS wrth y Pwyllgor:

> *"… I'm not sure I detect the necessary sense of the urgency, really, to tackle the issues around public sector performance and productivity in Welsh public services that I would like to see."*[331]

**275.** O ran GIG Cymru, ychwanegodd:

> *"NHS productivity is still well down on pre-COVID levels. I'm being a bit controversial here, but I think, to me at least, it's clear that the Welsh NHS is performing worse on several key metrics than England, for example, which, of course, already is performing pretty poorly."*[332]

**276.** Dywedodd hefyd:

> *"…I think in Wales, sometimes, we haven't had, if you like, that really radical honesty that I think perhaps we're starting to see*

[329] Datganiad i'r wasg Archwilio Cymru: Pob Awdurdod Iechyd yn torri'r ddyletswydd i fantoli'r gyllideb wrth i bwysau ariannol waethygu – 29 Awst 2024
[330] Datganiad i'r wasg Archwilio Cymru: Pob Awdurdod Iechyd yn torri'r ddyletswydd i fantoli'r gyllideb wrth i bwysau ariannol waethygu – 29 Awst 2024
[331] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 200
[332] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 200

> *a little bit of in Scotland, under significant pressure in terms of the amount of scrutiny that Scottish Government's now facing on public services. But I think that the budget isn't where we'd want to see then all the detail on how you're going to transform services and how you're measuring performance. But I would like to see, I think, more of a focus, more of a sense of urgency on the necessity of reforming and improving productivity in public services and then improving outcomes delivered for people in Wales."*[333]

**277.** Wrth ymateb i rai o'r sylwadau ar gynhyrchiant o fewn GIG Cymru, dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru:

> *"… it is something we're definitely focusing on, and apologies if people are getting the impression for some reason that the NHS isn't focusing on that; it's critical. Demand is going up, money is staying the same; you've got to be focused on productivity at all levels."*[334]

**278.** Cyfeiriodd Conffederasiwn GIG Cymru hefyd at y Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Berfformiad a Chynhyrchiant y disgwylir iddo adrodd ym mis Mawrth 2025, a fyddai'n blaenoriaethu meysydd ychwanegol i'w cryfhau dros y tymor canolig i'r byrdymor a'r hirdymor.[335]

**279.** Wrth gyfeirio at y cynnydd sylweddol mewn cyllid cyfalaf yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2025-26, a sut y gellid defnyddio hwn i ysgogi cynhyrchiant, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"… it's over £3 billion for the first time—and in all those budget preparation meetings that lie behind the draft budget, my conversations with my colleagues were, 'If you can show me that you can use capital in a way that makes your revenue more efficient, that will increase the chances that I will be able to provide that money to you.' So, that's been a theme of this budget and its preparation."*[336]

---

[333] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 201
[334] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 240
[335] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 247
[336] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 107

### Seilwaith Digidol

**280.** Wrth fyfyrio ar y prif rwystrau i sicrhau cynhyrchiant cynyddol yn y GIG, cyfeiriodd Conffederasiwn GIG Cymru at ddiffyg buddsoddiad mewn seilwaith digidol. Dywedodd:

> *"... that sort of digital infrastructure, and the most commonly talked about is the patient record and sharing information about a patient between primary care and secondary care, between different organisations, between health and social care. We do need that longer term plan."*[337]

**281.** O'r £614 miliwn a ddyrannwyd ar gyfer cyllid cyfalaf cyffredinol i'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer 2025-26, bydd £40 miliwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol.[338]

**282.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor:

> *"On the capital side, I probably am satisfied that the amount of capital available to the health service next year is probably at the top end of what the system can absorb. Because as everybody here... will know, it's not just a matter of the money, it's whether you're geared up to be able to use the money. On the capital side, I definitely think that."*[339]

**283.** Cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd at ymddangosiad Deallusrwydd Artiffisial wrth greu newidiadau cynhyrchiant mawr mewn economïau modern. Dywedodd:

> *"... digital infrastructure is a gateway to the ability to use artificial intelligence in a way that drives productivity, and that's a point that the Cabinet Secretary for health is, I know, very alert to in the spending decisions that he will make."*[340]

## Gofal Cymdeithasol

**284.** Yn ogystal â darparu cyllid drwy'r Grant Cynnal Refeniw ar gyfer llywodraeth leol, dywed Llywodraeth Cymru ei bod yn cefnogi gofal cymdeithasol trwy gyfres o

[337] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 250
[338] Llywodraeth Cymru, Cynllun Cyllid Seilwaith 2025 – 2026, Rhagfyr 2024
[339] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 12 Rhagfyr 2024, paragraff 130
[340] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 114

gronfeydd a grantiau, gan gynnwys mwy na £140 miliwn o gyllid wedi'i gyfarwyddo, a fydd yn cael ei gynnal yn 2025-26.[341]

**285.** Yn ei ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor, mae CLlLC yn nodi £559 miliwn o bwysau awdurdodau lleol ar gyfer 2025-26, y mae gofal cymdeithasol yn gyfrifol am £223 miliwn ohono.[342] Dywedodd wrth y Pwyllgor:

> *"We are seeing continued growth and complexity both in children and adult social care support needed, and that is an extreme budget pressure."*[343]

**286.** O ran dyrannu cyllid ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn y Gyllideb Ddrafft, dywedodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru:

> *"… there is a significant gap between the funding that has been made available and the funding that's required."*[344]

**287.** Gan gyfeirio at Gyngor Bro Morgannwg, ychwanegodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru:

> *"I'm really fortunate—I work for a council that is putting way more than 3.4 per cent into the social services budget, but that is coming at a cost to other council services. But it still doesn't deal with the overall financial challenge. And I think I probably have reached the stage where I believe that the funding for social care is fundamentally broken and that that needs to be resolved either by the Welsh Government or by the UK Government, because I don't think we can continue in the way that we are at the moment."*[345]

**288.** O ran cynllunio tymor canolig a hirdymor a'r posibilrwydd o awdurdodau lleol yn ymdopi gyda setliadau cyllid llai ffafriol yn y dyfodol, dywedodd CLlLC:

> *"… one of the areas, in particular, we've been focusing on is about how do we avoid some of the demand in the future, social care in particular. So, there's a lot more support now about how we keep people in their own homes and putting*

[341] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2025-26, Rhagfyr 2024, tudalen 21
[342] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad, CLlLC
[343] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 17
[344] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 153
[345] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 179

> *more and more investment in new technology, new adaptions et cetera to support people. It's cheaper to support people in their own homes, but it's also a better outcome and the overwhelming majority of people are saying they want to be supported in their own home."*[346]

**289.** O ran i ba raddau y bydd awdurdodau lleol yn gallu diogelu gwasanaethau gofal cymdeithasol yn 2025-26 ac mewn blynyddoedd i ddod, dywedodd CLlLC:

> *"… we take a differentiated approach where we might look at transformation of services, we might look at rationalising services, we might look at fees and charges. There's always a whole range of things that we can do, and social care is one where we actually do that, and I think that that is playing out for most local authorities."*[347]

**290.** Canmolodd yr Ysgrifennydd Cabinet awdurdodau lleol am gysoni adnoddau â chyfrifoldebau craidd, fel gofal cymdeithasol ac addysg. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

> *"… in very tough times, you will see, across Wales, that local authorities have prioritised their social care responsibilities and their education responsibilities, and that they have moved their money to match those things."*[348]

**291.** O ran y posibilrwydd o ddyrannu cyllid ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru, aeth ymlaen i ddweud:

> *"I can't make any promises today, but social care is one of the cases that does come through very strongly in the evidence committees have heard."*[349]

## Gweithlu'r GIG a Gofal Cymdeithasol

**292.** Dywedodd Llywodraeth Cymru y bydd y cyllid adnoddau a ddyrennir yn y Gyllideb Ddrafft, ymhlith pethau eraill, yn:

346 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 98
347 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 109
348 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 133
349 Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 134

> *"… cefnogi dyfarniad cyflog 2025-26 y gweithlu, gan adeiladu ar y cyllid ychwanegol a ddarparwyd yn 2024-25."*[350]

**293.** Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, nododd Conffederasiwn GIG Cymru fod 'gweithlu' yn un o'i wyth blaenoriaeth ar gyfer cymorth yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26.[351] Nododd fod gweithlu cynaliadwy yn hanfodol ar gyfer GIG cynaliadwy.[352]

**294.** Gan gyfeirio at yr angen am gynllun gweithlu GIG wedi'i ariannu'n llawn, dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru:

> *"There are things that we need to invest in now, if we're going to have a sustainable and effective service in the future. A really good example is that we've called multiple times for there to be a fully funded, costed NHS workforce plan, which we still don't have in Wales, but that is critical if you look at the time lag to train clinical professionals."*[353]

**295.** Nododd hefyd:

> *"We also know that, in areas where waiting lists are most challenged, things like ophthalmic services or orthopaedic services, the age profile of the registered health professional is… mid 50s plus, who are likely to retire."*[354]

**296.** Dyrannodd y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2025-26 "dros £20m" tuag at y gyllideb addysg a hyfforddiant ar gyfer gweithlu'r GIG, a oedd yn cynnwys cymorth i ehangu Ysgol Feddygol Gogledd Cymru a lleoedd hyfforddi meddygol a deintyddol ôl-raddedig ychwanegol.[355]

**297.** Fodd bynnag, nododd Conffederasiwn GIG Cymru y cadwyd buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn y maes hwn ar gyfer 2024-25 ar yr un lefel â 2023-24, a oedd tua £20 miliwn yn is na'r hyn a argymhellwyd yng Nghynllun Addysg a Hyfforddiant 2024-25 Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).[356]

---

[350] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024-25, Rhagfyr 2023, tudalen 20
[351] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Conffederasiwn GIG Cymru
[352] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Conffederasiwn GIG Cymru
[353] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 203
[354] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 203
[355] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2025-26, Rhagfyr 2024, tudalen 20
[356] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Conffederasiwn GIG Cymru

**298.** Ychwanegodd:

> *"Investment in education and training is key to supporting recruitment into NHS Wales, improving retention and developing new workforce roles to support service transformation"*[357]

**299.** Yn eu hymateb ar y cyd i'r ymgynghoriad, tynnodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a CLlLC sylw at ymatebion i arolwg gweithlu 2024 Gofal Cymdeithasol Cymru, a oedd yn nodi natur fregus y gweithlu, â heriau recriwtio a chadw parhaus.[358] Nodwyd ganddynt hefyd:

> *"Workforce stability is also a major concern, with fears that continued underfunding will exacerbate staff shortages and demoralisation."*[359]

**300.** Dywedodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru wrth y Pwyllgor fod effaith yr heriau recriwtio yn dra gwahanol i weithwyr gofal cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol.[360]

**301.** Gan gyfeirio at weithwyr gofal cymdeithasol yng Nghyngor Bro Morgannwg, dywedodd y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol:

> *"For the care workforce, the new staff are almost all—I think the actual figure is 99 per cent in my region—coming from overseas. And that is a concern, particularly given some of the changes in the visa requirements and so on. So, we are likely to see a problem re-emerge in terms of sufficient availability."*[361]

**302.** O ran gweithwyr cymdeithasol, ychwanegodd:

> *"I think that the main challenge we've experienced has been within children's social work, where there are significant challenges in terms of being able to work, given that increased demand … and I guess some of the societal changes that have*

[357] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: Conffederasiwn GIG Cymru
[358] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb ar y Cyd i'r Ymgynghoriad: Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a CLlLC
[359] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb ar y Cyd i'r Ymgynghoriad: Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a CLlLC
[360] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 220
[361] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 220

> *happened over the last dozen years. That has made that job far less desirable, if I'm quite honest."*[362]

## Llywodraeth Leol

**303.** Yn y Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro ar gyfer 2025-26, bydd awdurdodau lleol yn derbyn £6.1 biliwn o Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth Cymru ac ardrethi annomestig. Mae hyn yn cynyddu cyllid refeniw craidd ar gyfer llywodraeth leol £253 miliwn, neu 4.3 y cant ar sail gyfatebol, o'i gymharu â 2024-25.[363] Dywed Llywodraeth Cymru fod y cynnydd hwn yn adlewyrchu'r "pwysau ychwanegol ar awdurdodau lleol".[364]

**304.** Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn dweud bod ei phenderfyniadau ariannu:

> *"… yn cydnabod ein hagenda polisi a chyflawni hanfodol bwysig ym maes gofal cymdeithasol, gan gynnwys camau tuag at ddileu elw o ofal plant, parhau â'r Cyflog Byw Gwirioneddol, gwella mynediad at ofal cymdeithasol a chynnal y cap gofal yn £100 yr wythnos ochr yn ochr â chefnogi'r dull 'system gyfan' o ofalu yn nes at adref."*[365]

**305.** Mae tystiolaeth CLlLC yn amlinellu bod gofal cymdeithasol yn gyfrifol am £223 miliwn o bwysau yn 2025-26, ysgolion am £120 miliwn, a gwasanaethau awdurdod lleol eraill am £224 miliwn.[366] Mae pwysau sy'n gysylltiedig â galw yn gyfrifol am £242 miliwn o gyfanswm y pwysau yn 2025-26, ac mae pwysau chwyddiant yn gyfrifol am ychydig dros £320 miliwn o'r cyfanswm.[367]

**306.** Wrth wneud sylwadau am y pwysau ariannol sy'n wynebu awdurdodau lleol, dywedodd Cymdeithas Trysoryddion Cymru:

> *"In general, pressures impacting on local authorities are immense. We're talking about figures of more than 7 per cent increases in our costs across all services, and with social services being such a key part of local authority budgets, the pressure that we're seeing there obviously has a huge impact on the council, but then, more generally, that has a wider impact on*

[362] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 221
[363] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2025-26, Rhagfyr 2024, tudalen 26
[364] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2025-26, Rhagfyr 2024, tudalen 21
[365] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai at Arweinwyr Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru, 11 Rhagfyr 2024
[366] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: CLlLC
[367] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: CLlLC

*other services as we look to be able to fund the pressures that we are seeing across our social services. I think social services and schools are probably the two biggest areas of challenge for us."*[368]

**307.** Yn ei hymateb i Setliad Llywodraeth Leol 2025-26, croesawodd CLlLC ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi llywodraeth leol a'i hymgysylltiad â'r sector. Fodd bynnag, tra'n cydnabod y pwysau ar bwrs y wlad, dywedodd:

*"… bydd y setliad hwn yn bilsen anodd i lawer o awdurdodau ei lyncu. Mae'r galw ar wasanaethau fel gofal cymdeithasol, addysg a thai yn cynyddu'n gyson. Heb yr arian sydd ei angen i fynd i'r afael â'r gofynion hynny a chostau cynyddol, bydd gallu ein gwasanaethau lleol hanfodol i gyflawni dyletswyddau statudol, a chefnogi anghenion trigolion, yn cael ei rwystro'n ddifrifol."*[369]

## Cydnerthedd Ariannol

**308.** Yn ei llythyr at awdurdodau lleol, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai mai nod y cynnydd mewn cyllid eleni oedd ymateb, yn benodol, i dâl a phwysau mewn gwasanaethau rheng flaen.[370]

**309.** Er bod arweinwyr cyngor o Wrecsam[371] a Sir y Fflint[372] wedi mynegi pryderon ynghylch angen cyhoeddi adroddiad Adran 114[373] a'r bygythiad o fethdalu, dywedodd CLlLC:

*"I don't think that is on the cards for the coming 12 months."*[374]

**310.** Ar y mater hwn, dywedodd WFA wrth y Pwyllgor:

*"… in this current year, the talk about things like council bankruptcies and so on, that is off the agenda in terms of the current fiscal year and the following fiscal year. I think in future, we don't know; it depends on how tight the budget is. But in the*

[368] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 155
[369] Datganiad i'r wasg CLlLC: CLlLC yn ymateb i setliad llywodraeth leol 2025-26, 11 Rhagfyr 2024
[370] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai at Arweinwyr Cynghorau Sir a Cynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru, 11 Rhagfyr 2024
[371] Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2025, paragraff 17
[372] Erthygl BBC News: Council cuts and bankruptcy fears despite cash boost, 11 Rhagfyr 2024
[373] Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (C.41)
[374] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 75

*current year and in 2025-26, certainly the pressure is far less than it could have been six months ago."*[375]

**311.** Fodd bynnag, rhannodd CLlLC bryderon WFA am gynaliadwyedd cyllid a gwasanaethau awdurdodau lleol yn y blynyddoedd i ddod. Aeth ymlaen i ddweud:

*"The real truth of it is that any local authority could be a year or two away from a section 114 notice in the event that we don't control spending. I mentioned earlier about social care, and I don't think there's a local authority that's not overspending on social care because of the pressures. The difficulty is that some local authorities have had to cut non-statutory services significantly over the last decade, and if there isn't a lot more of those services left to cut, then that's where we get into the real difficulty, where statutory services could start to fail."*[376]

**312.** Yn ei llythyr at awdurdodau lleol, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai:

*"Er bod hwn yn setliad llawer gwell na'r hyn a ragwelwyd ar ddechrau'r flwyddyn hon, rwyf yn cydnabod y bydd penderfyniadau lleol anodd i'w gwneud unwaith eto."*[377]

**313.** Ychwanegodd:

*"O gofio'r ystod o godiadau mae'r llywodraeth yn agored i ystyried darparu cyllido gwaelodol ychwanegol yn y gyllideb derfynol".*[378]

**314.** Wrth ymateb i ba un a fyddai defnyddio cyllido gwaelodol o fudd i awdurdodau lleol, dywedodd CLlLC:

*"I think, in terms of the impact on those councils at the bottom of the distribution formula, a separately funded floor, funded*

[375] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 8 Ionawr 2023, paragraff 212
[376] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 75
[377] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai at Arweinwyr Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru, 11 Rhagfyr 2024
[378] Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai at Arweinwyr Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru, 11 Rhagfyr 2024

> *from outside the settlement, I think would be a way of avoiding unwanted consequences in some of those councils."*[379]

**315.** Awgrymodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod newidiadau yn bosibl yn y Gyllideb Derfynol yn ymwneud â'r pwynt hwn, gan nodi:

> *"But a funding floor that will assist those local authorities that are furthest away from the 4.3 per cent average is where my current explorations are concentrating."*[380]

**316.** Ar awdurdodau lleol yn sicrhau cynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig, adroddodd Archwilio Cymru ym mis Rhagfyr 2024:

> *"... mae ar lawer o gynghorau angen newid sylweddol yn eu dull i symud y tu hwnt i bennu cyllideb a fantolir yn flynyddol i gyflawni gwerth am arian a chynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig."*[381]

**317.** Pan ofynnwyd i CLlLC am gynaliadwyedd ariannol, cyfeiriodd at yr anawsterau a achosir gan setliadau ariannol blwyddyn o hyd o ran cynllunio tymor canolig a hirdymor i awdurdodau lleol. Dywedodd:

> *"The difficulty is that, because we only get one-year financial settlements, we don't know what's facing us. So, for us to genuinely understand and plan ahead, we really do need to have a minimum three-year funding settlement."*[382]

**318.** Ychwanegodd:

> *"It should be the hallmark of sensible governance to give us multi-year settlements, so that we can plan over a longer time period."*[383]

**319.** Cydnabu'r Ysgrifennydd Cabinet y sefydlogrwydd ariannol a roddir gan setliadau ariannu amlflwyddyn ac awgrymodd y gellid cynnig setliad o'r fath i

---

[379] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 28
[380] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 137
[381] Adroddiad Archwilio Cymru: Cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol, Rhagfyr 2024
[382] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 78
[383] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 81

awdurdodau lleol,[384] yn dilyn Adolygiad o Wariant y DU y disgwylir iddo ddod i ben ym mis Mehefin 2025.[385]

**320.** Ar fesurau eraill yn ymwneud â sefydlogrwydd ariannol awdurdodau lleol yn y dyfodol, cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Cabinet at "gyfalafu" a gwaith sy'n cael ei wneud gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai i:

> *"… develop a protocol that would apply in circumstances of significant financial challenge. That isn't about more money. That might be about giving local authorities some different ways of managing the money they have."*[386]

## Addysg

**321.** Yn ei hymateb i'r ymgynghoriad, dywedodd CLlLC fod awdurdodau lleol wedi adrodd bod pwysau ychwanegol o £92 miliwn yn ystod y flwyddyn ar gyllidebau ysgolion yn 2024-25, a bod 30 y cant o'r gorwariant yn ymwneud â phwysau cyflog.[387] Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor y llynedd, dywedodd CLlLC:

> *"Mae hyd yn oed y cynghorau sydd wedi diogelu ysgolion yn y blynyddoedd diwethaf yn dweud na allant roi'r un gefnogaeth yn y dyfodol o ystyried maint y bwlch ariannu."*[388]

**322.** Nododd CLlLC fod ysgolion yn wynebu pwysau yn y dyfodol o £122 miliwn yn 2025-26, £111 miliwn yn 2026-27 a £112 miliwn yn 2027-28, a bod cyflog yn gyfrifol am oddeutu 80 y cant o'r pwysau ar ysgolion ym mhob un o'r blynyddoedd hyn.[389]

**323.** Mae CLlLC hefyd yn cyfeirio at y pwysau ariannol sy'n wynebu awdurdodau lleol o ran y cynnydd yn nifer y dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a chymhlethdod yr anghenion hynny, yn ogystal â diwygio ADY.[390] Nodwyd mai Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018[391] yw'r prif reswm am y cynnydd mewn costau.[392] O ran pwysau costau ADY cynyddol, dywedodd CLlLC:

[384] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 145
[385] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 41
[386] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 146
[387] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: CLlLC
[388] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: CLlLC
[389] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: CLlLC
[390] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: CLlLC
[391] Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
[392] Y Pwyllgor Cyllid, Ymateb i'r Ymgynghoriad: CLlLC

> *"… one thing I'm concerned about is the increasing needs of ALN and not wanting to have schools losing teaching assistants particularly, who have been helping, especially in primary, with lots of the issues that have been exacerbated by the events of four, five years ago."*[393]

**324.** Gan gyfeirio at y pwysau ariannol sy'n wynebu ysgolion ac addysg, a oedd yn cynnwys newidiadau i'r cwricwlwm a diwygio anghenion dysgu ychwanegol, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor:

> *"… my sense of it comes much more from the information that Lynne Neagle will have provided to me as part of the budget-making process, and that's why we've been able to provide additional funding for that part of the Welsh Government's responsibilities, significantly in-year, as well as next year. The education MEG was the single biggest beneficiary of in-year additional funding …"*[394]

**325.** O ran y galw cynyddol am wasanaethau ADY, nododd:

> *"… the growth in the number of young children identified as having additional learning needs is extraordinary, and actually quite hard for a lay person to understand."*[395]

## Trafnidiaeth

**326.** Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllid ychwanegol o bron i £70 miliwn mewn adnoddau a £51 miliwn mewn cyfalaf i fwrw ymlaen ag "ymrwymiadau i foderneiddio ein rheilffyrdd a darparu rhwydwaith bysiau gwell, i drwsio ein ffyrdd, a darparu dewis lleol ar 20mya".[396]

**327.** Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i flaenoriaethu prosiect Llinellau Craidd y Cymoedd "o linell lo Fictoraidd i system Metro fodern".[397] £181.6 miliwn yw cyfanswm y dyraniad i'r gyllideb cyfalaf rheilffyrdd (gan gynnwys elfennau nad ydynt yn Llinellau Craidd y Cymoedd).

[393] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 136
[394] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 148
[395] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 149
[396] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2025-26, Rhagfyr 2024, tudalen 25
[397] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2025-26, Rhagfyr 2024, tudalen 25

**328.** Nododd Sefydliad Bevan wariant ar drafnidiaeth fel maes lle mae'r patrwm yn atchweliadol iawn. Meddai:

> *"… if you look at spending on transport, for example, that favours the richest share of the population, and yet we know that one of the reasons why people on low incomes are unable to take advantage of opportunities is because of the costs and lack of availability of transport."*[398]

**329.** Gan ymateb i hyn, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"I do hear this argument from time to time that only posh people go on trains and other people go on buses, and that the Welsh Government's emphasis on train expenditure is regressive. I don't buy that completely."*[399]

**330.** Ychwanegodd fod y buddsoddiad y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn llinellau craidd y Cymoedd dros gyfnod o 10 mlynedd yn drawsnewidiol, gan egluro bod y Metro:

> *"… is really going to transform the way in which opportunities for people in that part of Wales—economic opportunities—are generated."*[400]

**331.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet hefyd:

> *"Transport for Wales is expecting to see a 17 per cent increase in its farebox this year, and that's pretty remarkable, given what's happened in the post-pandemic era."*[401]

## Barn y Pwyllgor

**332.** Yn dilyn y sefyllfa ariannol anodd a wynebwyd gan Lywodraeth Cymru ar adeg y Gyllideb Ddrafft y llynedd, mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cyllid ychwanegol sydd ar gael ar gyfer 2025-26 ond mae'n nodi bod yr hinsawdd gyllidol yn parhau i fod yn heriol. Er i Lywodraeth Cymru ddweud ei bod yn dyrannu £1.5 biliwn ychwanegol yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2025-26 o'i gymharu â 2024-25, mae'r Pwyllgor yn dal i bryderu am yr amddiffyniad uniongyrchol, a hirdymor y mae hyn

[398] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Ionawr 2025, paragraff 330
[399] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 165
[400] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 165
[401] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 23 Ionawr 2025, paragraff 165

yn ei gynnig i wasanaethau, y mae naratif y Gyllideb Ddrafft ei hun yn cydnabod eu bod yn “fregus” ac yn “agos at y dibyn”.

**333.** Mae’r Pwyllgor yn cydnabod y pwysau ariannol sylweddol sy’n wynebu meysydd iechyd, gofal cymdeithasol a’r gwasanaethau a ddarperir gan lywodraeth leol a bod y sectorau hynny yn parhau i wynebu penderfyniadau anodd o ran y gwasanaethau y maent yn eu darparu. Mae’r Pwyllgor yn nodi’r galw cynyddol am wasanaethau ar draws sectorau sy’n arwain at bwysau ariannol acíwt ym maes gofal cymdeithasol a llywodraeth leol yn benodol. Roeddem yn arbennig o bryderus o glywed bod cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru wedi torri’n sylfaenol. Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch gwytnwch y gwasanaethau hyn ac rydym yn galw ar yr Ysgrifennydd Cabinet i egluro’r camau sy’n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru i fynd i’r afael â’r pryderon hyn fel mater o frys. Mae hyn yn cynnwys esbonio’r hyn sy’n cael ei wneud i fynd i’r afael â’r pryderon hyn a sut mae’r dyraniadau yn y Gyllideb Ddrafft yn adlewyrchu’r galw cynyddol am ofal cymdeithasol, yn enwedig o ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd sy’n awgrymu bod bwlch rhwng y cyllid a ddarparwyd a’r hyn sydd ei angen. Mae’r Pwyllgor hefyd yn croesawu’r ffaith bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn agored i edrych ar ddarparu cyllid ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol, ac yn gofyn i’r Pwyllgor gael yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn y maes hwn.

**Argymhelliad 28.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn egluro sut y bydd y dyraniadau yn y Gyllideb Ddrafft yn mynd i’r afael â’r galw cynyddol am ofal cymdeithasol ac yn amlinellu’r camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd, fel mater o frys, i fynd i’r afael â’r model cyllido gofal cymdeithasol i sicrhau ei wytnwch yn y dyfodol ac yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor erbyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol.

**Argymhelliad 29.** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor am unrhyw gyllid ychwanegol y bydd Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i’r sector gofal cymdeithasol ac at ddibenion cysylltiedig, cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol.

**334.** Er bod y Pwyllgor yn croesawu’r cynnydd o 4.3 y cant i Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro 2025-26 o’i gymharu â 2024-25, mae’r Pwyllgor yn nodi’r pwysau sydd ar wasanaethau lleol yn ogystal â’r rhagolwg ariannu anodd y tu hwnt i 2025-26 a’u heffaith debygol ar gynaliadwyedd ariannol gwasanaethau llywodraeth leol yn arbennig.

**335.** Fel y nodwyd gennym ym Mhennod 2, mae’r Pwyllgor yn croesawu dychwelyd i raglen reolaidd o adolygiadau gwariant ar lefel y DU, yn ogystal ag

arwyddion o ddychwelyd i setliadau amlflwyddyn yn y dyfodol agos. Fodd bynnag, yn y cyfamser, rydym yn galw ar yr Ysgrifennydd Cabinet i roi cymaint o eglurder â phosibl i awdurdodau lleol ar eu sefyllfa ariannu y tu hwnt i 2025-26, ar ôl i Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU ddod i ben yng ngwanwyn 2025.

**Argymhelliad 30.** Yn dilyn Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU, mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn darparu setliadau ariannu amlflwyddyn i awdurdodau lleol, fel mater o frys, i sicrhau mwy o sefydlogrwydd ariannol ac i hwyluso cynllunio ar gyfer y dyfodol.

**336.** Mae'r Pwyllgor yn bryderus o glywed sylwadau gan rai arweinwyr cyngor ynghylch 'methdaliadau' posibl ymhlith awdurdodau lleol yng Nghymru ond mae'n rhoi croeso gofalus i'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan WFA a CLlLC sy'n nodi y byddai digwyddiadau o'r fath yn y flwyddyn ariannol hon yn annhebygol. Fodd bynnag, gyda'r galw am wasanaethau yn parhau i dyfu, yn enwedig ym meysydd gwasanaethau cymdeithasol ac addysg, mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw'r rhagolwg ariannol tymor canolig i'r hirdymor ar gyfer awdurdodau lleol yn gynaliadwy.

**337.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu mentrau eraill y cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Cabinet atynt, gan gynnwys cyfeiriad at "gyfalafu" a datblygu "protocol" gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai sy'n ceisio cynorthwyo llywodraeth leol gyda gwahanol ffyrdd o reoli'r arian sydd ganddyn nhw.

**338.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi bod Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg wedi awgrymu y gellid cynnwys cyllido gwaelodol yn y Gyllideb Derfynol i gynorthwyo awdurdodau lleol sydd wedi derbyn y cynnydd canrannol lleiaf drwy'r Setliad Llywodraeth Leol. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r defnydd o gyllido gwaelodol ar gyfer setliadau yn 2025-26 ac mae'n galw i'r dull hwn gael ei weithredu cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol eleni ac i feini prawf eglur gael eu nodi ar gyfer pryd y gellid ystyried cyllido gwaelodol o'r fath yn y blynyddoedd i ddod.

**Argymhelliad 31.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn ystyried cyllido gwaelodol ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghyllideb Derfynol 2025-26 ac yn darparu'r meini prawf a ddefnyddir ar gyfer penderfynu pryd, ac ar ba lefel, i weithredu cyllido gwaelodol.

**Argymhelliad 32.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn rhoi eglurder pellach ar y protocol sy'n cael ei ddatblygu rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol a fyddai'n berthnasol o dan amgylchiadau o her

ariannol sylweddol, gan gynnwys amserlenni ar gyfer gweithredu, erbyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol.

**339.** Mae'r Pwyllgor wedi ei galonogi o glywed bod Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau eglur i BILlau ar yr hyn y disgwylir iddynt ei gyflawni ar gyfer y cyllid a ddyrennir yn 2025-26, ac yn benodol bod cynhyrchiant yn nodwedd allweddol yn y canllawiau ar gyfer darparu gwasanaethau. Rydym hefyd yn nodi'r sicrwydd a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Cabinet bod cyllid digonol yn y Gyllideb Ddrafft i ganiatáu i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol wneud cynnydd o ran rhestrau aros ac amseroedd aros.

**340.** Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn siomedig nad oedd dyraniadau Llywodraeth Cymru i BILlau a'i fframwaith cynllunio'r GIG ar gyfer y flwyddyn i ddod ar gael yn gyhoeddus ac yn agored i'w craffu, unwaith eto, ar adeg ei ystyriaeth o'r Gyllideb Ddrafft, er iddynt gael eu rhoi i'r sector. Roeddem hefyd yn siomedig bod yr Ysgrifennydd Cabinet wedi awgrymu nad oedd y disgwyliadau ar yr allbynnau a'r agweddau y gellid eu cyflawni ar gyfer y dyraniadau cyllid yn faes yr oedd yn gyfrifol amdano, er i'r rhain gael eu codi fel materion gan y Pwyllgor yn ei adroddiadau craffu ar gyllidebau blaenorol.

**341.** Yn benodol, ac yn unol â'i gyfrifoldebau ar gyfer monitro a rheoli cyllidebau ar draws Llywodraeth Cymru, byddem yn disgwyl i'r Ysgrifennydd Cabinet herio'r disgwyliadau ar gyfer cyflawni cyn cytuno ar gyllid ar gyfer BILlau gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

**Argymhelliad 33.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r llythyr dyraniad i Fyrddau Iechyd Lleol ar gyfer 2025-26 a Fframwaith Cynllunio GIG Cymru ar gyfer 2025-2028 cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol, ac yn ailadrodd ei argymhelliad y dylai Llywodraeth Cymru, fel mater o drefn, wneud yr wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd bob blwyddyn ar yr un pryd ag y caiff ei rhoi i'r sector er mwyn hwyluso craffu ar y Gyllideb Ddrafft.

**342.** Mae'r Pwyllgor eisoes wedi adrodd ei bryderon ynghylch lefelau cynhyrchiant yn y GIG[402]. Rydym yn nodi sylwadau'r Ysgrifennydd Cabinet sy'n cadarnhau bod cynhyrchiant y GIG yn bwysig i Lywodraeth Cymru ac yn nodi hefyd y bydd y dyraniadau cyfalaf yn y Gyllideb Ddrafft yn dechrau gwneud cynnydd ar y mater hwn.

[402] Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 - Chwefror 2024

**343.** Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi sylwadau gan yr IFS sy'n awgrymu diffyg brys a bod angen gonestrwydd radical wrth fynd i'r afael â'r materion ehangach sy'n ymwneud â chynhyrchiant a pherfformiad yng ngwasanaethau cyhoeddus Cymru.

**344.** Mae'r Pwyllgor o'r farn y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy yn y maes hwn, yn enwedig o ran asesu cynhyrchiant ar draws y sector cyhoeddus ac o ran nodi gwelliannau y mae'n eu disgwyl yn gyfnewid am y cyllid cyfalaf a ddarperir. Rydym yn nodi bod yr Ysgrifennydd Cabinet wedi dweud wrth ei gyd-Weinidogion yn y Cabinet y byddent yn fwy tebygol o dderbyn cyllid cyfalaf ychwanegol pe gallent ddangos y byddai'n gwneud refeniw yn fwy effeithlon, ond nid yw'r Pwyllgor yn credu bod y cysylltiad hwn wedi cael ei wneud yn eglur yn y Gyllideb Ddrafft na'r Cynllun Cyllid Seilwaith.

**Argymhelliad 34.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet:

- yn esbonio sut mae Llywodraeth Cymru yn asesu cynhyrchiant ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru;
- yn esbonio sut mae'r dyraniadau cyfalaf yn gysylltiedig â gwneud refeniw yn fwy effeithlon; ac
- yn amlinellu'r gwelliannau y mae'n eu disgwyl gan wasanaethau cyhoeddus yn 2025-26 yn gyfnewid am y cyllid cyfalaf a ddarperir; a bod yr wybodaeth hon yn cael ei darparu cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol.

**345.** Mae'r Pwyllgor yn nodi sylwadau gan Gonffederasiwn GIG Cymru bod diffyg buddsoddiad mewn seilwaith digidol yn rhwystr mawr i'r GIG sicrhau mwy o gynhyrchiant. Er ein bod yn cydnabod bod cyllid wedi cael ei ddyrannu yn y Gyllideb Ddrafft at y diben hwn drwy'r Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol, rydym yn galw am ragor o wybodaeth am sut y cyrhaeddwyd y cyfanswm, ar ba sail y bydd yn cael ei ddyrannu a sut y bydd ei ddefnydd yn cael ei werthuso.

**Argymhelliad 35.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn egluro sut y penderfynwyd ar y £40 miliwn ar gyfer y Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol o fewn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sut y bydd yn cael ei ddyrannu a sut y bydd canlyniadau ar gyfer y cyllid hwn yn cael eu gwerthuso.

**346.** Rydym eisoes wedi codi pryderon am yr heriau recriwtio a chadw sy'n wynebu'r GIG a'r sector gofal cymdeithasol[403]. Er ein bod yn nodi rhai gwelliannau, rydym yn parhau i bryderu bod y darlun cyffredinol yn dal i ddangos gweithlu bregus. Rydym yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn rhoi sicrwydd bod y cyllid a ddyrennir yn y Gyllideb Ddrafft i fynd i'r afael â'r heriau recriwtio a chadw yn y GIG a'r sector gofal cymdeithasol yn ddigonol.

**347.** Rydym yn nodi rôl addysg a hyfforddiant wrth helpu i recriwtio a chadw staff yn y GIG. Er ein bod yn croesawu'r dyraniad o fwy nag £20 miliwn tuag at y gyllideb addysg a hyfforddiant ar gyfer gweithlu'r GIG yn 2025-26, rydym yn galw am sicrwydd bod cyfanswm y cyllid sydd ar gael yn cyd-fynd â Chynllun Addysg a Hyfforddiant AaGIC ar gyfer y flwyddyn, o ystyried tystiolaeth gan Gonffederasiwn GIG Cymru a nododd ei fod yn is na'r hyn a argymhellwyd.

**Argymhelliad 36.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn rhoi sicrwydd bod y cyllid a ddyrennir yn y Gyllideb Ddrafft i leddfu pwysau gweithlu yng ngweithlu'r GIG a Gofal Cymdeithasol yn ddigonol i fynd i'r afael â'r heriau recriwtio a chadw sy'n cael eu hwynebu.

**Argymhelliad 37.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn cadarnhau a yw'r cyllid ar gyfer addysg a hyfforddiant gweithlu'r GIG yn adlewyrchu Cynllun Addysg a Hyfforddiant Addysg a Gwella Iechyd ar gyfer 2025-26, gydag esboniad os nad yw hyn yn wir ynghyd ag asesiad o'r canlyniadau posibl.

**348.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r pwysau ariannol sy'n wynebu awdurdodau lleol o ran darpariaethau gwasanaethau addysg, yn enwedig y pwysau cynyddol o ran costau yn gysylltiedig ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, lle bu cynnydd o ran galw a chymhlethdod. Rydym hefyd yn nodi cydnabyddiaeth yr Ysgrifennydd Cabinet o ddifrifoldeb y mater hwn a bod y twf yn nifer y plant ifanc y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn rhyfeddol.

**349.** Er bod y Pwyllgor yn croesawu'r cyllid ychwanegol a amlinellir gan yr Ysgrifennydd Cabinet ar gyfer addysg yn y Gyllideb Ddrafft, hoffem gael eglurder pellach ar y cyllid a ddyrennir i gefnogi Anghenion Dysgu Ychwanegol yn arbennig, o ystyried y pwysau presennol o ran galw.

**Argymhelliad 38.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn amlinellu sut mae cyllid yn cael ei flaenoriaethu i gefnogi Anghenion Dysgu

[403] Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 - Chwefror 2024

Ychwanegol yn y Gyllideb Ddrafft, a'r canlyniadau y mae'n eu disgwyl i'r cyllid hwn eu cyflawni, cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol.

**350.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r cyllid a ddyrennir i drafnidiaeth gyhoeddus yn y Gyllideb Ddrafft yn ogystal â barn yr Ysgrifennydd Cabinet y bydd y buddsoddiad yn Llinellau Craidd y Cymoedd yn drawsnewidiol dros gyfnod o ddeng mlynedd. Rydym hefyd yn croesawu bod Trafnidiaeth Cymru yn disgwyl gweld cynnydd o 17 y cant yng nghyfanswm ei incwm o docynnau eleni.

**351.** Mae'r Pwyllgor eisoes wedi argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am y cyllid a ddarperir i Trafnidiaeth Cymru, a manylion y tybiaethau a ddefnyddiwyd i gyfrifo dyraniadau, fel niferoedd teithwyr. Mae gennym ddiddordeb mewn gwybod a yw'r tybiaethau hyn wedi newid yng ngoleuni'r cynnydd mewn refeniw o docynnau ac yn gofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet am yr wybodaeth ddiweddaraf.

**Argymhelliad 39.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y tybiaethau a ddefnyddiwyd i gyfrifo dyraniadau i Trafnidiaeth Cymru yn y Gyllideb Ddrafft cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol.

# Atodiad 1: Rhestr o Sesiynau Tystiolaeth Lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we'r Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **12 Rhagfyr 2024** | **Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, Llywodraeth Cymru,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr, Trysorlys Cymru,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Emma Watkins, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran y Gyllideb a Busnes y Llywodraeth,**<br>Llywodraeth Cymru |
| **08 Ionawr 2025** | **Richard Hughes, Cadeirydd,**<br>Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol<br>**Yr Athro David Miles, Aelod o'r Pwyllgor Cyfrifoldeb Cyllidebol,**<br>Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol<br>**Tom Josephs, Aelod o'r Pwyllgor Cyfrifoldeb Cyllidebol,**<br>Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol<br>**David Phillips, Cyfarwyddwr Cyswllt**,<br>Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid<br>**Dr Ed Poole, Uwch Ddarlithydd,**<br>Canolfan Llywodraethiant Cymru (Dadansoddi Cyllid Cymru)<br>**Guto Ifan, Darlithydd,**<br>Canolfan Llywodraethiant Cymru (Dadansoddi Cyllid Cymru)<br>**Victoria Vasey, Cyfarwyddwr,**<br>Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru / Grŵp Cyllideb Menywod Cymru<br>**Simon Hatch, Cyfarwyddwr,**<br>Cyngor ar Bopeth Cymru<br>**Natalie Zhivkova, Rheolwr Polisi a Mewnwelediadau,**<br>Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) |
| **15 Ionawr 2025** | **Cyng. Lis Burnett, Arweinydd,**<br>Cyngor Bro Morgannwg |

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
| --- | --- |
| | **Cyng. Nia Jeffreys, Arweinydd,**<br>Cyngor Gwynedd<br>**Cyng. Anthony Hunt, Arweinydd**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen<br>**Cyng. Andrew Morgan, Arweinydd,**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf<br>**Darren Hughes, Cyfarwyddwr,**<br>Conffederasiwn GIG Cymru<br>**Lance Carver, Cadeirydd,**<br>Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru) a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bro Morgannwg<br>**Catherine Phillips, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid,**<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Chadeirydd Grŵp Cymheiriaid Cyfarwyddwyr Gweithredol Cyllid<br>**Jane Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol,**<br>Cyngor Sir Powys<br>**Victoria Winckler, Cyfarwyddwr,**<br>Sefydliad Bevan |
| **23 January 2025** | **Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, Llywodraeth Cymru,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr, Trysorlys Cymru,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Emma Watkins, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran y Gyllideb a Busnes y Llywodraeth,**<br>Llywodraeth Cymru |

# Atodiad 2: Rhestr o'r Dystiolaeth Ysgrifenedig1

Rhoddodd yr unigolion a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **WGDB25-26(6) 1** | Sefydliad y Peirianwyr Sifil Cymru |
| **WGBD25-26(6) 2** | Brighter Futures |
| **WGDB25-26(6) 3** | Cyngor Tref Aberystwyth |
| **WGDB25-26(6) 4** | Music Venue Trust |
| **WGDB25-26(6) 5** | Whitehead Ross Education |
| **WGDB25-26(6) 6** | Taff Housing Association |
| **WGDB25-26(6) 7** | Unigolyn |
| **WGDB25-26(6) 8** | Make UK |
| **WGDB25-26(6) 9** | Consortiwm Manwerthu Cymru |
| **WGDB25-26(6) 10** | Llamau |
| **WGDB25-26(6) 11** | Propertymark |
| **WGDB25-26(6) 12** | Marie-Curie |
| **WGDB25-26(6) 13** | Cynghrair Twristiaeth Cymru |
| **WGDB25-26(6) 14** | Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr |
| **WGDB25-26(6) 15** | Cynghrair Henoed Cymru |
| **WGDB25-26(6) 16** | Cymdeithas y Landlordiaid Preswyl |
| **WGDB25-26(6) 17** | Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi |
| **WGDB25-26(6) 18** | Ffederaiwn y Busnesau Bach (FSB) Cymru |
| **WGDB25-26(6) 19** | Coleg Brenhinol Pediatreg a Iechyd Plant (Cymru) |
| **WGDB25-26(6) 20** | Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol |
| **WGDB25-26(6) 21** | Sefydliad Tai Siartredig (CIH) Cymru |
| **WGDB25-26(6) 22** | TAC (Teledwyr Annibynnol Cymru) |

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **WGDB25-26(6) 23** | Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru |
| **WGDB25-26(6) 24** | National Energy Action Cymru |
| **WGDB25-26(6) 25** | Chwaraeon Cymru |
| **WGDB25-26(6) 26** | Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol |
| **WGDB25-26(6) 27** | Cyngor ar Bopeth Cymru |
| **WGDB25-26(6) 28** | Undeb Amaethwyr Cymru |
| **WGDB25-26(6) 29** | Y Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol |
| **WGDB25-26(6) 30** | Gofal a Thrwsio Cymru |
| **WGDB25-26(6) 31** | Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU) Cymru |
| **WGDB25-26(6) 32** | Fforwm Gofal Cymru |
| **WGDB25-26(6) 33** | Grŵp Cyllideb Menywod Cymru (GCMC)<br>Rhwydwaith cydraddoldeb merched (RCM) |
| **WGDB25-26(6) 34** | Platfform |
| **WGDB25-26(6) 35** | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| **WGDB25-26(6) 36** | Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu Cymru |
| **WGDB25-26(6) 37** | Colegau Cymru |
| **WGDB25-26(6) 38** | Rewilding Britain |
| **WGDB25-26(6) 39** | Oxfam Cymru |
| **WGDB25-26(6) 40** | Coleg Brenhinol y Seiciatryddion |
| **WGDB25-26(6) 41** | Shelter Cymru |
| **WGDB25-26(6) 42** | Age Cymru |
| **WGDB25-26(6) 43** | Cymdeithas Alzheimer Cymru |
| **WGDB25-26(6) 44** | Cadeiryddion o Prifysgolion Cymru a Phrifysgolion Cymru |
| **WGDB25-26(6) 45** | RSPB Cymru |
| **WGDB25-26(6) 46** | Comisiynydd Plant Cymru |
| **WGDB25-26(6) 47** | Prifysgol Abertawe |
| **WGDB25-26(6) 48** | Plant yng Nghymru |
| **WGDB25-26(6) 49** | Cymdeithas Broffesiynol Hunanddarparwyr y DU, Cymru |
| **WGDB25-26(6) 50** | Undeb Prifysgol Choleg Cymru |
| **WGDB25-26(6) 51** | Sefydliad Bevan |

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **WGDB25-26(6) 52** | The Wallich |
| **WGDB25-26(6) 53** | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) |
| **WGDB25-26(6) 54** | Pobl Care & Support |
| **WGDB25-26(6) 55** | Cymdeithas Ddysgedig Cymru |
| **WGDB25-26(6) 56** | Clinks |
| **WGDB25-26(6) 57** | Crisis |
| **WGDB25-26(6) 58** | Cwmpass |
| **WGDB25-26(6) 59** | Amgylchedd Cymru |
| **WGDB25-26(6) 60** | Cartrefi Cymunedol Cymru (CCC) |
| **WGDB25-26(6) 61** | Homecare Association |
| **WGDB25-26(6) 62** | Cymru Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI) |
| **WGDB25-26(6) 63** | Prifysgol Metropolitan Caerdydd |
| **WGDB25-26(6) 64** | Gwasanaeth Natur Cymru |
| **WGDB25-26(6) 65** | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru |
| **WGDB25-26(6) 66** | Y Gymdeithas Strôc |
| **WGDB25-26(6) 67** | Ramblers UK |
| **WGDB25-26(6) 68** | TUC CYMRU |
| **WGDB25-26(6) 69** | Conffederasiwn GIG Cymru |
| **WGDB25-26(6) 70** | Cymorth Cymru |
| **WGDB25-26(6) 71** | Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (CCGC) a Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| **WGDB25-26(6) 72** | Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau |
| **WGDB25-26(6) 73** | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLLC) |

## Gwybodaeth Ychwanegol

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru | 17 Rhagfyr 2023 |
| Cyngor Sir y Fflint | 18 Rhagfyr 2024 |
| Tenovous Cancer Care | 19 Rhagfyr 2024 |
| Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | 23 Ionawr 2025 |
| Sparkle | 29 Ionawr 2025 |